

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol
52/2015

www.cymru.gov.uk

DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GYMUNED

Astudiaeth Ymchwil

DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GYMUNED

**Astudiaeth Ymchwil a gwblhawyd fel rhan o'r Gwerthusiad o
Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg: *laith fyw:
laith byw***

Rhian Hodges, Cynog Prys, Alison Orrell, Sioned Williams ac Einir Williams
Grŵp Cynllunio Iaith, Prifysgol Bangor

mewn cydweithrediad gyda Hywel M. Jones, Statiaith ac Arad.



Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Catrin Redknap
Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 5720

Ebost: catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 7 Hydref 2015

ISBN: 978-1-4734-4845-2

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni
nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau.....	3
Rhestr o dablau.....	4
Geirfa	5
1. Cyflwyniad	6
2. Cefndir Cysyniadol.....	11
3. Methodoleg	20
4. Cefndir Ystadegol	35
5. Canfyddiadau yn ôl cymuned.....	52
6. Themâu a Chanfyddiadau Allweddol	107
7. Casgliadau ac Argymhellion	115
Llyfryddiaeth.....	126
Atodiadau	130
Atodiad 1.1: Llythyr gwahoddiad i fod yn rhan o'r astudiaeth	130
Atodiad 1.2 Taflen Wybodaeth Grwpiau Ffocws	131
Atodiad 1.3 : Ffurflen Cydsynio Grwpiau Ffocws.....	133
Atodiad 1.4: Atodlen Gyfweld Grwpiau Ffocws	134
Atodiad 1.5: Taflen Wybodaeth Arolwg Stryd.....	136
Atodiad 1.6: Cyfarwyddiadau Arolwg Stryd	137
Atodiad 1.7: Arolwg Stryd.....	140
Atodiad 1.8: Nodweddion Ymatebwyr Arolwg Stryd	146
Atodiad 1.9 Nodweddion Iaith Gymraeg Ymatebwyr Arolwg Stryd.....	147
Atodiad 1.10: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y chwe chymuned	160
Atodiad 1.11: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Aberteifi	162
Atodiad 1.12: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mangor	163
Atodiad 1.13: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Llanrwst	164
Atodiad 1.14: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Rhydaman	165
Atodiad 1.15: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Aberystwyth.....	166
Atodiad 1.16: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mhorthmadog	167
Atodiad 1.17: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Aberteifi).....	168

Atodiad 1.18: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Bangor)	170
Atodiad 1.19: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Llanrwst)	172
Atodiad 1.20: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Rhydaman)	174
Atodiad 1.21: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Aberystwyth)	176
Atodiad 1.22: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Porthmadog)	178

Rhestr o ffigurau

Ffigur 4.1: Poblogaeth tair oed a throsodd yn y chwe chymuned, 1961–2011	36
Ffigur 4.2: Poblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru yn ôl cymuned, 2011	37
Ffigur 4.3: Nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ôl cymuned, 1961–2011	38
Ffigur 4.4: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ôl cymuned, 1961–2011	39
Ffigur 4.5: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ôl oedran fesul cymuned, 1991–2011	41
Ffigur 4.6: Canran y siaradwyr Cymraeg 3 i 18 oed, yn ôl ward o fewn cymuned, 2011	43
Ffigur 4.7: Canran y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd yn ôl diwydiant cyflogaeth a chymuned, 2011	45
Ffigur 5.1: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Aberteifi	55
Ffigur 5.2: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg ym Mangor	63
Ffigur 5.3: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Llanrwst	72
Ffigur 5.4: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Rhydaman	80
Ffigur 5.5: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Aberystwyth	89
Ffigur 5.6: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg ym Mhorthmadog	99

Rhestr o dablau

Tabl 4.1: Trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu, 2001 - 2011	48
Tabl 4.2: Disgyblion ysgolion cynradd a gynhelir, pump oed a throsodd, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg yn ôl asesiad rhieni, 2014 (a) (b)	50
Tabl 5.1: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, (hanesyddol a chyfredol), naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Aberteifi	56
Tabl 5.2: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol ym Mangor	64
Tabl 5.3: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Llanrwst	73
Tabl 5.4: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Rhydaman	81
Tabl 5.5: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Aberystwyth	90
Tabl 5.6: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol ym Mhorthmadog	100

Geirfa

Acronym	Diffiniad
AG	Ardal Gynnyrch
BYIG	Bwrdd yr Iaith Gymraeg
CYD	Cymry Cymraeg a Dysgwyr ar y Cyd
GSR	Government Social Research
OA	Output Area / Ardal Gynnyrch
PCAI	Prosiect Cefnogi Arferion Iaith

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn Nhachwedd 2014 comisiynwyd Prifysgol Bangor i gynnal astudiaeth ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru. Diben yr astudiaeth oedd ychwanegu at ein dealltwriaeth o sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cymunedau, ac asesu a yw'r math o raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn diwallu anghenion cymunedau. Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yn cyfrannu at lunio polisi cynllunio ieithyddol y dyfodol.
- 1.2 Cyhoeddwyd Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg, *laith fyw: iaith byw* ar 1 Mawrth 2012 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2012 (Llywodraeth Cymru, 2012). Bydd yn parhau mewn grym tan ddiwedd Mawrth 2017. Yn y Strategaeth, amlinellir gweledigaeth Llywodraeth Cymru o '[g]weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru 2012:14). Mae Maes Strategol 3 y Strategaeth yn rhoi sylw penodol i 'gryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned' (tud.16), ac mae'r meysydd sydd wedi eu cynnwys o fewn yr astudiaeth hon yn cyfateb yn fras i'r meysydd sydd wedi'u cynnwys o dan y pennawd hwnnw.
- 1.3 Ym mis Awst 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi, *Bwrw Mlaen*, er mwyn adeiladu ar sylfeini *laith fyw: iaith byw*. Mae'r datganiad polisi yn amlinellu ffocws Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2014-17, ac yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol: yr angen i gryfhau cysylltiadau rhwng yr economi a'r Gymraeg, yr angen am well cynllunio strategol ar gyfer y Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, a her newid ymddygiad ieithyddol. Mae'r ddogfen yn ystyried datblygiadau ym maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru, gan gynnwys y newidiadau yn y tirwedd ieithyddol a adlewyrchwyd yng nghanlyniadau Cyfrifiad 2011. Gwelwyd cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg yn crebachu gyda gostyngiadau yng nghanran siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Môn, tra cafwyd cynnydd isel yng Nghaerffili, Caerdydd a Sir Fynwy.¹

¹<http://www.comisiynyddygymraeg.org/Cymraeg/Cymorth/dataacystadegau/Pages/Cyfrifiad2011canlyniadauanewidiadauer2001.aspx> (cyrchwyd 30.11.14)

1.4 Bwriedir i'r astudiaeth hon gefnogi gwaith Llywodraeth Cymru wrth iddi fireinio a datblygu ei dulliau gweithredu i gyrraedd yr amcanion a gyflwynir yn *laith fyw, iaith byw a Bwrw Mlaen*. Gosodwyd seiliau'r astudiaeth gan y Fframwaith Gwerthuso ar gyfer *laith fyw: iaith byw* a gyhoeddwyd yn Chwefror 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013a). Mae'r Fframwaith yn cynnig sylfaen ar gyfer dull systemataidd o asesu effaith a chanlyniadau'r strategaeth, ac mae'n fan cychwyn ar gyfer datblygu'r theori newid sydd ymhlyg ynddi.

1.5 Gosodwyd pedwar cwestiwn ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon, sef:

- Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i fodoli fel unedau Cymraeg cynaliadwy?
- Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i integreiddio pobl ddi-Gymraeg a dysgwyr Cymraeg?
- Beth yw'r ffactorau sy'n ysgogi newid ieithyddol o fewn cymunedau gwahanol?
- A yw dull Llywodraeth Cymru o gynllunio ieithyddol, fel y'i hamlinellir yn Strategaeth y Gymraeg, yn sicrhau'r ysgogiad sydd ei angen a'r hyfywedd ieithyddol cynaliadwy sydd ei angen yng nghymunedau Cymru?

Wrth ddehongli anghenion y fanyleb a'r cwestiynau ymchwil, rhoddwyd sylw penodol i'r ystyriaethau isod yn ogystal:

- dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith (yn cynnwys cyd-destun, sgiliau ieithyddol ac agweddau at iaith);
- canfod barn y cyhoedd ynglŷn â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol;
- cyfrannu at ddatblygu fframwaith teipoleg i fapio proffiliau ieithyddol cymunedau, gyda'r nod o gynorthwyo cynllunwyr ieithyddol i benderfynu ar ymyriadau addas;
- cynnig argymhellion polisi ymarferol i hysbysu strategaeth ieithyddol cymunedol yng Nghymru.

1.6 Roedd y fanyleb ar gyfer yr astudiaeth hon yn gofyn am ddarn o waith i'w gyflawni rhwng Tachwedd 2014 a Mawrth 2015. Oherwydd y cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â hyn, nid oedd modd cynnal gwerthusiad systemataidd o'r cynlluniau a'r gweithgareddau unigol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau. Diben yr astudiaeth, yn hytrach, oedd:

- cynnig amlinelliad o'r cyfleoedd sydd yn bodoli i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gymunedau yng Nghymru.
- cynnig mewnwelediad i arferion a chymelliannau ieithyddol siaradwyr y cymunedau.
- dod i rai casgliadau ynghylch dylanwad a phriodoldeb y rhaglenni mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu a'u datblygu ym maes hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau.
- adnabod y ffactorau sydd yn diffinio hyfywedd ieithyddol cymunedau, er mwyn cyfrannu at greu teipoleg cymunedau ieithyddol.

1.7 O fewn yr amser cyfyngedig rhoddwyd ystyriaeth i'r cwestiynau uchod drwy gynnal trosolwg o ymddygiad ac arferion ieithyddol mewn chwe chymuned. Mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, dewiswyd y chwe chymuned mewn ymgais i edrych yn benodol ar leoliadau sydd wedi derbyn buddsoddiad a sylw penodol drwy raglenni bwriadus i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Yn ychwanegol, cafwyd ymgais i gymharu'r lleoliadau hyn gyda chymunedau eraill lle nad oes pwyslais mor gryf wedi bod ar ddarparu neu greu cyfleoedd i ddefnyddio neu gryfhau'r Gymraeg. Dewiswyd y cymunedau canlynol ar gyfer yr astudiaeth:

- Aberteifi
- Bangor
- Llanrwst
- Rhydaman
- Aberystwyth
- Porthmadog

Ceir manylion pellach am y rhesymeg a'r fethodoleg ym Mhennod 3: *Methodoleg*.

1.8 Er mwyn dadansoddi a dehongli patrymau defnydd iaith a gweithgarwch cymunedol o fewn cymunedau'r astudiaeth, lluniwyd fframwaith cysyniadol yn seiliedig ar ddehongliadau o'r hyn a olygir ym maes cymdeithaseg wrth 'cymuned' a'r syniad o berthyn. Ceir ymgais yn ogystal i leoli'r astudiaeth o fewn fframwaith damcaniaethol cynllunio ieithyddol, sydd yn cydnabod rôl y gymuned a rhwydweithiau cymdeithasol mewn perthynas â chreu a chynnal arferion ieithyddol (Pennod 2: *Cefndir Cysyniadol*). Mewn ymgais i adlewyrchu natur gymhleth ac amlweddol cynllunio ieithyddol ar lefel gymunedol, dewiswyd y dulliau ymchwil canlynol ar gyfer yr astudiaeth:

- grwpiau ffocws â grwpiau cymunedol yn y chwe chymuned;
- arolygon stryd ar strydoedd mawr neu fannau canolog y chwe chymuned;
- dadansoddiad o ddata eilaidd i lunio proffil ystadegol o'r chwe chymuned;
- dadansoddiad o ddata monitro a data gweinyddol Llywodraeth Cymru.

1.9 Adroddir yn llawn ar ddulliau ymchwil yr astudiaeth ym Mhennod 3: *Methodoleg*. Gyda'r nod o osod canfyddiadau'r ymchwil yn eu cyd-destun ehangach, cyflwynir proffil ystadegol o nodweddion demograffaid ac ieithyddol y chwe chymuned ym Mhennod 4: *Ystadegau Cefndirol*. Cyflwynir dadansoddiad o ganlyniadau'r ymchwil cynradd ym Mhennod 5: *Canfyddiadau yn ôl cymuned*. Trafodir y themâu a'r meysydd trafod a gododd yn ystod grwpiau ffocws pob cymuned ar wahân. Cyflwynir y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r arolygon stryd i gyfoethogi neu ategu'r dystiolaeth hon. Tynnir ar y themâu cyffredin a cheir trafodaeth ehangach, yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd am raglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol, ym Mhennod 6: *Themâu a Chanfyddiadau Allweddol*. Mae Pennod 7: *Casgliadau ac Argymhellion*, yn

tynnu ynghyd brif negeseuon yr astudiaeth, ac yn cynnig argymhellion polisi i sylw Llywodraeth Cymru.

2. Cefndir Cysyniadol

2.1 Bwriad y bennod hon yw amlinellu cefndir cysyniadol a damcaniaethol yr astudiaeth ymchwil. Gwneir hyn gyda'r nod o:

- archwilio sut mae'r cysyniad o 'gymuned' a'r syniad o berthyn yn berthnasol i'r cwestiynau ymchwil a osodwyd;
- ystyried arwyddocâd y cwestiynau ymchwil yng nghyd-destun cymdeithaseg iaith a pholisi cynllunio ieithyddol.

Cyflwynwn isod drosolwg o'r prif gysyniadau a fu'n gefn i ni wrth i ni fynd ati i ddehongli'r cwestiynau ymchwil.

2.2 Diffinio 'Cymuned'

Mae'r cysyniad 'cymuned' yn un aml-haenog a chymhleth, sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i drafodaethau traddodiadol yn ymwneud â lleoliad daearyddol yn unig. Mae ymchwil arloesol Tönnies (1887) yn cynnig esboniad ar ddwy fath o gymdeithas ddynol, sef y *gemeinschaft* ('y gymuned') sy'n ymwneud ag undod clos a dealltwriaeth gymdeithasol a diwylliannol, a'r *gesellschaft* ('cymdeithas' neu 'gyd-gymuned') sef cysylltiadau ag unigolion sy'n sicrhau buddiannau unigolyddol. Yn ôl Tönnies, cyfuno'r *gemeinschaft* a'r *gesellschaft* sy'n adlewyrchu cymhlethdod y gymdeithas. O ganlyniad, gellir dehongli bod Tönnies yn ehangu'r dehongliad o gymuned y tu hwnt i nodweddion daearyddol yn unig.

2.3 Yn yr un modd, noda Cohen (1985) bod y syniad o gymuned yn seiliedig ar aelodau'r gymuned honno yn rhannu nodwedd sydd yn gyffredin gydag aelodau eraill y grŵp a bod y nodwedd honno'n wahanol i nodweddion grwpiau eraill. Cred Cohen bod ffiniau'r gymuned yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys rhai daearyddol (megis afon, mynydd neu ffiniau gwleidyddol), ond hefyd nodweddion sy'n ymwneud â rhyngweithiad cymdeithasol a hunaniaeth (megis hil, crefydd neu iaith). Iddo ef, felly, mae'r cysyniad o gymuned yn seiliedig ar y nodweddion cyffredin hynny a rennir gan aelodau'r gymuned, ond hefyd ar y rhai sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth

eraill. Fodd bynnag, noda Cohen (1985:12) y gall y cysyniadau hyn fod yn rhai annelwig iawn: '[...] *not all boundaries, and not all the components of any boundary, are so objectively apparent. They may be thought of, rather, as existing in the mind of the beholders.*' Yn ogystal â hyn, gellir cyfeirio at fodolaeth math cymharol ddiweddar o gymunedau, sydd yn llai dibynnol ar nodweddion dearyddol, sef cymunedau ar-lein. O ganlyniad i ddatblygiadau technolegol, nid yw rhyngweithiad cymdeithasol bellach o reidrwydd yn seiliedig ar gyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion (Blackshaw, 2010).

- 2.4 Disgrifia Bauman (2001:3) y gymuned fel un ddelfrydol, afrealistig bron: 'the kind of world which is not, regrettably, available to us – but which we would dearly love to inhabit and which we hope to repossess.' Ymhellach, ceir corff o ymchwil sy'n ymdrin ag elfennau symbolaidd (Cohen *et al.*, 1982; Cohen, 1985) neu ddychmygol (Anderson, 1991) wrth ddiffinio'r gymuned. Cyfeiria Cohen (1985:118) at bwysigrwydd ystyron symbolaidd y gymuned benodol '[...] *people construct community symbolically, making it a resource and repository of meaning, and a referent of their identity*'. O ganlyniad, gellid dehongli bod y cysyniad o gymuned yn gysyniad haniaethol a symbolaidd sydd yn gysylltiedig â hunaniaeth aelodau'r grŵp.
- 2.5 Cyfeiria Anderson (1991) at y cysyniad o gymuned ddychmygol - realiti'r gymuned yw canfyddiadau'r unigolion o fywiogrwydd a chydlynid eu cymunedau. Gan gyfeirio at iaith yn benodol, noda Anderson ddylanwad iaith ar greu a diffinio cymunedau, wrth i aelodau'r gymuned ddatblygu hunaniaeth gyffredin yn seiliedig ar iaith a rennir gan eu haelodau. Mae Anderson hefyd yn cyfeirio at fodolaeth hierarchaeth ieithyddol o fewn a rhwng y cymunedau ieithyddol hynny.
- 2.6 Cysyniad allweddol arall wrth ddadansoddi a dehongli cymuned yw perthyn (Crow ac Allan, 1994) a rhwydweithiau cymdeithasol (Putnam, 2000). Gwahaniaetha Putnam (2000:274) rhwng teimladau o berthyn dwys (megis teulu a ffrindiau), a chysylltiadau gwan (megis gwaith, sefydliadau crefyddol a cymdeithas sifil), sydd yn bodoli o fewn cymuned. Mae Crow ac Allan (1994:06) yn trafod y berthynas rhwng cymuned a pherthyn gan nodi: '*...[community] plays a crucial symbolic role in generating people's sense of belonging*'.

2.7 Cwestiwn perthnasol i'r drafodaeth ar gymuned yw i ba raddau mae unigolion yn ymgorffori normau ac arferion cymunedau amrywiol. Disgrifia de Tocqueville (1994:284) y normau fel '*habits of the heart*' sydd wrth wraidd cymunedau amrywiol. Dyma sy'n penderfynu ymwneud yr unigolion â'u cymunedau penodol. Yng ngwaith Bourdieu (1987) cyfeirir at y cysyniad o '*habitus*' sy'n cwmpasu ymarferion diwylliannol grwpiau arbennig o unigolion. Datgana bod yr arferion hyn yn cael eu sefydlu a'u hatgynhyrchu o fewn y grŵp ac yn codi o brofiadau bywyd a chynefin unigolion. Ychwanega Bourdieu (1987) a Putnam (2000) y cysyniad 'cyfalaf cymdeithasol' i faes y gymuned. Cyfeiria Bourdieu at unigolion fel aelodau o grŵp neu gymuned arbennig, mewn rhwydweithiau o berthnasau cymunedol sydd yn meddu ar werthoedd, rhinweddau a rhwydweithiau tebyg i aelodau eraill y gymuned. Mae'r cysyniad o 'gyfalaf diwylliannol' (Bourdieu, 1986) hefyd yn berthnasol wrth ddadansoddi natur cymunedau penodol yng Nghymru gan ei fod yn gysylltiedig â statws, bri cymdeithasol ac arferion diwylliannol megis rhwydweithiau cymdeithasol a rôl iaith o fewn y rhwydweithiau a'r cymunedau hynny. Byddwn yn tynnu ar y fframweithiau uchod, lle'n briodol, er mwyn gosod cyd-destun damcaniaethol ehangach i'r astudiaeth hon.

2.8 **Cymuned, rhwydweithiau cymdeithasol ac ymddygiad ieithyddol**

Mae arwyddocâd iaith fel dull o ddiffinio neu fynegi perthynas siaradwyr gyda'u 'cymuned' wedi cael sylw helaeth yn y llenyddiaeth. Ymhlith y trywyddau mwyaf cyfarwydd mae'r sylw a roddir i iaith fel ffordd o ddiffinio hunaniaeth gymdeithasol (Bourhis, Giles a Tajfel, 1973), a'r gydberthynas rhwng cryfder rhwydweithiau cymdeithasol a chynnal defnydd iaith (Milroy, 1992; Milroy a Milroy, 1985). Cyfeiria Milroy a Milroy (1985), er enghraifft, at bwysigrwydd rhwydweithiau o gysylltiadau rhwng unigolion a'u dylanwad ar ddefnydd iaith. Adrodda Wenger (1995) ar gyfres o rwydweithiau cefnogaeth i bobl hŷn yng Ngogledd Cymru (e.e. ffurfiol, anffurfiol) a'u dylanwad ar ddefnydd iaith yn y gymuned. Ceir yn ymchwil Morris (2007) ymgais i ddeall ymddygiad ieithyddol pobl ifanc a'u defnydd o'r Gymraeg ar sail archwiliad o faint a chyfansoddiad eu rhwydweithiau cymdeithasol.

- 2.9 Wrth osod y drafodaeth hon yng nghyd-destun polisi cynllunio iaith, gwelwn fod sawl pwynt cyswllt sydd yn tanlinellu pwysigrwydd 'cymunedau' i'r drafodaeth ynghylch yr hyn sydd yn diffinio hyfywedd iaith. Mae ymchwil arloesol Fishman (1991) ar wrthdroi shiftt ieithyddol a'r fframwaith GIDS ('*Graded Intergenerational Disruption Scale*') yn cynnig wyth cam er mwyn asesu pa mor fregus yw ieithoedd lleiafrifol. Mae'n nodi ynddo bwysigrwydd cymuned o siaradwyr er mwyn sicrhau dyfodol ieithoedd lleiafrifol. Yn ychwanegol, cynigiwyd Fframwaith gan UNESCO (2009) er mwyn asesu hyfywedd ieithoedd lleiafrifol ac er mwyn gwerthuso eu cryfder a'u cyfle i oroesi yn y dyfodol. Gwelir yma gysylltiad â'r persbectif ecoleg iaith a'r cysyniad bod angen amddiffyn ieithoedd lleiafrifol fel yr ydym yn amddiffyn byd natur.
- 2.10 Gan ddatblygu ymhellach waith Fishman (1991), mae Darquennes (2007) yn cynnig fframwaith cysyniadol y gellir ei ddefnyddio er mwyn astudio ecoleg ieithyddol cymunedau ac ymddygiad ieithyddol, sef y dull proffil cymdeithasol. Mae'r fframwaith hwn yn pwysleisio'r gydberthynas rhwng gallu ieithyddol, cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio iaith, a chymhellion ieithyddol. Cyfeiria Darquennes at waith Labrie, Nelde a Weber (1994), gan drafod nodweddion gwybyddol, cymdeithasol ac affeithiol defnydd iaith cymunedol, gyda'r rhyngweithiad rhwng y tair nodwedd hon yn dylanwadu ar ddefnydd iaith gymunedol yn gyffredinol.
- 2.11 Er mwyn astudio'r cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau o dan sylw yn yr astudiaeth bresennol, mae fframwaith damcaniaethol Darquennes (2007) yn ddefnyddiol. Cyfeiria Darquennes at bedwar cam wrth ddadansoddi hyfywedd cymunedau ieithyddol. Mae'r cam cyntaf yn ymwneud â disgrifio'r gymuned ieithyddol yn seiliedig ar ecoleg iaith. Yn yr ail gam adroddir ar nodweddion cymdeithasol a strwythurol y gymuned gan gynnwys patrymau defnydd iaith. Mae'r trydydd cam yn cynnwys dadansoddi'r data a gesglir, tra bod y pedwerydd cam yn ymwneud â dehongli'r data. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig strwythur addas wrth ymgymryd â'r dasg o astudio defnydd iaith o fewn y gymuned.
- 2.12 Yn ogystal â hyn, mae teipoleg Morris (2010) yn cynnig categorïddio cymunedau yn ôl y tri grŵp canlynol:

1. Cymunedau sydd yn cymathu
2. Cymunedau gyda grwpiau iaith benodol
3. Cymunedau sydd yn cael eu cymathu

Mae'r categori cyntaf yn cynrychioli cymunedau Gymraeg hyfyw ble mae pwysau sylweddol ar unigolion o gefndiroedd ieithyddol amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol, e.e. mewn clybiau a chyda cyfoedion. Mae'r trydydd categori yn cynrychioli cymunedau ble mae shiftt ieithyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg wedi digwydd. O fewn y math hwn o gymuned, mae'r Saesneg yn cael ei defnyddio'n gynyddol fel norm er bod gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn bodoli. Mae'r categori yn y canol yn cynrychioli cymunedau ble mae rhwydweithiau cymdeithasol iaith Gymraeg a rhwydweithiau cymdeithasol Saesneg yn byw ochr yn ochr â'i gilydd. O fewn y categori yma, rhennir gweithgareddau yn aml ar sail iaith.

- 2.13 Dylid cadw mewn cof hefyd fod datblygiadau technolegau diweddar wedi ychwanegu (ac yn parhau i ychwanegu) dimensiynau newydd i'r broses o ddehongli ac astudio cymunedau. Er enghraifft, mae dyfodiad y we fyd eang yn ystyriaeth wrth geisio dehongli gwahanol fathau o gymunedau ieithyddol. Nid yw'r cymunedau hyn o reidrwydd yn gysylltiedig â lleoliadau daearyddol a chyswllt uniongyrchol yn y byd go iawn (Blackshaw, 2010). Ceir her ychwanegol, felly, wrth geisio diffinio cymunedau ar-lein a dehongli'r rhydwdeithiau cymdeithasol sydd yn bodoli ynddynt. Yng nghyd-destun y Gymraeg, dadleua Cunliffe *et al.* (2013) dros fodolaeth cymuned Gymraeg ar-lein fel lleoliad newydd i ddefnyddio iaith a datblygu rhwydweithiau ieithyddol ehangach.
- 2.14 Fel y gwelir yn y drafodaeth uchod, nid proses syml yw diffinio 'cymuned', ac mae'r heriau sydd ynghlwm â hyn ymhlyg yn y penodau sy'n dilyn. Ceir esboniad o sut yr aethpwyd ati i ddiffinio cymunedau'r astudiaeth (a'r cyfyngiadau sydd angen eu cadw mewn cof) ym Mhennod 3: *Methodoleg*.

2.15 Cynllunio ieithyddol yng Nghymru a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Gwelir bod cydnabyddiaeth o bwysigrwydd defnydd cymunedol o'r Gymraeg wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhan ganolog o'r agenda cynllunio ieithyddol yng Nghymru. Adlewyrchir hyn yng nghynnwys strategaethau iaith Llywodraeth Cymru (e.e. Llywodraeth Cymru 2003, 2012, 2014), cynlluniau strategol a rhaglenni gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn hynny, a Chomisiynydd y Gymraeg.

2.16 Elfennau greiddiol o strategaethau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg yw hybu a hwyluso defnydd iaith feunyddiol ar lefel gymunedol.

Mae hyn yn cynnwys gweithredu i gynnal bröydd Cymraeg eu hiaith ac adfywio'r Gymraeg lle mae wedi edwino: 'Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i [...] weithredu mewn modd bwriadus mewn ardaloedd lle y caiff y Gymraeg ei siarad fel prif iaith bywyd beunyddiol, neu lle'r oedd yn brif iaith tan yn gymharol ddiweddar, a lle mae canran y siaradwyr Cymraeg yn lleihau'n gyflym.' (Llywodraeth Cymru 2012:33).

2.17 Mae'r gymuned yn cael sylw penodol o dan Faes Strategol 3 *iaith fyw: iaith byw* (Llywodraeth Cymru, 2012). Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'r gymuned yn faes trosfwaol sydd yn aml yn ymestyn i strategaethau cynllunio ieithyddol yn ymwneud â'r teulu, addysg a'r gweithle, a chydabyddir hynny gan Lywodraeth Cymru (e.e. 2012 a 2014). O ganlyniad mae'n bwysig ystyried effeithiau'r meysydd amrywiol hyn ar ei gilydd wrth asesu strategaeth Llywodraeth Cymru i '[g]ryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau' (Llywodraeth Cymru 2014:04).

2.18 Mae Datganiad Polisi *Bwrw Mlaen* Llywodraeth Cymru (Awst 2014) yn adeiladu ar strategaeth *iaith fyw: iaith byw*, ac yn gosod amcanion polisi o ran y Gymraeg ar gyfer 2014-2017.

Nod y datganiad polisi yw:

- gwneud y Gymraeg yn elfen normal o fywyd bob dydd;
- herio'r Llywodraeth, yn ogystal â'r sector cyhoeddus yn ehangach, busnesau, y trydydd sector ac unigolion, i hyrwyddo'r iaith;

- newid arferion ieithyddol, gan ddefnyddio technegau newid ymddygiad o feysydd eraill;
- annog sefydliadau i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros y Gymraeg, a chynllunio'n well ac yn fwy strategol, gan fuddsoddi yn yr iaith;
- cynyddu buddsoddiad yn y cyrff sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned;
- cydnabod bod datblygu'r Gymraeg yn mynd law yn llaw â datblygu economaidd, a buddsoddi mewn rhaglenni penodol i gefnogi hynny;
- sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddatblygiadau ym maes technoleg.

2.19 Mae'r Datganiad yn nodi'r modd y bydd y Llywodraeth yn adeiladu ar weithgareddau presennol, gyda buddsoddiad ychwanegol gwerth £1.2 miliwn dros 2014-16. Fel rhan o'r gwariant ychwanegol, neilltuir £750,000 ar gyfer datblygu gwaith y Mentrau Iaith, gan gynnwys cyllid i gryfhau strwythurau cenedlaethol y Mentrau er mwyn darparu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr i staff partneriaid grant y Llywodraeth, ynghyd ag adnoddau i farchnata'r Gymraeg yn gymunedol. Dyrannwyd hefyd £300,000 ar gyfer grant 'Bwrw Mlaen' i hybu arloesi yn yr ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg ac ardaloedd eraill sydd o bwysigrwydd strategol. Yn ychwanegol at hyn, mae buddsoddiad o £2.25 miliwn i ddatblygu canolfannau a mannau dysgu newydd arloesol ledled Cymru er mwyn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Mae'r sefydliadau cenedlaethol canlynol, sy'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned drwy gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith, yn parhau i dderbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol:

- Mentrau Iaith
- Urdd Gobaith Cymru
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru
- Merched y Wawr
- Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
- Papurau Bro
- Cymdeithas Eisteddfodau Cymru.

- 2.20 Bydd y sefydliadau hyn, yn ogystal â nifer o gynlluniau cymunedol eraill yn derbyn cyfanswm o £4,509,391.00 yn 2015/16. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys y buddsoddiad ychwanegol, cyllideb ar gyfer datblygu gwaith y Mentrau, a'r gyllideb ar gyfer grant 'Bwrw Mlaen'.
- 2.21 Yn ogystal â hyn, ariennir cynlluniau penodol megis Twf, a Tyfu gyda'r Gymraeg, i annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd. Ceir cynlluniau penodol hefyd ar gyfer plant a phobl ifanc drwy brosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI) ar gyfer ysgolion uwchradd a gweithgareddau ym maes cerddoriaeth boblogaidd.
- 2.22 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gydlynu'r maes Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol a'i ddatblygu'n strategol. Roedd yr adolygiad o faes Cymraeg i Oedolion a gynhaliwyd yn 2012-13 yn cynnwys nifer o argymhellion i wella a datblygu'r ddarpariaeth, gan gynnwys sefydlu Endid Cenedlaethol i fod yn gyfrifol am ddatblygiad strategol y maes. Bwriad y cynllun yw cynllunio ar gyfer y dyfodol drwy lunio strategaeth ar lefel genedlaethol i gydlynu maes Cymraeg i Oedolion.
- 2.23 Felly, beth yw'r sefyllfa gyfredol o ran defnydd y Gymraeg yng Nghymru? Dengys *Arolwg Defnydd Iaith 2013–2014* (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) bod bron i hanner (46 y cant), o'r holl siaradwyr Cymraeg (310,600) yn ystyried eu hunain yn rhugl, a bod ychydig dros hanner y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd. Roedd 43 y cant o oedolion sy'n siarad Cymraeg wedi mynychu gweithgaredd neu ddigwyddiad diwylliannol yn y flwyddyn flaenorol a gynhaliwyd yn Gymraeg ac 18 y cant wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg. Yn ôl yr Arolwg, roedd y ganran oedd wedi bod i ddigwyddiad diwylliannol a gynhaliwyd yn Gymraeg yn cynyddu ychydig gydag oedran, a'r ganran oedd wedi bod i ddigwyddiad chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg yn gostwng ychydig gydag oedran. Yn y flwyddyn flaenorol roedd 38 y cant o bobl ifanc oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi mynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn

Gymraeg nad oedd wedi ei drefnu gan ysgol, a 24 y cant wedi mynychu digwyddiad chwaraeon o'r fath.²

- 2.24 Dengys ymchwil Beaufort (2013:36) i ddefnydd y Gymraeg mewn bywyd bob dydd, bod 84 y cant o'r rhai a holwyd yn dweud y byddent yn 'croesawu'r cyfle i wneud mwy yn y Gymraeg'. Yn ogystal, dywedodd 61 y cant o'r rhai a holwyd y byddent yn hoffi gallu siarad Cymraeg yn well. Noda'r ymchwil hefyd bod rhaid i unigolion mewn rhai ardaloedd chwilio yn benodol am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol. Mae'r astudiaeth hefyd yn amlygu rhai o'r ffactorau sydd yn cymhell siaradwyr i ddefnyddio, neu i beidio â defnyddio'r Gymraeg. Mae'r ffactorau hyn, sydd hefyd yn cael eu trafod mewn astudiaethau eraill (er enghraifft, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2008; Hodges 2009 a 2014), yn cynnwys hyder, rhuglder, naws a natur ieithyddol ardal, a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned.

² Canlyniadau blwyddyn gyntaf (2013-14) Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Canlyniadau ar lefel genedlaethol yn unig a geir o fewn yr adroddiad hwn. Bwriedir i ddadansoddiadau pellach gael eu gwneud yn yr adroddiad terfynol, i'w gyhoeddi erbyn diwedd 2015.

3. Methodoleg

3.1 Ystyriaethau a Heriau Methodolegol

Mae cynnal ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol yn dod â sawl her yn ei sgîl. Mae amrediad eang o ffactorau yn gallu dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol unigolion a chymunedau, ac mae dadansoddi a dehongli'r maes yn gofyn am ystyriaeth o sawl ffactor cyd-gysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyd-destun cymdeithasegol a deddfwriaethol, a llu o ystyriaethau sydd yn gysylltiedig â'r siaradwyr eu hunain – eu gallu ieithyddol, rhuglder, hyder, agweddau, eu hawydd i ddefnyddio'r iaith, a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt wneud hynny. Mae'r gymuned yn aml yn dod â'r elfennau hyn ynghyd, ac felly yr her amlwg i ymchwilwyr yw pwysu a mesur effaith y dylanwadau aml-haenog hyn ar iaith a'i defnydd mewn cymuned.

3.2 Wrth geisio deall ymddygiad ieithyddol yng Nghymru ac wrth archwilio dylanwad polisi cynllunio iaith ym maes y Gymraeg, gwelir bod nifer o'r heriau uchod yn berthnasol. Mae'r amrywiaeth sosioieithyddol a geir ar draws Cymru yn golygu nad oes modd cyffredinoli, na rhagdybio fod yr un casgliad o ffactorau yn debygol o fod yn berthnasol, nag yr un mor arwyddocaol mewn ardaloedd gwahanol. Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod map daearyddol ieithyddol Cymru yn un cymhleth, ac mae'r patrymau mudo sydd y tu cefn i'r ffigurau yn arwain at amrywiaeth o gyfleoedd a heriau newydd i'r Gymraeg a'i siaradwyr. Yn ychwanegol at hyn, mae ffactorau megis sut y mae unigolion yn caffael y Gymraeg ac yn datblygu eu sgiliau, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt roi eu sgiliau ar waith, a'u hawydd i wneud hynny, yn haeddu ystyriaeth. Cydnabyddir natur aml-haenog cynllunio ieithyddol, a'r heriau methodolegol sydd ynghlwm â hyn, yn Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg (Llywodraeth Cymru 2013:6). Mae'r cymhlethdod hwn yn cael ei adlewyrchu yn y pedwar cwestiwn ymchwil sydd yn sail i'r astudiaeth hon:

1. Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i fodoli fel unedau Cymraeg cynaliadwy?
2. Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i integreiddio pobl ddi-Gymraeg a dysgwyr Cymraeg?
3. Beth yw'r ffactorau sy'n ysgogi newid ieithyddol o fewn cymunedau gwahanol?
4. A yw dull Llywodraeth Cymru o gynllunio ieithyddol, fel y'i hamlinellir yn Strategaeth y Gymraeg, yn sicrhau'r ysgogiad sydd ei angen a'r hyfywedd ieithyddol cynaliadwy sydd ei angen yng nghymunedau Cymru?

Amlygwyd nifer o ystyriaethau methodolegol wrth ymateb iddynt:

- 3.3 Diffinio sgôp yr astudiaeth a dewis ardaloedd: Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, trafodwyd yr angen i bennu meini prawf a fyddai'n cwrdd â gofynion y cwestiynau ymchwil, ac a fyddai'n realistig o fewn y cyfyngiadau amser a osodwyd. Ystyriwyd sawl posibilrwydd ar gyfer dewis cymunedau i'w cynnwys, er enghraifft dewis ar sail canrannau siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau, neu wahaniaethu ar sail cymunedau gwledig a threfol. Cydnabyddir felly y gellid bod wedi defnyddio sawl maen prawf fel sail ar gyfer y dewis. Yn dilyn trafodaeth â Llywodraeth Cymru cytunwyd mai 'dwyster gweithredu drwy brosiectau bwriadus i hyrwyddo'r Gymraeg' fyddai'r maen prawf ar gyfer y dewis. Dewiswyd pedair ardal ar sail yr egwyddor eu bod wedi derbyn cyfres o gynlluniau a gweithgareddau penodol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg:

- Aberteifi
- Bangor
- Llanrwst
- Rhydaman

a dwy gymuned nad oedd wedi derbyn yr un lefel o sylw neu gynllunio bwriadus gan Lywodraeth Cymru sef:

- Aberystwyth
- Porthmadog

- 3.4 O ran 'dwyster y gweithredu', yr elfen amlycaf oedd bodolaeth Cynlluniau Gweithredu Iaith dros nifer o flynyddoedd yn y pedair ardal a enwir uchod. Roedd sefydlu Cynlluniau Gweithredu Iaith yn ymgais gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i weithredu mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol, gyda'r nod o weithio'n agos gyda phartneriaid yn lleol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan alluogi ac ymbweru cymunedau lleol i ddatblygu a chydlynu gweithgareddau o fewn eu hardaloedd. Cyflogwyd swyddog ym mhob ardal ble sefydlwyd y cynlluniau hyn, gyda phwyllgor lleol yn cynorthwyo i arwain y gwaith yn lleol. Pan ddiddymwyd BYIG yn 2012, trosglwyddwyd gofalaeth y cynlluniau i ofal Llywodraeth Cymru, cyn iddynt gael eu dirwyn i ben yn 2014.
- 3.5 Mae'n bwysig nodi nad yw'r gwahaniaethu rhwng y pedair cymuned o 'weithredu dwys' a'r ddwy ardal arall yn rhaniad cwbl daclus a systematig. Er nad yw Aberystwyth a Phorthmadog wedi derbyn yr un dwyster o gynllunio bwriadus â'r cymunedau eraill, nid yw'r ardaloedd hyn wedi eu heithrio yn llwyr o raglenni a phrosiectau Llywodraeth Cymru. Tra bod Aberystwyth a Phorthmadog wedi eu cynnwys mewn ymgais i gynnwys elfen o gymharu o fewn yr astudiaeth, ni cheir ymgais i drafod yr agwedd hon mewn modd gwyddonol a systematig.
- 3.6 Mae'n bwysig nodi yn ogystal fod yr amrywiaeth o nodweddion a phrofiadau unigol sydd yn diffinio siaradwyr yn golygu fod angen gofal wrth ddehongli arwyddocâd unrhyw dystiolaeth - boed wrth drafod tueddiadau o fewn cymuned neu wrth drafod cymariaethau rhwng cymunedau. Nid oes modd ynysu siaradwyr, mae ffiniau eu profiadau ieithyddol yn symudol ac annelwig, ac mae'r ffactorau sydd yn cyfrannu at eu profiadau yn amlweddog.
- 3.7 Mae'r astudiaeth hon yn cynnig trosolwg o weithgaredd cynllunio ieithyddol cymunedol Llywodraeth Cymru ac yn asesu sut mae hyn yn cyfrannu at hyfywedd ieithyddol cynaliadwy mewn chwe chymuned. Er fod y cymunedau wedi eu lleoli mewn ardaloedd daearyddol amrywiol, nid diben yr ymchwil

oedd cynrychioli cymunedau ledled Cymru. Y nod, yn hytrach, oedd cyfrannu at ein dealltwriaeth o deipolegau cymunedau yng Nghymru. Bwriedir i hyn, yn ei dro, gyfrannu at y dystiolaeth a'r dadasnoddiaid sydd eu hangen i werthuso Strategaeth y Gymraeg.

3.8 Diffinio 'cymuned' a 'lleol'

Amlygwyd sawl cwestiwn wrth geisio diffinio 'cymuned' o fewn yr astudiaeth ymchwil hon, yn cynnwys:

- pa mor eang yw'r gymuned o dan sylw?
- a oes sawl 'cymuned' o fewn cymunedau penodol yr astudiaeth?
- pa mor bwysig yw pellter daearyddol wrth i unigolion ystyried eu hunain mewn perthynas â'u cymuned?

3.9 Tynnwyd ar ddamcaniaethau ym maes cymdeithaseg, cymdeithaseg iaith a chynllunio ieithyddol wrth geisio diffinio hyd a lled yr astudiaeth ac wrth geisio pennu ffiniau cymunedau yn yr astudiaeth.³

3.10 Rhoddwyd sylw yn ogystal i ddiffiniadau o gymdogaeth a drafodir yn fframwaith *Gweithredu'n Lleol* (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2012:7): '[....] mae cymdogaeth yn diffinio ei hun. Diffiniad mewnol yw e, nid diffiniad a osodir oddi allan. Mae cymdogaeth yn gwybod ble mae ei ffiniau.'

3.11 Ystyriaeth bellach wrth ddiffinio cymuned oedd yr hyn a olygir gan 'lleol'. Daeth hyn i'r amlwg wrth bennu maen prawf ar gyfer yr arolwg stryd, oedd â'r nod o ganfod ymatebwyr oedd naill ai'n byw yn y cymunedau dan sylw neu a oedd yn rhan o weithgareddau cymunedol y cymunedau hyn.⁴ Yn ganolog i'r drafodaeth hon oedd dehongliadau'r unigolyn o 'gymuned' a'r hyn oedd yn 'lleol' iddynt.⁵

³ Gweler Pennod 2: *Cefndir Cysyniadol* am drafodaeth bellach.

⁴ Gweler Atodiad 1.7 am wybodaeth bellach.

⁵ Gweler Atodiad 1.6 am wybodaeth bellach.

3.12 **Dulliau ymchwil**

Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr astudiaeth drwy'r dulliau canlynol:

1. Grwpiau Ffocws
2. Arolygon Stryd rhannol strwythuredig
3. Dadansoddiad a dehongliad o ddata ystadegol eilaidd
4. Data monitro a data gweinyddol Llywodraeth Cymru a'u partneriaid.

3.13 **Data Ansoddol**

Grwpiau Ffocws

Dewiswyd grwpiau ffocws fel prif offeryn ymchwil y prosiect hwn gan eu bod yn cynnig cyfle i ymatebwyr gynnal trafodaeth a rhannu eu safbwyntiau gydag aelodau eraill eu cymunedau (Morgan, 1997). Gan fod yr ymchwil yn archwilio nodweddion penodol cymunedau o ran eu capasiti i fodoli fel unedau Cymraeg cynaliadwy a'u capasiti i integreiddio pobl ddi-Gymraeg a dysgwyr, yr oedd trafodaethau grŵp yn gweddu'n briodol i natur y pwnc o dan sylw.

- 3.14 Holwyd grwpiau cymunedol a oedd yn weithredol eisoes o fewn y cymunedau yn hytrach na grwpiau a grewyd at ddibenion yr ymchwil hwn yn unig. Gellid dweud felly mai'r grwpiau ffocws eu hunain a oedd wedi diffinio pwy yn union oedd yn perthyn iddynt. Mantais dewis y grwpiau cymunedol oedd eu bod yn bodoli'n naturiol, yn cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau cyson o fewn eu cymunedau, a bod unigolion y grwpiau hynny yn eu mynychu o'u gwirfodd (Acocella, 2011). Roedd y dull hwn yn sicrhau awyrgylch a thrafodaethau mor naturiol â phosibl. Y bwriad oedd annog sgysiau anffurfiol eu natur yn hytrach na chreu grwpiau trafod ffurfiol ac o bosibl artiffisial eu naws.
- 3.15 Cyfyngiad posibl o ddefnyddio'r grwpiau cymunedol oedd bod deinameg a phatrymau'r grwpiau wedi'u sefydlu eisoes. Er enghraifft, roedd posibilrwydd y gallai rhai aelodau ddominyddu'r drafodaeth tra bod aelodau mwy swil yn amharod i rannu eu safbwyntiau. Fodd bynnag, mae hynny'n gallu digwydd o

fewn grwpiau ffocws yn gyffredinol, a defnyddiwyd dulliau i leihau effaith y tueddiadau hyn (gweler paragraff 3.17).

- 3.16 Un o brif fanteision defnyddio grwpiau ffocws dros ddulliau eraill oedd ei fod yn cynnig ffordd o gasglu data ansoddol cyfoethog am brofiadau, teimladau a safbwyntiau unigryw'r cyhoedd (Kitzinger, 1995; Bryman, 2008): '[...] *focus groups are especially appropriate for studying public attitudes [...] they foster the use of participants' (rather than researcher) priorities, language and concepts.*' (Prior *et al.*, 2003:2193).
- 3.17 Er hynny, nid yw'r dull ymchwil hwn heb ei gyfyngiadau. Mae'n anodd cyffredinoli ar sail patrymau a thueddiadau grwpiau ffocws gan nad yw'r sampl fach o unigolion ynddynt o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r gymuned gyfan. Er mwyn lliniaru'r risg hwn a cheisio sicrhau grwpiau mor gynrychioliadol â phosibl, tynnwyd ar amrywiaeth o grwpiau ffocws o fewn pob cymuned er mwyn casglu amrediad eang o safbwyntiau yn ôl oedran, gan gynnwys grŵp o ddysgwyr y Gymraeg ym mhob ardal. Yn ogystal, dengys ymchwil cymdeithasegol bod tuedd i aelodau penodol ddominyddu trafodaethau o fewn grŵp ffocws, tra bod aelodau eraill yn anfodlon datgan eu gwir safbwyntiau o flaen eraill (Walliman, 2006 a Bryman, 2008). Er mwyn lliniaru'r tueddiad hwn, esboniwyd rheolau penodol grwpiau ffocws (David a Sutton, 2004) i'r cyfranogwyr ar ddechrau'r grwpiau, er mwyn pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfle cyfartal i gyfrannu i'r drafodaeth. Yn ogystal, cynigiwyd cyfres o ddulliau cofnodi data gwahanol o fewn y grwpiau ffocws megis gwaith mewn parau a gweithgareddau rhestru ymatebion ysgrifenedig. Dilynwyd egwyddorion moeseg Prifysgol Bangor ac Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth gan y grwpiau ffocws.
- 3.18 Dewiswyd grwpiau cymunedol o restrau cyhoeddus a oedd yn bodoli'n barod ar wefannau cymdeithasau sifig y chwe chymuned. Lluniwyd bas data cynhwysfawr o grwpiau cymunedol bob ardal gan ddilyn categorïau cyfansoddiad y grwpiau (gweler y rhestr ym mharagraff 3.20). Aethpwyd ati i recriwtio drwy lythyru grwpiau o fewn y cymunedau a'u gwahodd i fod yn rhan o'r astudiaeth ymchwil. Anfonwyd pecyn ymchwil cyflawn atynt a oedd yn esbonio pwrpas a natur y prosiect a'u rôl yn y broses ymchwil.

Derbyniwyd atebion gan sawl grŵp yn ystod y cam hwn, ond aethpwyd ati i gysylltu â'r grwpiau eraill drwy eu ffonio a'u e-bostio gan weithio'n systematig o'r bas data. Roedd y broses recriwtio yn un hyblyg gyda'r pwyslais ar addasu yn unol ag anghenion ymarferol y cyfranogwyr. Cynigiwyd cyfraniad ariannol o hanner can punt i'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn yr astudiaeth ymchwil fel cydnabyddiaeth am eu cyfraniad amser i'r ymchwil. Derbyniodd pob un grŵp y cyfraniad ariannol hwn (er yr esboniwyd nad oedd disgwyliad iddynt dderbyn y cyfraniad petai hynny'n amhriodol). Cyflwynwyd y bwriad o gynnig cyfraniad ariannol yn y cais a gyflwynwyd i Bwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor cyn i'r astudiaeth gychwyn.

- 3.19 Cynhaliwyd cyfanswm o 30 grŵp ffocws yn Aberteifi, Bangor, Llanrwst, Rhydaman, Aberystwyth a Phorthmadog yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2015. Cynhaliwyd pump grŵp ffocws ym mhob cymuned er mwyn cynnig cyfleoedd i glywed safbwyntiau trawsdoriad o unigolion. Ar gyfartaledd roedd rhwng chwech ac wyth unigolyn ym mhob grŵp. Penderfynwyd grŵpio yn ôl y categorïau oedran canlynol: 16-24, 25-39, 40-64, 65+. Dewiswyd y categorïau hyn ar y sail fod y rhaniadau yn diffinio cyfnodau penodol ym mhrofiad unigolion o ystyried y ffordd y mae cynlluniau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg wedi'u targedu. Cydnabyddir nad oes modd cymharu'n uniongyrchol â chanlyniadau'r Cyfrifiad na'r Arolwg Defnydd Iaith.
- 3.20 Er mwyn adlewyrchu gofynion yr ail gwestiwn ymchwil, cydnabuwyd pwysigrwydd clywed llais dysgwyr y Gymraeg o fewn y cymunedau. Er ei bod yn bosibl bod sawl dysgwr yn rhan o grwpiau cymunedol eraill yn yr ardaloedd, penderfynwyd bod angen holi barn grwpiau o ddysgwyr gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau llwyfan addas iddynt leisio eu barn. Pennwyd y categorïau isod felly ar gyfer diffinio cyfansoddiad y grwpiau ffocws:

1. rhieni â phlant ifanc (e.e. meithrinfeydd a grwpiau rhieni a phlant)
2. pobl ifanc (e.e. clybiau ieuenctid)
3. canol oed (e.e. clybiau hamdden)
4. pobl hŷn (e.e. clybiau pensiynwyr)
5. dysgwyr (e.e. rhwydwaith Cymraeg i Oedolion).

3.21 Lluniwyd atodlen gyfweld gyda'r nod o ganfod barn a safbwyntiau unigolion y grwpiau ffocws ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau, ac i gael gwell dealltwriaeth ynghylch arferion defnydd iaith aelodau'r cymunedau.⁶ Gofynnwyd cyfres o gwestiynau ynghylch y canlynol:

- gweithgareddau cymdeithasol y cymunedau; iaith y gweithgareddau a phwy sy'n trefnu ac yn mynychu'r gweithgareddau hyn;
- cyfleoedd bob dydd i ddefnyddio'r Gymraeg, ynghyd â'r bylchau;
- dyfodol yr iaith Gymraeg o fewn eu cymunedau.

3.22 Ym Mhennod 5: *Canfyddiadau yn ôl cymuned* bydd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r grwpiau ffocws yn cael ei chyflwyno; yn gyntaf ar gyfer pob cymuned yn unigol, ac yna yn cyfrannu at y casgliadau troswäol a gyflwynir ar sail thematig ym Mhennod 6: *Themâu a Chanfyddiadau Allweddol*.

3.23 **Tystiolaeth bellach i ategu dystiolaeth y Grwpiau Ffocws (Arolyon Stryd)**

Casglwyd cyfuniad o ddata meintiol ac ansoddol drwy arolygon stryd i ategu neu i amlygu gwahaniaethau mewn perthynas â thystiolaeth y grwpiau ffocws. Cyfweiliadau pum i ddeng munud oedd y rhain, a'u diben oedd archwilio defnydd cymunedol o'r Gymraeg o fewn y chwe ardal. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau caeedig ac agored ar y canlynol:⁷

- gallu ieithyddol;
- patrymau defnydd iaith;
- cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- ymwneud yr ymatebwyr â gweithgareddau lle defnyddir y Gymraeg;
- unrhyw fylchau o ran gweithgareddau cymunedol a'r hyn yr hoffent ei weld o fewn eu cymunedau.

⁶ Gweler Atodiad 1.4 am wybodaeth bellach.

⁷ Gweler Atodiad 1.7 am fanylion ychwanegol.

- 3.24 Pennwyd categorïau oedran yr arolwg stryd i gyd-fynd ag oedrannau'r grwpiau ffocws. Mae'r arolwg stryd yn declyn methodolegol sydd wedi ei ddefnyddio mewn cyd-destunau eraill. Ceir enghreifftiau yng Ngwlad y Basg (Altuna ac Urla, 2013) ac ym Montreal, Canada (Bourhis *et al.*, 2007). Yn yr enghreifftiau hyn arsylwir ar batrymau defnydd iaith gan ddefnyddio dull cuddiedig o wrando ar ba ieithoedd y gwneir defnydd ohonynt ar y stryd fawr. Yn wahanol i'r enghreifftiau uchod, nid mesur defnydd iaith mewn modd cuddiedig oedd pwrpas arolygon stryd yr astudiaeth hon, ond yn hytrach casglu gwybodaeth am arferion defnydd iaith unigolion a'u barn am y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol. Yn wahanol i'r enghreifftiau uchod, yr oedd presenoldeb ymchwilwyr ar y stryd fawr yn amlwg ac yr oedd ymatebwyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg.
- 3.25 Mantais defnyddio arolygon stryd fel dull casglu tystiolaeth yw y gall gynnig trosolwg cynhwysfawr o safbwyntiau aelodau amrywiol y gymuned yn ystod cyfnod penodol (Denscombe, 1998). Yn ogystal, mae data arolygon stryd fel arfer yn cael eu casglu ar ffurf safonol lle nad oes angen i'r ymchwilydd ddosrannu cyfranogwyr i grwpiau penodol er mwyn cymharu canlyniadau ymchwil (Kelley *et al.*, 2003). Yn sgil hynny, felly, roedd arolygon stryd yn ddull addas i gasglu gwybodaeth bellach am ddefnydd iaith ar lefel gymunedol. Er hynny, rhaid nodi'r cyfyngiadau sydd ynghlwm â dull samlo cyfheus. Mae angen gofal wrth adrodd yn feintiol ar y canfyddiadau, ac ni ellir honni fod y sampl a holwyd o anghenraid yn cynrychioli'r gymuned yn ei chyfanrwydd.
- 3.26 Gofynnwyd pedwar cwestiwn hidlo ar ddechrau'r arolwg stryd, i gasglu gwybodaeth am y canlynol:
- a oedd ymatebwyr yn byw yn lleol?
 - a oedd ymatebwyr dros 16 mlwydd oed?
 - a oedd ymatebwyr yn siarad Cymraeg?
 - ym mha iaith yr hoffai'r ymatebwyr ateb yr arolwg?

3.27 *Byw 'yn lleol'*

Fel y trafodwyd yn gynharach yn y bennod, nid oes ateb hawdd na 'chywir' i'r her o ddiffinio ystyr 'cymuned' a 'lleol'. Ar gyfer dibenion yr arolwg, ac yng ngoleuni ystyriaethau'r fframwaith cysyniadol a gyflwynir ym Mhennod 2, diffiniwyd 'lleol' yn ôl sut roedd yr unigolyn ei hun yn diffinio ac yn dehongli 'lleol'.⁸ Y rhesymeg dros hynny oedd mai dyma'r maen prawf a oedd yn debygol o ddylanwadu ar ymdrech ac ymroddiad yr unigolyn i gyfranogi ym mywyd cymunedol yr ardal dan sylw. Cydnabyddir bod y diffiniad hwn yn wahanol i'r diffiniadau a ddefnyddir ym Mhennod 4: *Ystadegau Cefndirol*, a Phennod 5, lle ceir proffiliau o'r chwe chymuned, yn seiliedig ar wybodaeth am gymunedau a wardiau.

3.28 *Oedran*

Bwriad yr arolwg stryd oedd derbyn sylwadau gan ymatebwyr dros 16 mlwydd oed yn unig; amlinellwyd hynny o fewn dogfennau cais Pwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor.

3.29 *Gallu i siarad Cymraeg*

Er mwyn gallu ymdrin â'r cwestiynau ymchwil yn llawn y nod oedd llunio sampl o siaradwyr Cymraeg a oedd yn meddu ar amrediad eang o sgiliau ieithyddol, yn amrywio o ddeall ychydig eiriau, i siaradwyr rhugl. Lluniwyd cyfarwyddiadau i ymchwilwyr yr arolwg stryd i gadarnhau a oedd ymatebwyr yn siarad Cymraeg ai peidio, ac i gynnwys siaradwyr a oedd yn deall ychydig eiriau yn unig.⁹

⁸ Gweler Pennod 2: Cefndir Cysyniadol a thrafodaeth gynharach yn y bennod hon.

⁹ Gweler Atodiad 1.6 Cyfarwyddiadau'r Arolwg Stryd am esboniad cyflawn o ddiffiniadau cysyniadau allweddol yr ymchwil.

3.30 *Dewis iaith*

Lluniwyd arolygon stryd dwyieithog a chynigiwyd dewis iaith i'r ymatebwyr fel rhan o'r pedwar cwestiwn hidlo. Cyflwynwyd yr agwedd dewis iaith fel elfen o'r hyfforddiant i ymchwilwyr yr arolwg stryd.

3.31 Casglwyd y data ar stryd fawr neu fannau canolog eraill o fewn y cymunedau dros gyfnod o bythefnos rhwng Chwefror 16eg a Mawrth 2il 2015. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cymunedau, clustnodwyd un diwrnod yn ystod yr wythnos ac un dydd Sadwrn ar gyfer casglu data ym mhob un. Cafwyd tri chyfnod casglu data ym mhob cymuned - sesiwn yn y bore, sesiwn amser cinio, a sesiwn prynhawn - er mwyn cynnig y cyfle gorau posibl i amrywiaeth o gyfranogwyr ymateb i'r arolwg.

3.32 Bwriad gwreiddiol yr astudiaeth oedd casglu oddeutu 100 o arolygon stryd ym mhob cymuned ymchwil. Er hynny, roedd disgwyl y byddai niferoedd sampl y cymunedau yn amrywio yn ôl maint, natur a lleoliad y cymunedau ymchwil o dan sylw. Yn ogystal, roedd disgwyl y byddai ffactorau allanol megis y tywydd ac adeg y flwyddyn yn effeithio ar faint sampl y cymunedau. Llwyddwyd i weinyddu cyfanswm o 638 arolwg stryd o fewn chwe chymuned yr astudiaeth, fel a ganlyn:

Aberteifi: 123 arolwg

Bangor: 116 arolwg

Llanrwst: 90 arolwg

Rhydaman: 110 arolwg

Aberystwyth: 98 arolwg

Porthmadog: 101 arolwg

3.33 O ran cyfansoddiad y sampl yn ei gyfanrwydd, roedd 201 (32.1 y cant) yn ddynion a 426 (67.9 y cant) yn fenywod. Y grŵp oedran amlycaf i gwblhau'r arolwg stryd oedd y grŵp 40-64 oed (39.7 y cant o'r sampl).¹⁰ O holl

¹⁰ Gweler Atodiad 1.8 am wybodaeth gyflawn.

ymatebwyr yr arolygon stryd, dywedodd 459 (72.3 y cant o'r sampl) eu bod yn rhugl yn y Gymraeg.¹¹

- 3.34 Yn sgil cyfyngiadau data'r arolygon stryd – yn gysylltiedig â'r dull samplo cyfleus a niferoedd yr arolygon a weinyddwyd – eu diben oedd darparu data atodol yn unig, i ychwanegu at dystiolaeth y grwpiau ffocws. I'r perwyl hwnnw, felly, cyflwynir a thrafodir y dystiolaeth arolygon stryd mewn perthynas â data'r grwpiau ffocws ym Mhennod 5: *Canfyddiadau yn ôl cymuned*.

3.35 **Tystiolaeth Feintiol**

Cefndir Ystadegol

- 3.36 Yn ogystal â chasglu data cynradd, tynnwyd ar ddadansoddiad a dehongliad o ddata ystadegol eilaidd. Pwrpas y dystiolaeth hon oedd cynnig amlinelliad o nodweddion sosio-ieithyddol yr ardaloedd i greu proffiliau cefndirol a sylfaen ddeallusol ar gyfer trafodaethau'r grwpiau ffocws, y dadansoddi a'r dehongli. Mae'r manylion hyn yn cynnwys: canrannau siaradwyr Cymraeg, canrannau sy'n trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd, ac iaith addysgu ysgolion lleol. Trafodir hefyd nodweddion megis patrymau mewnlifiad ac all-lifiad, a ffactorau economaidd, gan gynnwys y farchnad lafur leol yn y cymunedau dan sylw. Cyflwynir y wybodaeth ystadegol ym Mhennod 4: *Ystadegau Cefndirol*, a cheir cyflwyniad byr ar gyfer pob cymuned unigol ym Mhennod 5: *Canfyddiadau yn ôl cymuned*.

¹¹ Noder: roedd yr ymatebwyr i gyd (yn ôl eu hasesiad eu hunain) yn gallu siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg. Gweler Atodiad 1.9 am fanylion pellach.

3.37 **Data Monitro a Data Gweinyddol**

Mae Pennod 5 yn cynnig amlinelliad o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg sydd yn bodoli ar hyn o bryd, neu sydd wedi bodoli yn y gorffennol, yn y chwe chymuned drwy gynllunio bwriadus. Diben yr adran hon yw cynnig braslun o'r ymyriadau sydd ar waith (neu sydd wedi bod ar waith) drwy gynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg.¹² Seiliwyd y wybodaeth hon ar ddata monitro a data gweinyddol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid Llywodraeth Cymru. Bwriad defnyddio'r data hwn yw cynnig sail ar gyfer dealltwriaeth o hyd a lled y cynlluniau sydd ar waith o fewn y cymunedau dan sylw. Mae'n bwysig nodi cyfyngiadau'r data monitro yn yr astudiaeth hon. Nid oedd sgôp y gwaith yn caniatáu gwerthusiad proses na gwerthusiad traweffaith o gynlluniau a gweithgareddau unigol i hyrwyddo'r Gymraeg a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r wybodaeth hon wedi'i chyflwyno gyda'r nod o gynnig trosolwg o'r cynlluniau a'r gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ym mhob ardal, a dadansoddiad o'u perthynas gyda phrofiadau a defnydd iaith siaradwyr yng nghyd-destun eu cymunedau. Ni wneir unrhyw sylw yn yr adroddiad hwn ynghylch ansawdd, dilysrwydd na dibynadwyedd y data.

3.38 **Materion leithyddol**

Sicrhawyd bod holl gyfranogwyr yr astudiaeth yn cael cyfle i gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith, yn ôl eu dewis. Cynhaliwyd cyfarfodydd briffio â hwyluswyr y grwpiau ffocws ar ddechrau'r prosiect er mwyn tanlinellu pwysigrwydd dewis iaith. Briffiwyd yr hwyluswyr yn drylwyr ynghylch yr angen i gyflwyno cwestiynau'r atodlen gyfweld yn ddwyieithog, ac i gyfieithu petai hynny'n galluogi trafodaethau dwyieithog naturiol o fewn y grwpiau. Dosbarthwyd holiaduron dwyieithog ar ddiwedd y grwpiau ffocws i'w cwblhau yn newis iaith yr unigolyn.

¹² Gweler Atodiadau 1.17-1.22 am ddisgrifiad o gynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

3.39 Lluniwyd fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r holiadur arolwg stryd, fel bod ymatebwyr yn rhydd i ymateb yn eu dewis iaith. Cynlluniwyd a rhannwyd cyfarwyddiadau trylwyr i weinyddwyr yr arolwg er mwyn sicrhau eu bod yn cyflwyno dewis iaith i'r ymatebwyr. Golygai hyn gyfarch yr ymatebwyr yn ddwyieithog er mwyn pennu'r iaith briodol ar gyfer y cyswllt cyntaf a'r esboniadau cychwynnol. Gofynnwyd yn ffurfiol am ddewis iaith yr ymatebwyr yng nghwestiwn olaf y gyfres o bedwar cwestiwn hidlo.

3.40 **Asesu a Rheoli Risg**

Dilynwyd camau penodol i asesu a rheoli risg cyn, yn ystod, ac ar ôl yr astudiaeth ymchwil. Cwblhawyd asesiad risg cyflawn yn unol â gweithdrefnau Prifysgol Bangor, er mwyn rhagweld unrhyw risgiau penodol o ran gweinyddu'r grwpiau ffocws a'r arolygon stryd. Derbyniodd hwyluswyr y grwpiau ffocws ac ymchwilwyr yr arolygon stryd hyfforddiant cynhwysfawr cyn y cyfnod casglu data. Cyflwynwyd pecyn iechyd a diogelwch trylwyr i'r hwyluswyr a'r ymchwilwyr, a thrafodwyd cyfarwyddiadau'r grwpiau ffocws a'r arolygon stryd cyn y cyfnod casglu data. Cydlynodd aelodau'r grŵp ymchwil sesiynau goruchwyllo â hwyluswyr ac ymchwilwyr yn ystod y cyfnod casglu data. Darparwyd cyfle i werthuso'r broses casglu data o fewn y grwpiau ffocws a'r arolygon stryd, a chynnig adborth wrth i'r broses fynd rhagddi. Ar ôl y cyfnod casglu data, trefnwyd sesiynau adrodd yn ôl er mwyn cynnig cyfle i hwyluswyr ac ymchwilwyr gloriannu a chynnig adborth ar y broses.

3.41 **Moeseg Ymchwil**

Cyflwynwyd cais moeseg i Bwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor ar gychwyn yr astudiaeth hon. Derbyniwyd caniatâd moeseg gan Bwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor, a gweinyddwyd yr astudiaeth yn unol ag egwyddorion a phrotocol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, (GSR), a'r Ddeddf Diogelu Data 1998. Gwahoddwyd unigolion 16 mlwydd oed a throsodd yn unig i gymryd rhan yn yr ymchwil, a phwysleisiwyd bod gan gyfranogwyr grwpiau ffocws ac ymatebwyr arolygon stryd ryddid i dynnu yn ôl ar unrhyw adeg heb gynnig rheswm. Derbyniodd cyfranogwyr ac ymatebwyr becyn gwybodaeth o

flaen llaw yn esbonio pwrpas a dibenion yr ymchwil a phwysleisiwyd eu bod yn cyfrannu i'r astudiaeth o'u gwirfodd. Sicrhawyd natur anhysbys a chyfrinachol cyn, yn ystod, ac ar ôl yr astudiaeth ymchwil hon.

4. Cefndir Ystadegol


4.1 Cyflwyniad

Mae'r proffiliau ystadegol isod yn cyflwyno ystadegau (lle bo modd) am yr ardaloedd a ddiffinnir yn gymunedau at bwrpas etholiadol gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Mae union ffiniau cymuned yn gallu newid dros amser. O ganlyniad, er y defnyddir yr un enw ar gymuned mae'n bosibl nad union yr un ardal sydd o dan sylw wrth gymharu canlyniadau un cyfrifiad â chyfrifiad arall. Weithiau hefyd nid yw canlyniadau cyfrifiad ar gael ar lefel cymuned; yn yr achosion hynny, cyflwynir canlyniadau ar sail daearyddiaeth arall, e.e. wardiau, neu defnyddir y daearyddiaeth arall i amcangyfrif canlyniadau cymuned. Weithiau mae cyfuniad o wardiau, neu daearyddiaeth arall, yn cyfateb yn union i ffin cymuned ond nid yw'r gyfatebiaeth yn union ymhob achos.

4.2 Proffil Cefndirol y Cymunedau

Bwriad yr adran hon yw cynnig trosolwg cyffredinol o gyfansoddiad y chwe chymuned o dan sylw. Byddwn yn cychwyn drwy gynnig trosolwg o faint y cymunedau yn ôl poblogaeth tair oed a throsodd, cyn symud ymlaen i drafod faint o fewnfudo sydd wedi bod i bob cymuned, a'u nodweddion ieithyddol.


Ffigur 4.1: Poblogaeth tair oed a throsodd yn y chwe chymuned, 1961–2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad y Boblogaeth 1961, 1971, 1981, 1991, 2001 a 2011

- 4.3 Dengys Ffigur 4.1 bod poblogaeth Aberystwyth a Bangor yn 2011 yn sylweddol uwch na phoblogaeth y pedair cymuned arall sy'n rhan o'r astudiaeth. Gwelir bod Porthmadog ac Aberteifi'n debyg iawn o ran maint eu poblogaeth, gyda phoblogaeth o gwmpas 4,000 yn 2011, tra bo Rhydaman tua 30 y cant yn fwy a Llanrwst ryw 20 y cant yn llai. Rhydaman yw'r unig un o'r chwe chymuned lle mae'r boblogaeth wedi lleihau ers 1961.

Ffigur 4.2: Poblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru yn ôl cymuned, 2011




Ffynhonnell: Tabl KS204, Cyfrifiad 2011

- 4.4 Mae Ffigur 4.2 yn dangos pa ganran o'r boblogaeth a anwyd y tu allan i Gymru. Yn 2011 roedd tua hanner poblogaeth y ddwy dref brifysgol (Aberystwyth a Bangor) wedi'u geni y tu allan i Gymru. Myfyrwyr fydd llawer o'r rheini ond bydd llawer ohonynt hefyd yn staff yn y prifysgolion neu'n staff yn yr ysbytai mawr sydd yn y ddwy ardal. Mae gan y ddwy dref glan-y-môr, Porthmadog ac Aberteifi, nid yn unig faint poblogaeth debyg ond hefyd ganran debyg sydd wedi'u geni y tu allan i Gymru, sef 30 i 32 y cant. Dau ddeg pedwar y cant o boblogaeth Llanrwst oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru a 18 y cant oedd canran Rhydaman.

4.5 Trosolwg o broffil ieithyddol y chwe chymuned

Ffigur 4.3: Nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ôl cymuned, 1961–2011




Ffynhonnell: Cyfrifiad y Boblogaeth 1961, 1971, 1981, 1991, 2001 a 2011

4.6 Mae Ffigur 4.3 yn dangos niferoedd y siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'r chwe chymuned. Bangor oedd â'r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, o gwmpas 5,800 yn 2011.¹³ Roedd tref brifysgol Aberystwyth yn cynnwys 3,950 o unigolion yn gallu siarad Cymraeg, bron i 2,000 yn llai na Bangor. Er y gwahaniaeth mewn niferoedd, gwelir patrwm tebyg ym Mangor ac Aberystwyth: er i nifer y siaradwyr Cymraeg ostwng rhwng 1961 a 1991, bu cynnydd yn 2001 a gostyngiad eto yn 2011. Tra bo Porthmadog, Aberteifi a Llanrwst wedi llwyddo i gynnal niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn gymharol

¹³ Yn 1981 a 1991 câi myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad gartref. Ar gyfer Cyfrifiad 2001 newidiwyd y drefn i gyfrif myfyrwyr yn eu cyfeiriad oddi cartref. Cadwyd yr un drefn ar gyfer Cyfrifiad 2011.

gyson rhwng 1961 a 2011, gwelir bod cymuned Rhydaman wedi profi gostyngiad cyson o ddegawd i ddegawd ers 1961.

Ffigur 4.4: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ôl cymuned, 1961–2011




Ffynhonnell: Cyfrifiad y Boblogaeth 1961, 1971, 1981, 1991, 2001 a 2011

4.7 Mae Ffigur 4.4 yn dangos sut mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn y chwe chymuned wedi newid yn ôl cyfrifiad y boblogaeth ers 1961. Mae'r cymunedau a astudiwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn rhai gyda chanrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg. Ar ben eithaf y raddfa gwelir Porthmadog gyda 69.8 y cant o boblogaeth y dref yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Yn Llanrwst roedd 61.0 y cant o bobl tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, gyda 54.6 y cant yn Aberteifi a 51.5 y cant yn Rhydaman. Ar waelod y raddfa gwelir trefi prifysgol Bangor ac Aberystwyth, gyda 36.4 y cant o boblogaeth Bangor a 30.9 y cant o boblogaeth Aberystwyth yn gallu siarad Cymraeg.

- 4.8 Er bod y cymunedau dan sylw yn rhai gyda chanran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, maent hefyd yn gymunedau ble gwelwyd gostyngiad yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg sy'n trigo ynddynt. Yn yr hanner can mlynedd rhwng 1961 a 2011, Bangor a Rhydaman a welodd y gostyngiad mwyaf yn y ganran a oedd yn gallu siarad Cymraeg, gyda gostyngiad o 29 pwynt canran yn y ddau leoliad. Cafwyd manylion ar sail y boblogaeth y tu allan i'r tymor o Gyfrifiad 2011 ac mae'r driniaeth o fyfyrwyr yn yr ystadegau yn egluro peth o ostyngiad Bangor.¹⁴ Gan ddefnyddio'r rheini, gostyngiad o 21 pwynt canran a gafwyd ym Mangor ers 1961 ond 29 pwynt canran o hyd oedd gostyngiad Rhydaman. Yn Aberteifi y gwelwyd y gostyngiad mwyaf ar ôl Rhydaman a Bangor, gyda gostyngiad o 20 pwynt canran. Llanrwst sydd nesaf gyda gostyngiad ers 1961 o 17 pwynt canran. Os defnyddir y ganran y tu allan i dymor y Brifysgol ar gyfer Aberystwyth, bu gostyngiad o 14 pwynt canran yn hytrach na'r 19 pwynt canran crai. Porthmadog welodd y gostyngiad lleiaf er 1961, wrth fesur yn y modd hwn, gan brofi gostyngiad o 12 pwynt canran.

¹⁴ Gweler troednodyn 13 am esboniad pellach.

Ffigur 4.5: Canran y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn ôl oedran fesul cymuned, 1991–2011




Ffynhonnell: Tabl LC2106 Cyfrifiad 2011

- 4.9 Mae Ffigur 4.5 yn dangos y ganran a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl oedran yn y chwe chymuned, rhwng 1991 a 2011. Sylwer bod y grwpiau oed a ddefnyddir yn y siart ychydig yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir wrth drafod y grwpiau ffocws a'r arolygon stryd, a bod yr holl gyfranogwyr i'r rheini'n 16 mlwydd oed a throsodd.
- 4.10 Gwelir o'r siartiau uchod mai'r grŵp 3 i 15 oed oedd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'r chwe chymuned yn 2011, heblaw am yn Rhydaman. Ym mhob cymuned roedd canran y siaradwyr yn uwch ymhlith y rhai 3 i 15 oed nag ymhlith cenhedlaeth eu rhieni, sef, yn fras y rhai 25 i 49 oed. Wrth edrych ar y canlyniadau yn 1991, 2001 a 2011 yn ôl grŵp oedran, gwelir effaith y myfyrwyr yn Aberystwyth a Bangor yn glir yn y grŵp oedran 16 i 24. Yn Rhydaman, ymhlith y rhai 16 oed a throsodd, gwelir y patrwm

nodweddiadol o shifft ieithyddol ar ei amlycaf, gyda'r ganran yn siarad Cymraeg yn y grŵp oed 65+ yn uwch na'r ganran yn y grŵp 50 i 64 ac sy'n ei thro yn uwch na'r ganran yn y grŵp 25 i 49 mlwydd oed. Mae'r cymunedau eraill yn dangos yr un patrwm yn gyffredinol dros yr un cyfnod ond i raddau gwahanol. Fodd bynnag wrth ystyried y genhedlaeth hŷn, mae'r patrwm gallu ieithyddol ychydig yn wahanol ar gyfer cymuned Porthmadog ble gwelir y ganran o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol ar ei lefel isaf yn y grŵp oedran 65+. Mae'n debygol mai dylanwad mewnfudo sydd tu cefn i'r patrwm gwahanol yma, a bod y patrwm mewnfudo, ac oed y mewnfudwyr yn wahanol ym Mhorthmadog o'i gymharu â Llanrwst, Aberteifi a Rhydaman.

Ffigur 4.6: Canran y siaradwyr Cymraeg 3 i 18 oed, yn ôl ward o fewn cymuned, 2011



Ffynhonnell: Tabl DC2115 Cyfrifiad 2011


- 4.11 Yn Ffigur 4.6, rhannwyd y grŵp oedran i grwpiau llai — rhai 3 i 4 oed, 5 i 11, ac 11 i 15 (a dangosir rhai 16 i 18 oed hefyd).¹⁵ Yr hyn a welir yn y rhan fwyaf o wardiau'r cymunedau yw canran uwch o blant oed ysgol gynradd (5 i 11 oed) sy'n gallu siarad Cymraeg o'i chymharu â chanran y siaradwyr ymhlith y plant iau, sef y rhai 3 i 4 oed. Mae'r grŵp 5 i 11 oed yn cynrychioli plant sy'n mynychu ysgolion cynradd ac yn y grŵp hwn y gwelir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y siartiau. Amlyga hyn ddylanwad addysg Gymraeg/dwyieithog, ac addysg Cymraeg ail-iaith.

¹⁵ Dylid egluro mai canlyniadau ar gyfer plant sy'n byw mewn teuluoedd yn unig yw'r rhain.

- 4.12 Yn Aberteifi a Rhydaman yn arbennig ymddengys nad oedd rhieni plant oed ysgol uwchradd mor barod i hawlio bod gan eu plant allu yn y Gymraeg, ac roedd yr un sefyllfa yn dod i'r amlwg mewn sawl ward yn Aberystwyth, Bangor a Llanrwst.¹⁶ Yn gyffredinol, gwelir canran is o siaradwyr Cymraeg ymhlith y rhai oedran ysgol uwchradd mewn pump o'r chwe chymuned. Porthmadog yw'r eithriad, yn ogystal â rhai wardiau o fewn Bangor ac Aberystwyth.
- 4.13 O ganlyniad, gellir tybio bod y gostyngiad hwn yn y ganran o siaradwyr Cymraeg ar ôl 11 mlwydd oed yn y cymunedau uchod (heblaw am Borthmadog) yn faes blaenoriaeth wrth ystyried hyfywedd y Gymraeg ar lefel gymunedol.

¹⁶ Dylid nodi yma ei bod yn debygol mai rhieni sydd yn adrodd ar allu ieithyddol eu plant ac y gall hyn effeithio ar hygrdedd y data.

Ffigur 4.7: Canran y siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd yn ôl diwydiant cyflogaeth a chymuned, 2011



Ffynhonnell: Tabl LC2611 Cyfrifiad 2011

4.14 Mae Ffigur 4.7 yn dangos y gallu i siarad Cymraeg yn ôl diwydiant yn y chwe chymuned. Sylwer bod y canrannau sy'n siarad Cymraeg ymhlith y rhai 16 oed a throsodd mewn gwaith yn is na'r ganran yn y boblogaeth tair oed a throsodd gyfan (gweler Ffigur 4.4) mewn rhai cymunedau (Rhydaman, Llanrwst ac Aberteifi), ond yn uwch yn Aberystwyth a Bangor (yn ystod tymor y Brifysgol), a Phorthmadog.

4.15 O edrych ar y cymunedau unigol, gwelir bod rhai patrymau i'w canfod wrth ystyried gallu ieithyddol a chyflogaeth. Mae Ffigur 4.7 yn amlygu bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yn uwch mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd yn y chwe chymuned, o'i gymharu â chanran gyfartalog y cymunedau unigol. Gallai hyn fod o ganlyniad i bolisiau recriwtio o fewn y sector gyhoeddus, neu'n adlewyrchiad o ddewis siaradwyr Cymraeg. Gwelir bod y ganran o siaradwyr Cymraeg o fewn y diwydiant manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd yn is na'r ganran gyfartalog o siaradwyr Cymraeg yn y chwe chymuned.

4.16 **Trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu**

Mae Tabl 4.1 yn dangos nifer a chanran y plant 3 i 4 oed oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, yn ôl y math o deulu. Dangosir canrannau cyfatebol ar gyfer 2001, ond ni ddylid casglu (hyd yn oed os yw canran 2011 yn wahanol iawn i ganran 2001), fod y sefyllfa o ran trosglwyddo'r iaith wedi newid yn arwyddocaol. Yn 2001 defnyddiodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol dechneg o dalgrynnu niferoedd bach i warchod cyfrinachedd yr ymatebwyr. Golyga hyn fod canrannau 2001 yn gallu bod yn bell o gynrychioli'r sefyllfa go iawn.

4.17 Yn y chwe chymuned dan sylw, gwelir bod cyfradd uchel o'r cyplau sydd yn cynnwys dau oedolyn Cymraeg yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, gyda 88 y cant ym Mhorthmadog ar ei uchaf, a 78 y cant ym Mangor ar ei isaf. Fodd bynnag, wrth ystyried cyplau ag un oedolyn Cymraeg, gwelir bod y ganran trosglwyddo iaith yn sylweddol is. Er enghraifft, yn Aberteifi, dim ond 40 y cant o deuluoedd un oedolyn Cymraeg oedd yn cynnwys plant a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng tair a phedair oed. Roedd y ffigwr yma yn 46 y

cant yn Aberystwyth a 45 y cant yn Rhydaman. Roedd y ffigwr ychydig yn uwch ym Mangor gyda 50 y cant o gyplau gydag un oedolyn yn siarad Cymraeg yn cynnwys plant tair i bedair oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg. Gwelwyd patrwm ychydig yn wahanol yn Llanrwst a Phorthmadog, wrth i ganran uwch o gyplau iaith cymysg fod yn cynnwys plant sy'n gallu siarad Cymraeg, gyda 67 y cant yn Llanrwst a 79 y cant ym Phorthmadog. Gyda'r rhain i gyd, rhaid cofio mai ciplun o'r sefyllfa yn 2011 a geir, a bod y niferoedd sy'n sail i'r canrannau yn fach.

Tabl 4.1: Trosglwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y teulu, 2001 - 2011

Amcangyfrif Cymuned	Math o deulu	Nifer	Nifer	Plant 3 i 4 oed yn gallu siarad Cymraeg	
				2011 % (cyfradd drosglwyddo)	2001 % (cyfradd drosglwyddo)
Aberteifi	(mewn cartef un teulu)	81			
	Cwpl â 2 oedolyn Cymraeg	22	19	86	83
	Cwpl ag un oedolyn Cymraeg	20	8	40	74
	Rhiant unigol Cymraeg	10	8	80	0
Aberystwyth	(mewn cartef un teulu)	168			
	Cwpl â 2 oedolyn Cymraeg	26	22	85	86
	Cwpl ag un oedolyn Cymraeg	46	21	46	29
	Rhiant unigol Cymraeg	9	7	78	67
Bangor	(mewn cartef un teulu)	253			
	Cwpl â 2 oedolyn Cymraeg	45	35	78	67
	Cwpl ag un oedolyn Cymraeg	50	25	50	36
	Rhiant unigol Cymraeg	29	19	66	32
Llanrwst	(mewn cartef un teulu)	74			
	Cwpl â 2 oedolyn Cymraeg	31	26	84	79
	Cwpl ag un oedolyn Cymraeg	21	14	67	54
	Rhiant unigol Cymraeg	10	7	70	64
Porthmadog	(mewn cartef un teulu)	79			
	Cwpl â 2 oedolyn Cymraeg	40	35	88	89
	Cwpl ag un oedolyn Cymraeg	14	11	79	50
	Rhiant unigol Cymraeg	18	15	83	100
Rhydaman	(mewn cartef un teulu)	122			
	Cwpl â 2 oedolyn Cymraeg	23	19	83	88
	Cwpl ag un oedolyn Cymraeg	38	17	45	39
	Rhiant unigol Cymraeg	13	7	54	73

Ffynhonnell: Tabl DC2601 Cyfrifiad 2011, S143 Cyfrifiad 2001

4.18 Ysgolion cynradd a gallu disgyblion pum mlwydd oed a throsodd i siarad Cymraeg (asesiad rhieni)

Cyflwynir yma rai ystadegau ar lefel ysgol gynradd, am yr ysgolion a leolir o fewn ffiniau'r cymunedau. Ni fydd dalgylch ysgol yn cyfateb yn union i'r ffiniau hynny. Gall ysgol o fewn cymuned fod â phlant o'r tu allan i'r gymuned, a gall plant o'r gymuned fod yn mynychu ysgol y tu allan iddi.

4.19 Mae Tabl 4.2 yn dangos gallu disgyblion i siarad Cymraeg yn ôl ysgol gynradd o fewn y cymunedau. Gwelir bod pedair o'r chwe chymuned yn cynnwys nifer o ysgolion cynradd, tra bod cymuned Aberteifi a Llanrwst yn cynnwys un yn unig.¹⁷

4.20 Yng nghymunedau Aberystwyth, Bangor a Rhydaman, ble mae nifer o ysgolion cynradd i'w canfod, gwelwn fod niferoedd y plant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn uwch mewn ysgolion penodol o fewn eu cymuned. Mae'r duedd hon i'w gweld yn arbennig o glir wrth sylwi bod y ganran o blant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn uwch mewn ysgolion penodedig Gymraeg. Er enghraifft, roedd Ysgol Gymunedol Gymraeg Aberystwyth yn cynnwys 144 o blant a oedd yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. O'r tair ysgol gynradd arall yn y gymuned, roedd cyfanswm o lai na deg o blant yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. Nid yw'r un rhaniad ieithyddol i'w weld ym mhob cymuned a astudiwyd, er enghraifft, ym Mhorthmadog, roedd y disgyblion a siaradai Gymraeg yn rhugl gartref wedi'u rhannu ymhlith tair ysgol wahanol.

4.21 Nodwedd arall o'r data yma yw bod yn y rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd a astudiwyd, ganran sylweddol o blant sydd ddim yn rhugl eu Cymraeg neu ddim yn siarad Cymraeg o gwbl.

¹⁷ Fel y nodwyd eisoes, mae'n debygol bod rhai o blant y cymunedau hyn yn mynychu ysgolion sydd tu allan i ffiniau cymunedol yr astudiaeth hon.

Tabl 4.2: Disgyblion ysgolion cynradd a gynhelir, pump oed a throsodd, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg yn ôl asesiad rhieni, 2014 (a) (b)

Cymuned Enw'r ysgol (rhif)	Yn siarad Cymraeg yn rhugl gartef		Ddim yn siarad Cymraeg gartef ond yn gallu ei siarad yn rhugl		Yn siarad Cymraeg ond nid yn rhugl		Yn methu siarad Cymraeg o gwbl		Gwybodaeth heb ei chasglu / wedi'i gwrthod	Cyfanswm	
	Nifer	(%)	Nifer	(%)	Nifer	(%)	Nifer	(%)	Nifer	Nifer	
Aberteifi											
Ysgol Gynradd Aberteifi (6672368)	34	(12.5)	*	*	180	(66.2)	54	(19.9)	*		272
Aberystwyth											
Yr Ysgol Gymunedol Gymraeg (6672299)	144	(49.7)	*	*	135	(46.6)	7	(2.4)	*		290
Ysgol Gymunedol Llwynyreos (6672314)	*	*	0	(0.0)	114	(71.7)	41	(25.8)	*		159
Ysgol Gymunedol Plasrug (6672361)	*	*	6	(1.8)	95	(28.8)	225	(68.2)	*		330
Ysgol Gymorthedig Padarn Sant (6673318)	0	(0.0)	0	(0.0)	30	(30.0)	67	(67.0)	*		100
Bangor											
Ysgol Glanadda (6612051)	*	*	*	*	31	(77.5)	5	(12.5)	0		157
Ysgol Glancegin (6612116)	22	(14.0)	91	(58.0)	37	(23.6)	7	(4.5)	0		24
Ysgol Babanod Coedmawr (6612118)	*	*	*	*	13	(54.2)	7	(29.9)	0		254
Ysgol Gymraeg y Garnedd (6612123)	161	(63.4)	*	*	71	(28.0)	15	(5.9)	*		127

(a) Ym mis Ionawr

(b) Yn bennaf mae'r data yn nodi canfyddiad y rhieni o ruglder y plentyn yn y Gymraeg ac efallai nad yw hyn yn wir adlewyrchu'r gallu mae'r plentyn yn ei ddangos yn ei gwaith ysgol.

*: llai na 5 disgybl

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

(Parhaodd) Tabl 4.2: Disgyblion ysgolion cynradd a gynhelir, pump oed a throsodd, yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg yn ôl asesiad rhieni, 2014 (a) (b)

Cymuned Enw'r ysgol (rhif)	Yn siarad Cymraeg yn rhugl gartef		Ddim yn siarad Cymraeg gartef ond yn gallu ei siarad yn rhugl		Yn siarad Cymraeg ond nid yn rhugl		Yn methu siarad Cymraeg o gwbl		Gwybodaeth heb ei chasglu / wedi'i gwrthod	Cyfanswm
	Nifer	(%)	Nifer	(%)	Nifer	(%)	Nifer	(%)	Nifer	Nifer
Bangor										
Ysgol Hiracl (6612227)	13	(10.2)	21	(16.5)	50	(39.4)	43	(33.9)	0	171
Ysgol Cae Top (6613030)	*	*	*	*	102	(59.6)	64	(37.4)	*	89
Ysgol Ein Harglwyddes (6613301)	*	*	*	*	15	(16.9)	71	(79.8)	0	157
Llanrwst										
Ysgol Bro Gwydir (6622271)	64	(27.1)	44	(18.6)	121	(51.3)	7	(3.0)	0	236
Porthmadog										
Ysgol Gynradd Borth-y-Gest (6612015)	15	(34.9)	16	(37.2)	*	*	6	(14.0)	*	43
Ysgol Eifion Wyn (6612104)	102	(61.4)	*	*	50	(30.1)	11	(6.6)	*	166
Ysgol y Gorlan (6612110)	65	(79.3)	12	(14.6)	5	(6.1)	0	(0.0)	0	82
Rhydaman										
Parcyrhun Primary School (6692050)	*	*	*	*	66	(47.8)	63	(45.7)	*	138
Ysgol Gymraeg Rhydaman (6692179)	124	(63.3)	46	(23.5)	26	(13.3)	0	(0.0)	0	196
Ysgol Bro Banw (6692392)	22	(6.0)	13	(3.6)	121	(33.2)	208	(57.1)	0	364

(a) Ym mis Ionawr

(b) Yn bennaf mae'r data yn nodi canfyddiad y rhieni o ruglder y plentyn yn y Gymraeg ac efallai nad yw hyn yn wir adlewyrchu'r gallu mae'r plenty yn ei ddangos yn ei gwaith ysgol..

*: llai na 5 disgybl

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

5. Canfyddiadau yn ôl cymuned

- 5.1 Yn y bennod hon cyflwynir y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r grwpiau ffocws. Tynnir hefyd ar ddata atodol yr arolygon stryd lle bo hynny'n briodol er mwyn ategu'r sylwadau neu nodi unrhyw wahaniaethau rhwng y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r grwpiau ffocws a'r arolygon stryd. Cyflwynir y dystiolaeth fesul cymuned gan gychwyn gyda'r pedair cymuned sydd wedi cael y sylw mwyaf dwys o ran cynlluniau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol, sef:

- Aberteifi
- Bangor
- Llanrwst
- Rhydaman

Yna, trafodir y ddwy gymuned sydd heb dderbyn yr un lefel o gynllunio bwriadus gan Lywodraeth Cymru, gan gofio nad oes modd eu hynysu yn llwyr o gynlluniau a gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg:

- Aberystwyth
- Porthmadog

- 5.2 Ar ddechrau pob adran ceir amlinelliad byr o broffil ieithyddol y gymuned dan sylw, a manylion y cynlluniau a'r gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Strwythurir y prif themâu o dan bedwar pennawd:

- Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn gymunedol
- Ffynonellau gwybodaeth
- Barn ar faterion ehangach

O dan y penawdau hyn ceir amrywiaeth o destunau a themâu. Mae'r amrywiaeth hwn yn adlewyrchu cynnwys a thrywydd trafodaethau'r gwahanol grwpiau, ac oherwydd hynny nid ydynt yn dilyn patrwm cwbl unffurf.

5.3 *Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*

Trafodir dwy agwedd o dan y pennawd hwn: *ymwybyddiaeth* o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned, a'r *defnydd* a wneir o'r Gymraeg (neu 'gyfranogiad'). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan y cyfranogwyr am eu sefyllfaoedd a'u profiadau eu hunain, a'u canfyddiadau ynghylch ymddygiad pobl eraill.

5.4 Un ystyriaeth bwysig i'w chadw mewn cof drwy gydol y dehongli yw'r ffaith nad yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng tystiolaeth yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol, a thystiolaeth yn seiliedig ar ganfyddiad. Ar draws y grwpiau ffocws daeth i'r amlwg nad oedd yr unigolion a holwyd o reidrwydd yn mynychu gweithgareddau cymunedol yn gyson. Cafwyd cyfeiriadau ganddynt at y ffaith bod blaenoriaethau eraill yn mynd â'u hamser. O ganlyniad, mae angen derbyn y posibilrwydd mai canfyddiadau ynghylch y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ynghylch ymddygiad ieithyddol grwpiau eraill, a geir mewn rhai achosion.

5.5 Yn y grwpiau ffocws, holwyd y cyfranogwyr pwy oedd yn trefnu gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog o fewn eu cymunedau.¹⁸ Ni chyfeiriodd y cyfranogwyr yn uniongyrchol at Lywodraeth Cymru fel cyllidwyr gweithgareddau cymunedol Cymraeg a dwyieithog. Er hynny, roedd y gweithgareddau a restrwyd ganddynt yn dueddol o gynnwys rhaglenni a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

5.6 *Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned*

Cyflwynir y dystiolaeth a gafwyd ynghylch y ffactorau sydd yn gallu dylanwadu ar barodrwydd a gallu trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Yma eto, mae'r dystiolaeth yn gyfuniad o wybodaeth a gafwyd gan ymatebwyr am eu sefyllfaoedd eu hunain, a'u sylwadau ynghylch eraill. Ymhlith y meysydd sydd yn cael sylw o dan y pennawd hwn mae dylanwad addysg, arferion ieithyddol, a'r gwasanaethau a'r cyfleoedd a ddarperir i ddefnyddio'r Gymraeg.

¹⁸ Gweler Atodiad 1.4 am wybodaeth gyflawn.

5.7 *Ffynonellau gwybodaeth*


Trafodir yma y dulliau a ddefnyddir gan drigolion i ddod i wybod am ddigwyddiadau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.8 *Barn ar faterion ehangach*

O dan y pennawd hwn nodir y sylwadau a'r safbwyntiau a gynigiwyd gan ymatebwyr ar faterion ehangach megis yr economi, mewnfudo, tai a chynllunio, a'u perthynas dybiedig gyda sefyllfa'r Gymraeg yn eu cymunedau. Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau a rhagdybiaethau'r ymatebwyr ynghylch y cyswllt rhwng hyfywedd y Gymraeg a materion ehangach na fu modd eu hastudio yn systematig fel rhan o'r astudiaeth hon. Dylid cadw'r cyfyngiad hwn mewn cof wrth ddehongli sylwadau'r ymatebwyr.

5.9 ABERTEIFI

Ffigur 5.1: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Aberteifi



5.10 Dengys y map uchod ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Aberteifi yn ôl Ardal Gynnyrch (AG) (OA - Output Area) yn 2011. Mae tair ward yn Aberteifi sef Mwldan, Rhyd-y Fuwch a Theifi. Yn ôl Cyfrifiad 2011 yr oedd 40-60 y cant o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg ym mwyafrif helaeth yr ardal, er ym Mwldan roedd ardaloedd lle roedd 60-80 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Ym Mhenparc, sy'n ffinio â'r gymuned, roedd ardal lle roedd 20-40 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Ceir un ysgol cyfrwng Cymraeg¹⁹ ac un ysgol ddwyieithog (Categori 2B²⁰) o fewn ffiniau Cymuned Aberteifi.²¹

¹⁹ 'Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.' (Llywodraeth Cymru 2007:09).

²⁰ 'Addysgir o leiaf 80 y cant o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd' (Llywodraeth Cymru 2007:12).

²¹ Ar gyfer Aberteifi a phob cymuned sy'n dilyn, mae'r wybodaeth ystadegol yn dangos data ar gyfer wardiau ac Ardaloedd Cynnyrch, a hefyd yr ardaloedd cyfagos. Mae'r wybodaeth hon yn wahanol mewn rhai agweddau i'r data a gyflwynir ym Mhennod 4: *Ystadegau Cefndirol* (gweler manylion y

Tabl 5.1: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, (hanesyddol a chyfredol), naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Aberteifi²²

Gweithgareddau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn Aberteifi
Cynllun Gweithredu Iaith
Mentrau Iaith
Twf
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt
Mudiad Meithrin
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith
Urdd Gobaith Cymru
Merched y Wawr
Papurau Bro
Cymraeg i Oedolion

5.11 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Cynigiodd y grwpiau ffocws enghreifftiau o amrywiaeth eang o weithgareddau cymunedol sy'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberteifi. Roedd rhai o'r gweithgareddau hynny wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, tra bo eraill yn cael eu cynnal yn annibynnol. Cododd enghreifftiau o weithgareddau'r Urdd, Ti a Fi, Clwb Ffermwyr Ifanc a Twf. Cyfeiriodd y grwpiau hefyd at weithgareddau CYD, dramâu a gweithgareddau theatr megis pantomeim, teithiau cerdded i ddysgwyr, corau a oedd yn canu yn bennaf yn Gymraeg, clybiau cymdeithasol i ferched, a chlybiau dawnsio. Yn ogystal â hynny tynnwyd sylw at weithgareddau iaith Gymraeg ysgolion lleol a rhaglenni S4C i blant megis Cyw.

meini prawf a ddefnyddir i bennu ffiniau'r cymunedau). Gweler hefyd Bennod 3: *Methodoleg* am drafodaeth o'r hyn a olygir wrth 'lleol'.

²² Gweler Atodiad 1.17 am wybodaeth lawn.

- 5.12 Nododd grŵp y dysgwyr bod llawer o bobl y clwb rygbi a'r clwb bowlïo yn siarad Cymraeg, ond ni chyfeiriwyd at iaith gweithgareddau'r clybiau hyn yn benodol. O blith y grŵp o bobl ifanc a holwyd, roedd ymwybyddiaeth o weithgareddau cymunedol yn is. Er hynny, roedd tri aelod o'r grŵp pobl ifanc yn mynychu Clwb Ffermwyr Ifanc; roedd y gweithgaredd hwn yn weithgaredd prin yn yr iaith Gymraeg i'r grŵp oedran hwn.
- 5.13 Roedd y grŵp rhieni â phlant ifanc yn awyddus iawn i gael mwy o ddigwyddiadau Twf yn eu cymuned. Nododd un aelod ei bod wedi cael gwersi Cymraeg rhad trwy Twf hefyd ac na fyddai wedi talu am wersi drud: *'Mae cael pobl mas, fel Twf, yn helpu, mae'n cael rhieni i siarad Cymraeg. O'n nhw'n gwneud rhyw [weithgaredd] ... Roedd e am ddim ac roedd yr arweinydd sesiwn yn cael torf go iawn o bobl ... ond mor gynted â chi'n dechrau mynd, mae'n cael ei dynnu.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberteifi). Awgryma'r sylw hwn nad oedd rhai cynlluniau yn weithredol bellach. Yn ogystal â hynny nodwyd bod gweithgareddau Twf yn cynnig gweithgareddau Cymraeg i blant a rhieni gyda'i gilydd: *'Mae Twf yn 'spot-on'. Achos dyna ble sydd angen dechrau, gyda'r rhai ifanc mae angen dechrau ac wedyn bydd y rhieni yn cymryd rhan hefyd. Hyd yn oed y rhai sydd heb unrhyw Gymraeg, achos chi'n mynd gyda'ch plant i weithgareddau Twf, a chi'n aros gyda nhw ... mae'n gwneud i chi feddwl 'dylen i siarad mwy o Gymraeg gyda'r plant.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberteifi).
- 5.14 Testun trafod yn y grŵp rhieni â phlant ifanc oedd clwb chwaraeon lleol. Nodwyd ganddynt ei fod yn eithaf Cymreig ond nad oedd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu drwy'r Gymraeg: *'Mae'n dibynnu ar bwy sy'n dysgu, os mae rhywun Saesneg yn dysgu, maen nhw'n mynd i siarad Saesneg gyda'r plant, fel nofio, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Saesneg.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberteifi). Cafwyd yr un enghraifft yn y drafodaeth grŵp ffocws canol oed.

- 5.15 Yn ôl ymatebwyr arolwg stryd Aberteifi roedd y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fwyaf aml i'w canfod yn yr ysgol (72.9 y cant), wrth addoli (69.6 y cant) a chyda'r teulu (63.1 y cant).²³
- 5.16 Roedd canfyddiadau'r dysgwyr o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gadarnhaol iawn. Yn ôl grŵp y dysgwyr, roedd llawer o Gymraeg i'w chlywed yn Aberteifi a nifer fawr o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Roedd dysgwyr yn falch iawn o'r cyfle i fyw yno oherwydd bod maint y lle yn *'berffaith i ddysgu'r Gymraeg am eich bod yn dod ar draws wynebaw cyfarwydd sy'n siarad Cymraeg'* (Grŵp Dysgwyr Aberteifi). Roedd cryfder y Gymraeg yn Aberteifi yn ffactor mewn dewis mynd yno i fyw i sawl aelod o'r grŵp gan fod y Gymraeg ar waith yn naturiol o fewn y gymuned: *'Rwy'n clywed lot o Gymraeg ar y stryd. Yn ddiddorol achos dwi'n deall y clonc nawr'* (Grŵp Dysgwyr Aberteifi). Cyfeiriwyd at hyn yn yr arolwg stryd yn ogystal gydag ymatebwyr yn disgrifio Aberteifi fel cymuned groesawgar i ddysgwyr: *'Aberteifi is inclusive and welcoming to Welsh learners, very different to other parts of Wales.'* (Arolwg Stryd Aberteifi).
- 5.17 Roedd y grŵp canol oed hefyd yn ymwybodol iawn o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, gan restru'r cyfleoedd niferus. Fodd bynnag, nodwyd mai Saesneg oedd iaith y ddau glwb ieuenctid a'r clwb nofio. Roedd gan y grŵp rhieni â phlant ifanc ganfyddiadau cadarnhaol ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Ymddengys bod y defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol yn digwydd yn naturiol o fewn gweithgareddau dydd i ddydd: *'Dw i'n meddwl fod y Gymraeg yn beth naturiol fan hyn, a does dim angen ei gwrthio cymaint.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberteifi). Er hynny, rhestrodd y grŵp rhieni â phlant ifanc fwy o ddigwyddiadau a chlybiau cymdeithas iaith Saesneg na Chymraeg.
- 5.18 Roedd barn ychydig llai cadarnhaol gan y bobl ifanc a'r grŵp o bobl hŷn a holwyd. Iddynt hwy, nid oedd y Gymraeg mor amlwg yn y gymuned. Canfyddiad y bobl ifanc a holwyd oedd mai pobl hŷn yr ardal oedd yn siarad y Gymraeg tra bod aelodau'r grŵp o bobl hŷn yn nodi nad oedd yr ifanc yn defnyddio'r iaith ar y strydoedd: *'Bydden i'n gweud bo cymuned Cymrâg, ma*

²³ Gweler Atodiad 1.11 am wybodaeth lawn.

gang Cymrâg ac wedyn ma hanner Saesneg fyd. Ma fel split bydden i'n gweud. -le, ma fel division. Ambell waith allet ti gerdded lawr stryd a 'mond clywed Saesneg ac wedyn, wel ma hen bobl yn siarad Cymrâg' (Grŵp Pobl Ifanc Aberteifi). Awgryma hyn ganfyddiad o raniad cymdeithasol ar sail iaith yn y gymuned. Ategwyd y patrwm gan y grŵp pobl hŷn a nododd bod y siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn eistedd ar fyrddau gwahanol mewn clwb cymdeithasol lleol. Gellid dehongli felly bod canfyddiad o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymuned Aberteifi, ond bod arferion ieithyddol yn golygu mai Saesneg yw'r iaith gymdeithasol i lawer o bobl. Roedd hyn yn arbennig o wir wrth ystyried sefyllfaoedd grŵp neu wrth gyfarfod unigolion newydd.

5.19 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Arferion ieithyddol

Siopau

5.20 Roedd canfyddiad cyffredinol ymhlith y grwpiau ffocws mai Saesneg oedd iaith llawer o'r siopau yn Aberteifi a bod pobl yn tueddu i gychwyn sgysiau yn Saesneg mewn siopau. Fodd bynnag, roedd rhai eithriadau wrth i unigolion drafod bod cyfleoedd ar gael mewn rhai siopau penodol neu gydag unigolion penodol mewn siop. Er enghraifft, adroddwyd nad oes llawer o staff yn siarad Cymraeg mewn siopau cadwyn mawr a bod pobl yn tueddu i wybod pa staff yn y siopau hyn sy'n gallu siarad Cymraeg. Yn ôl aelod o grŵp ffocws canol oed Aberteifi: '*... ni'n tueddu i wbod pwy sy' siarad Cymrâg, 'da ni'n gwbod pwy ni'n gallu siarad Cymrâg gyda nhw a mae tueddiad wedyn dwi'n credu i fynd nôl i'r siope 'na neu at y pobl 'na sydd yn y siop.'*' (Grŵp Canol Oed Aberteifi).

5.21 Ategwyd y canfyddiad hwn o ddiffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y siopau yn yr arolwg stryd.²⁴ Yn ôl un ymatebydd, roedd yn '*eithaf hapus o ran gweithgareddau (Cymraeg eu hiaith) ond siopau yn Seisnigaidd iawn, ddim yn cyfarch yn Gymraeg*' (Arolwg Stryd Aberteifi). Cyfeiriodd un dysgwr

²⁴ Gweler Atodiad 1.11 am wybodaeth bellach.

hŷn at y siopau yn ardal Aberteifi gan nodi nad oedd y Gymraeg yn weladwy iawn yn y siopau lleol. Ym marn yr unigolyn hwn roedd hyn yn effeithio ar eu defnydd o Gymraeg o fewn y cyd-destun hwnnw: *‘There’s no incentive when we’re shopping to ask for things in Welsh.’* (Grŵp Pobl Hŷn Aberteifi).

- 5.22 Nododd ymatebwyr o’r arolwg stryd yr angen am fathodynau iaith i amlygu siaradwyr Cymraeg yn Aberteifi. Awgryma hyn fod unigolion yn ymwybodol o rwydweithiau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith yn y gymuned ond mai Saesneg yw prif iaith bywyd cyhoeddus y gymuned. Dim ond pan maent yn ymwybodol bod cyfle ar gael i ddefnyddio’r Gymraeg maent yn mentro gwneud hynny: *‘Ordro drinc yn Gymraeg? Ma fe’n dibynnu os fi’n nabod pwy sydd tu ôl y bar.’* (Grŵp Pobl Ifanc Aberteifi).
- 5.23 Er bod y siopau, ar y cyfan, yn cael eu gweld fel parth Saesneg ei iaith, roedd y banciau lleol yn cael eu gweld fel sefydliadau mwy Cymraeg eu hiaith. Yn debyg i’r cymunedau eraill a astudiwyd, roedd canfyddiad bod y banc yn lleoliad ble roedd cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg. Roedd hon yn thema gyson ymhlith aelodau grwpiau ffocws Aberteifi: *‘Os ti’n mynd i’r banc neu rhywbeth bydden i’n gweud bo hanner a hanner yn fan na.’* (Grŵp Pobl Ifanc Aberteifi). Ategwyd hyn gan aelod arall o’r grŵp ffocws a nododd bod ei hyder fel siaradwr Cymraeg wedi cynyddu ar ôl defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle, sef banc lleol.

Hyder

- 5.24 Un thema amlwg iawn yn y gwaith maes oedd effaith hyder ar ddefnydd iaith aelodau cymuned Aberteifi. Roedd hyder yn safon eu Cymraeg yn ffactor wrth i nifer o gyfranogwyr nodi eu bod yn llai awyddus i ddefnyddio’r Gymraeg, yn enwedig gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod. O ran annog hyder i ddefnyddio’r Gymraeg, nododd un aelod o brofiad personol bod gorfod defnyddio’r Gymraeg bob dydd fel rhan o’i swydd wedi bod yn ffordd effeithiol o gynyddu ei hyder. Yn ôl aelodau grŵp y dysgwyr, lefel eu hyder a’u gallu ieithyddol unigol sydd yn aml yn dylanwadu ar eu cyfraniad i weithgareddau cymunedol drwy’r Gymraeg.

5.25 Er y cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gymuned, nododd y grŵp dysgwyr bod cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol yn cael eu colli gan fod siaradwyr Cymraeg yn rhy barod i droi i'r Saesneg: *'Mae siaradwyr Cymraeg yn newid i'r Saesneg yn rhy hawdd ... efallai bo rhai yn rhy polite.'* (Grŵp Dysgwyr Aberteifi). Byddai'n well gan y dysgwyr hyn i siaradwyr Cymraeg barhau i siarad Cymraeg gyda nhw. Yn gyffredinol, roedd teimlad ymhlith grwpiau Aberteifi bod yr arfer o ddefnyddio Saesneg gyda pherson newydd (e.e. mewn siop) wedi ei sefydlu: *'Yn gymdeithasol, dydyn ni ddim yn siarad Cymraeg. Mae rhai pobl yn, ond os mae un person yn siarad Saesneg, chi'n troi i'r Saesneg.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberteifi).

5.26 **Ffynonellau gwybodaeth**

Yn ôl y grŵp rhieni â phlant ifanc roedd yr ysgolion lleol yn ffynhonnell wybodaeth am ddigwyddiadau lleol. Nododd y grŵp hwn bod y we hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfathrebu cymunedol. Yn ôl grŵp y dysgwyr, eu prif ffynhonnell gwybodaeth oedd y cyrsiau dysgu Cymraeg a'r Ganolfan Dysgu i Oedolion Lleol. Nid oedd y dysgwyr hyn wedi edrych ymhellach am ffynonellau gwybodaeth. I'r grŵp pobl hŷn roedd y capel wedi bod yn ffynhonnell wybodaeth am weithgareddau iaith Gymraeg yn y gorffennol. Yn ôl y grŵp canol oed, roeddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, megis *Facebook*, yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol i glywed am ddigwyddiadau lleol. Roedd ymwybyddiaeth y grŵp pobl ifanc a holwyd o weithgareddau iaith Gymraeg yn isel ar y cyfan.

5.27 **Barn ar faterion ehangach**

Gwaith/Economi a Thai


5.28 Roedd y grŵp rhieni â phlant ifanc yn teimlo bod y Gymraeg yn bwysig yn bennaf oherwydd bod gallu siarad Cymraeg yn arwain at fwy o gyfleoedd i gael swyddi da. Nodwyd bod rhaid gallu siarad Cymraeg ar gyfer rhai swyddi

lleol, a bod yr iaith felly yn rhoi mantais i'w plant pan fyddent yn chwilio am waith.

- 5.29 Roedd diffyg swyddi yn gyffredinol yn destun trafod o fewn nifer o grwpiau ffocws yr ardal. Ffactor amlwg yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o fewn yr ardal oedd bod nifer o bobl leol wedi allfudo er mwyn dod o hyd i swyddi mewn mannau eraill yng Nghymru neu y tu hwnt i'r ffin. Yn ogystal â hynny, cyfeiriwyd at bwysigrwydd sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol yn ardal
- Aberteifi: 'Gyda chaniatâd cynllunio; dwi'n meddwl bydd rhaid cael polisi tai sy'n annog pobl yr ardal i aros yn yr ardal, gweithio yn yr ardal a chael cyfle i brynu tai o fewn yr ardal.'* (Grŵp Dysgwyr Aberteifi).

5.30 BANGOR

Ffigur 5.2: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg ym Mangor



- 5.31 Mae'r map uchod yn dangos canrannau siaradwyr Cymraeg ym Mangor yn ôl Ardal Gynnyrch (OA – Output Area) yn 2011. Mae wyth ward ym Mangor. Gwelir bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio o 1-20 y cant ym Menai - sy'n awgrymu dylanwad myfyrwyr prifysgol sy'n byw o fewn y ward - i 60-80 y cant yn Glyder sy'n adlewyrchu poblogaeth sefydlog yr ardal. Mae nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn wardiau Bangor ac un ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Tabl 5.2: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol ym Mangor²⁵

Gweithgareddau a chynlluniau Llywodraeth Cymru ym Mangor
Cynllun Gweithredu Iaith
Menter Iaith
Twf
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt
Mudiad Meithrin
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith
Urdd Gobaith Cymru
Merched y Wawr
Papurau Bro
Cymraeg i Oedolion

5.32 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Yn gyffredinol, roedd ymwybyddiaeth dda o gynlluniau a gweithgareddau cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol. Cyfeiriodd grwpiau ffocws Bangor at ganghennau Mudiad Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, yr Urdd, Merched y Wawr a chlybiau Gwawr, Mentrau Iaith lleol a chlybiau Ffermwyr Ifanc. Cyfeiriwyd yn gyson at ddylanwad Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol, cynllun Twf a rhaglenni teledu Cyw ar S4C (yn enwedig ymhlith aelodau grŵp rhieni â phlant ifanc).

- 5.33 Er mai cynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a drafodwyd gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws, nid oedd bob tro'n amlwg a oedd yr ymatebwyr yn ymwybodol mai Llywodraeth Cymru a oedd wedi ariannu'r gweithgareddau hynny. Adroddodd grwpiau ffocws Bangor mai pobl leol oedd yn gyfrifol am drefnu mwyafrif helaeth y gweithgareddau cymunedol ar lawr gwlad o'u gwirfodd, ac felly'n adlewyrchu perchnogaeth y gymuned leol ar weithgareddau Llywodraeth Cymru. Yn ôl un aelod o grŵp rhieni â phlant ifanc: *'Mae unrhyw weithgareddau yn dibynnu ar bobl sydd yn fodlon rhoi eu hamser nhw ... mae mor anodd i bobl leol rhoi'u hamser yn wirfoddol, mae'n cymryd ymdrech dydi'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Bangor).

²⁵ Gweler Atodiad 1.18 am wybodaeth lawn.

- 5.34 Yn ogystal ag ymwybyddiaeth ymatebwyr grwpiau ffocws o gynlluniau a gweithgareddau ffurfiol Llywodraeth Cymru o fewn y gymuned, yr oedd tystiolaeth helaeth o weithgarwch cymunedol annibynnol, anffurfiol ym Mangor yn ogystal. Cyfeiriodd y sampl at amrediad o glybiau cymunedol eraill gan gynnwys clybiau cymdeithasol, clybiau hamdden, clybiau celfyddydol, corau, gweithgareddau i ddysgwyr a digwyddiadau cerddorol amrywiol. Yr oedd yna nifer o grwpiau cymunedol ar sail oedran yr aelodau hefyd, sef grwpiau rhieni â phlant, clybiau pobl ifanc, a chlybiau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn. Yr oedd y grwpiau hynny'n dueddol o fod yn grwpiau iaith Gymraeg neu'n grwpiau lle'r oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn gymysg.
- 5.35 Yn ôl yr arolwg stryd, roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael ar draws y gymuned gyda'r teulu (71.6 y cant), yr ysgol (64.1 y cant) a'r cyngor sir (62.1 y cant) yn cael eu nodi fel y lleoliadau ble mae'r mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.²⁶
- 5.36 Cafwyd sylwadau gan bob un grŵp ffocws a awgrymai bod cyfleoedd yn bodoli i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol fel rhan o fywyd pob dydd ym Mangor, e.e. wrth siopa, mynd i'r swyddfa bost, wrth ymweld â'r ysbyty, y banciau a'r llyfrgell leol.²⁷ Fodd bynnag, gwelwyd bylchau yn ôl ymatebwyr y grwpiau ffocws a'r arolwg stryd (e.e. siopau a meddygon). Nododd 30.4 y cant o ymatebwyr yr arolwg stryd nad oedd cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg lleol. Yn ogystal, canran isel o ymatebwyr yr arolwg stryd a nododd fod llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y siopau (19.3 y cant).
- 5.37 Bu dylanwad capeli ac eglwysi ar weithgarwch cymunedol yn y Gymraeg yn destun trafod pwysig ar gyfer grŵp rhieni â phlant ifanc, grŵp pobl ifanc a grŵp pobl hŷn yr ardal. Er hynny, nid oedd safbwyntiau'r grwpiau yn unfrydol, gan i'r grŵp ffocws pobl hŷn gyfeirio at effaith dirywiad crefydd ar ddirywiad cyffredinol yr iaith Gymraeg tra bod grŵp rhieni â phlant ifanc Bangor o'r farn mai'r capel sy'n creu cymuned Gymraeg hollbwysig iddynt: *'I ni, achos 'da ni hefyd yn mynd i'r Capel, mae'r teimlad o gymuned yn hynod*

²⁶ Gweler Atodiad 1.12 am wybodaeth gyflawn.

²⁷ Ategwyd y pwynt hwn o fewn data ansoddol arolwg stryd Bangor.

Cymraeg ... mae ffrindiau fi gyd yma yn Gymraeg so i fi mae'n rhywbeth eitha' saff a chaniataol bod pobl yn siarad Cymraeg.' (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Bangor).

- 5.38 Cyfeiriodd pob un o grwpiau ffocws Bangor at y ffaith eu bod yn clywed ieithoedd amrywiol ar stryd fawr Bangor. Yr oedd dylanwad y brifysgol a'r ysbyty yn destun trafodaeth mewn perthynas â dylanwad tybiedig y sefydliadau hyn o ran cynyddu faint o Saesneg a siaredir yn y gymuned. Dyma sylw gan gyfranogwyr grŵp ffocws canol oed Bangor: *'there is less Welsh in Bangor, I feel like I'm in a town in England when I walk down the streets, you always hear English'* (Grŵp Canol Oed Bangor).
- 5.39 Adroddodd y dysgwyr a oedd yn rhan o'r astudiaeth fod digon o gyfleoedd yn bodoli iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, er nad oeddent o hyd yn manteisio ar y cyfleoedd gan fod blaenoriaethau eraill ganddynt o fewn eu bywydau beunyddiol yn aml. Yn ôl grŵp rhieni â phlant ifanc Bangor, er bod cyfleoedd niferus ar gael, teimlad y grŵp oedd bod sawl cyfle yn cael ei golli i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Enghraifft a roddwyd gan y grŵp oedd canfyddiad bod rhai siaradwyr Cymraeg yn dewis darpariaeth gofal plant cyfrwng Saesneg. Roedd grŵp ffocws pobl hŷn ym Mangor yn fodlon â gweithgareddau cymunedol Cymraeg yr ardal i'w grŵp oedran yn benodol. Nid oedd safbwyntiau cryf ganddynt ynglŷn â bylchau mewn gweithgareddau cymunedol drwy'r Gymraeg. Serch hynny, yn gyffredinol teimlwyd bod llai o weithgarwch cymdeithasol Cymraeg yn yr ardal erbyn hyn yn sgil dylanwad sefydliadau rhyngwladol.
- 5.40 Yn ôl grwpiau ffocws pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc, a phobl canol oed, mae sîn gerddoriaeth Gymraeg fywiog yn lleol, ym Mangor a'r trefi cyfagos. Cyfeiriwyd at nosweithiau gigiau cyson wedi'u trefnu gan yr Urdd, aelwydydd lleol, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Phrifysgol Bangor. Y teimlad ymhlith y grŵp ffocws pobl ifanc oedd bod digon o weithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer yr arddegau cynnar ond bod bwlch gweithgareddau i'r grŵp oedran uwchradd hŷn. Dyma ymateb un aelod o grŵp pobl ifanc Bangor: *'Mae nhw'n apelio lot at flwyddyn 7, 8 a 9 neu i bobl fwy ifanc, ond pam 'dach i'n cyrraedd yr oed arddegau hwyr di nhw ddim, mae o fatha fod nhw ddim yn*

apelio at y ni ...' sw'n i'n gofyn am fwy i'r oed yna fy hun' (Grŵp Pobl Ifanc Bangor).

5.41 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Arferion leithyddol

Siopau

- 5.42 Testun trafod pwysig ym Mangor oedd y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn siopau'r gymuned leol. Cafwyd safbwyntiau gwahanol yn ôl grwpiau ffocws penodol. Disgrifiwyd Bangor fel dinas â siopau cadwyn gan fwyaf yn hytrach na nifer o siopau annibynnol, lleol - ffactor a ddylanwadai ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siopa ym Mangor. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan mai Bangor yw'r brif ganolfan siopau i'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys canran uchel o siaradwyr Cymraeg.
- 5.43 Yn ôl aelodau grwpiau ffocws Bangor roedd bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg yn siopau Bangor.²⁸ Er hynny, yn ôl grŵp ffocws rhieni â phlant ifanc roedd tua'r un nifer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg wrth siopa ym Mangor. Nid oedd gan grŵp y dysgwyr safbwyntiau cryf ynghylch iaith gweithwyr siopau Bangor ac yr oeddent yn realistig bod angen defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ym Mangor. Adroddodd y grŵp pobl ifanc ei bod hi'n anodd defnyddio'r Gymraeg mewn siopau lleol gan mai'r Saesneg oedd iaith gychwynnol sgysiau yn y siopau: *'... mae pobl jyst yn cychwyn siarad Saesneg, so dwi jyst yn cymryd di nhw ddim yn siarad Cymraeg, yr unig dro maen nhw wedi siarad Cymraeg efo fi ydi pan dw i'n gwisgo tei [ysgol Gymraeg] ac maen nhw yn dechra' yn Gymraeg ...'* (Grŵp Pobl Ifanc Bangor).
- 5.44 Yn ôl grwpiau ffocws rhieni â phlant ifanc a grŵp canol oed, roedd Bangor yn profi dirywiad yn eu hybiau cymdeithasol Cymraeg. Cyfeiriwyd yn benodol at gau'r siop lyfrau Cymraeg annibynnol, siop recordiau Cymraeg annibynnol a swyddfa bost a oedd yn cynnig ei holl wasanaethau drwy gyfrwng y

²⁸ Ceir tystiolaeth gyfatebol o fewn data ansoddol arolwg stryd Bangor: *'mae angen hybu pobl sy'n dewis peidio siarad Cymraeg ond yn gallu, yn enwedig o fewn siopau'*.

Gymraeg. Serch hynny, trafododd aelodau'r grwpiau hyn bwysigrwydd rôl canolfan gelfyddydau a fyddai'n cyfrannu at ddiwallu anghenion ieithyddol a chymunedol Bangor yn y dyfodol.

Gwasanaethau Cyhoeddus

- 5.45 Roedd y grwpiau yn gytûn bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau llywodraeth leol megis ysgolion, llyfrgelloedd, swyddfeydd post a'r heddlu ym Mangor. Cyfeiriodd y grŵp ffocws pobl hŷn at ddylanwad Cyngor Gwynedd sy'n cynnig amrediad o wasanaethau drwy'r Gymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt.
- 5.46 Pwnc trafod cyson ymhlith grwpiau ffocws Bangor oedd y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Iechyd. Teimlad unfrydol ymhlith y grwpiau oedd bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff gweinyddol a nyrsys ond bod diffyg meddygon a oedd yn gallu siarad Cymraeg.²⁹ Dyma sylw gan aelod grŵp canol oed Bangor: '*... mae 'na gamddehongli weithiau efo achosion fel dementia ... mae'n bwysig er mwyn tiwnio fewn i weld be maen nhw'n deud, pam mae rhywun yn distressed iawn mae nhw mynd i'r iaith gynta.*' (Grŵp Canol Oed Bangor). Dyma destun a drafodwyd yn yr Arolwg Stryd yn ogystal.³⁰ Cyfeiriwyd at yr angen am ddoctoriaid Cymraeg i gyrraedd anghenion y gymuned: '*Angen doctoriaid mewn ardal ble mae pawb yn siarad Cymraeg*'. Cymharwyd dinas Bangor â threfi a phentrefi cyfagos yn aml. Teimlad cyffredin yn ôl y grwpiau oedd bod Bangor yn gymuned wedi'i Seisnigo o'i chymharu â'r ardaloedd cyfagos lle gellid derbyn gwasanaethau iechyd yn Gymraeg.
- 5.47 Canfyddiad cryf ymhlith grŵp pobl ifanc ym Mangor oedd bod nifer o weithgareddau canolfannau hamdden yn cael eu cynnal drwy'r Saesneg erbyn hyn. Yr eithriad a roddwyd oedd gweithgareddau penodol wedi'u trefnu gan yr Urdd ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn ogystal, cyfeiriodd nifer o aelodau grŵp pobl ifanc Bangor at y ffaith fod angen mwy o gyrsiau hyfforddiant chwaraeon a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor.

²⁹ Ategwyd y pwynt hwn o fewn data ansoddol arolwg stryd Bangor.

³⁰ Gweler Atodiad 1.12 am wybodaeth bellach.

Addysg

- 5.48 Canfyddiad grŵp ffocws pobl ifanc Bangor oedd mai'r system addysg uwchradd a ddylanwadai ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg. Cyfeiriwyd yn benodol at addysgu elfennau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Saesneg neu'n ddwyieithog a sut yr oedd hynny'n effeithio ar ddefnydd cymdeithasol, anffurfiol o'r Gymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol.
- 5.49 Cyfeiriodd grŵp rhieni â phlant ifanc Bangor yn benodol at ddylanwad Siarter Iaith Gwynedd ar agweddau, arferion a defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion ysgol Gwynedd: *'... Siarter iaith wedi cychwyn yn yr ardal, mae hwn rili yn neud gwahaniaeth,... mae jyst agwedd yn wahanol ac mae iaith ar yr iard wedi newid a pan maen nhw'n dod nôl i dŷ ni, dim ots pa gefndir mae nhw'n dod o, maen nhw'n chwarae'n Gymraeg ac maen nhw yn siarad Cymraeg efo ni.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Bangor).
- 5.50 Roedd y gymuned ryngwladol a chymathiad yn thema drafod ym Mangor oherwydd dylanwad sefydliadau rhyngwladol fel y brifysgol a'r ysbyty. Adroddodd aelodau grwpiau ffocws pobl hŷn Bangor eu bod yn credu bod y system addysg a mudiadau pobl ifanc wedi llwyddo i gymathu plant o wledydd tramor i'r diwylliant a'r iaith Gymraeg mewn modd effeithiol. Cyfeiriwyd yn benodol at gydweithio rhwng yr Urdd ac ysgolion er mwyn pwysleisio gwerth iaith a diwylliant Cymru.

Hyder

- 5.51 Dywedodd aelodau grwpiau ffocws y dysgwyr, pobl canol oed ac aelodau llai hyderus y grŵp pobl hŷn fod diffyg hyder yn eu gallu Cymraeg yn dylanwadu ar eu defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Yr oedd eu cyfraniad i weithgareddau cymunedol yr ardal yn ddibynnol ar eu canfyddiadau o safon eu Cymraeg llafar a'r hyder oedd ganddynt i ddechrau'r sgwrs yn Gymraeg. Yn wahanol i hynny, nododd y grŵp ffocws pobl ifanc mai diffyg hyder unigolion o'u cwmpas oedd yn eu rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg yn gymunedol ym Mangor. Cyfeiriwyd yn benodol at anawsterau cynnal sgwrsiau ag unigolion sydd â sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg yn unig.

- 5.52 Cyfeiriodd grŵp y dysgwyr at yr her gyson o geisio newid arferion ieithyddol unigolion o fewn y gymuned. Adroddodd nifer o'r dysgwyr bod hynny'n rhwystr penodol wrth ddechrau sgwrs yn y Gymraeg.
- 5.53 **Ffynonellau gwybodaeth**
- Cyfeiriodd grwpiau ffocws Bangor at amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth maent yn eu defnyddio i ddod i wybod am weithgareddau cymunedol drwy'r Gymraeg. I'r grwpiau ffocws pobl hŷn a rhieni â phlant ifanc roedd papurau bro yn chwarae rhan bwysig mewn rhannu gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau cymunedol yr ardal. Yn ogystal, canfyddiad y grŵp pobl hŷn oedd bod dosbarthiad papurau bro mewn cymuned yn cael ei weld fel barometer o Gymreictod yr ardal honno. Ym marn y grŵp pobl hŷn roedd llai o bapurau bro yn cael eu dosbarthu yn dilyn patrymau all-lifiaid a mewnlifiad lleol.
- 5.54 Patrwm clir o blith y grwpiau rhieni â phlant ifanc, canol oed a'r dysgwyr ym Mangor oedd eu bod yn rhannu gwybodaeth ar lafar drwy rwydweithiau cymdeithasol anffurfiol gyda theulu, ffrindiau, a chydweithwyr yn y gweithle. Cafwyd tystiolaeth helaeth o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan bob grŵp ffocws ym Mangor ar wahân i'r grŵp pobl hŷn. Cyfeiriodd y grwpiau hyn at *Facebook* a *Twitter* yn benodol fel modd o ddysgu am weithgareddau cymunedol ym Mangor.
- 5.55 Fodd bynnag, er i'r grwpiau gyfeirio at ffynonellau gwybodaeth ym Mangor, thema gyson arall oedd diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o weithgareddau cymunedol. Adroddodd y grŵp ffocws rhieni â phlant ifanc eu bod wedi colli rhai gweithgareddau am nad oeddent yn gwybod amdanynt ac ategwyd y pwynt hwn gan aelod grŵp canol oed Bangor: *'When we first moved here it was very difficult to find out anything that was going on, and even now it's still difficult unless you happen to be in the right place and somebody mentions it, you tend not to find out about things.'* (Grŵp Canol Oed Bangor).
- 5.56 Canfyddiad amlwg ymhlith grŵp pobl ifanc Bangor oedd bod angen trefnu a hysbysebu mwy o weithgareddau cymunedol Cymraeg a cheisio cynnwys unigolion ac amryw o sgiliau ieithyddol yn rhan ohonynt: *'Dw i'n meddwl*

ddylsan nhw trio cael pobl sydd ddim yn siarad gymaint o Gymraeg i fynd. 'Di rhan fwy' o ffrindia' fi ddim rili'n siarad Cymraeg so pam mae petha' fel Maes B yn dod i fyny, os swni isio mynd, 'sa nhw ddim a swni'm yn teimlo mod i welcomed i fynd yna, dos' nam croeso i siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl.' (Grŵp Pobl Ifanc Bangor).


5.57 **Barn ar faterion ehangach**

Gwaith/Economi a Thai

- 5.58 Yr oedd patrymau all-lifiad a mewnlifiad wedi dylanwadu ar y defnydd cymunedol o'r Gymraeg ym Mangor yn ôl y grŵp pobl ifanc a'r grŵp pobl hŷn. Dyma ganfyddiad un o gyfranogwyr y grŵp: *'Dwi'n meddwl bod y strydoedd wedi newid, stryd ni wedi newid, ar un adeg oeddach chi medru siarad Cymraeg gyda pawb yn y stryd, oedd na dros ugain copi o [papur bro lleol] yn mynd allan, 'da ni lawr wan i tua wyth neu naw yn y stryd oherwydd bod pobl sy'n symud i fewn ddim yn siarad Cymraeg.'* (Grŵp Pobl Hŷn Bangor).
- 5.59 Cyfeiriodd y grwpiau ffocws pobl hŷn, pobl ganol oed a rhieni â phlant ifanc at eu pryder ynghylch datblygiadau tai Bangor yng ngoleuni diffyg cyfleoedd swyddi o fewn yr ardal. Nododd aelodau'r grwpiau uchod nad oedd angen datblygiadau tai newydd pan fyddai tai fforddiadwy yn galluogi pobl leol i fyw o fewn eu cymunedau. Yn ôl aelod o grŵp ffocws pobl hŷn Bangor: *'... be sydd angen ydi gwaith yn yr ardal yma, ac eto mae nhw mynd i adeiladu llwythi o dai. Felly fysa yna dai iddyn nhw ond os nad yw'r gwaith yma, fydd y tai yna yn mynd yn dai pobl ddiarth a fydd na lai o Gymraeg.'* (Grŵp Pobl Hŷn Bangor).
- 5.60 Adroddodd grŵp ffocws pobl hŷn Bangor bod angen cynyddu statws a bri'r iaith Gymraeg o fewn y gweithle. Pwysleisiwyd bod angen hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel sgil yn y gweithle o fewn yr ardal leol: *'... that's the time you're going to see the Welsh language, when people can earn their living through the Welsh language.'* (Grŵp Pobl Hŷn Bangor).

5.61 LLANRWST

Ffigur 5.3: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Llanrwst



- 5.62 Dengys y map uchod ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Llanrwst yn ôl Ardal Gynnyrch (OA -Output Area) yn 2011. Gwelir bod cymuned Llanrwst yn cynnwys dwy ward sef Crwst a Gŵyr. Mae ward Gŵyr a mwyafrif ward Crwst yn ardal lle mae 60-80 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Mae un ysgol cyfrwng Cymraeg yn gwasanaethu'r ardal ac un ysgol ddwyieithog (Categori 2B).

Tabl 5.3: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Llanrwst³¹

Gweithgareddau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn Llanrwst
Cynllun Gweithredu Iaith
Menter Iaith
Twf
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt
Mudiad Meithrin
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith
Urdd Gobaith Cymru
Merched y Wawr
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Papurau Bro
Cymraeg i Oedolion

5.63 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

O blith y sampl a holwyd, roedd ymwybyddiaeth ynglŷn â gweithgareddau yn y gymuned ble roedd cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys nifer o gynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru megis Merched y Wawr, Eisteddfodau, Ti a Fi, Ffermwyr Ifanc, Clybiau'r Urdd, Cylch Meithrin a chyfleoedd amrywiol sy'n gysylltiedig ag ysgolion lleol. Tynnwyd sylw gan ymatebwyr y grwpiau pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc a chanol oed at waith a gweithgareddau a drefnir gan y Fenter Iaith, megis gwyliau cerddorol a gweithgareddau hamdden awyr agored. Pan holwyd yr ymatebwyr i nodi pwy sy'n trefnu'r digwyddiadau a'r clybiau hyn, nodwyd gan amlaf mai unigolion penodol lleol neu'r sefydliad penodol ar lefel leol oedd yn trefnu'r digwyddiadau. Ni wirfoddolodd y sampl i ateb mai Llywodraeth Cymru oedd yn ariannu'r cyfleoedd hyn.

³¹ Gweler Atodiad 1.19 am wybodaeth bellach.

- 5.64 Rhestrwyd nifer o weithgareddau cymunedol eraill sydd yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn Llanrwst. Roedd rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon, clybiau cymdeithasol, drama, clybiau celfyddydau a chlybiau dysgwyr. Cyfeirwyd hefyd at gorau oedd yn canu yn Gymraeg a chlybiau'n gysylltiedig â chapeli ac eglwysi lleol. Yn ôl yr arolwg stryd yr ysgol (74.7 y cant), wrth addoli (71.1 y cant) a'r teulu (69.8 y cant) oedd y tri lleoliad lle roedd y cyfleoedd pennaf ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.³²
- 5.65 Adroddodd grŵp ffocws pobl ifanc yr ardal fod amrediad eang o weithgareddau cymunedol Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer eu grŵp oedran. Cyfeiriodd ymatebwr y grŵp pobl ifanc at weithgareddau Cymraeg a Saesneg roeddent yn eu mynychu, gan esbonio fod rhai o'r gweithgareddau hyn yn Saesneg gan mai dyna oedd iaith yr hyfforddwyr, gyda'r Urdd yn cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfeiriodd y grŵp hefyd at gynllun PCAI yn yr ysgolion a'r ymgais sydd wedi bod drwy hwnnw i gynnal gweithgareddau iaith Gymraeg i'r ifanc. Cafodd y Fenter Iaith leol hefyd ei chrybwyll ar sawl achlysur, gan gynnwys pan nododd y grŵp canol oed bod rhai o weithgareddau awyr agored yr ardal bellach yn cynnig mwy drwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil cynllun gwaith y Fenter Iaith leol.
- 5.66 O'r gweithgareddau a restrwyd gan yr ymatebwyr uchod, ymddengys bod gan Lanrwst fywyd cymunedol Cymraeg bywiog. Nid yw hi'n hawdd cysylltu bywiogrwydd y gymuned hon ag ymyriadau Llywodraeth Cymru yn benodol. Fodd bynnag, gellir tybio bod yr ymyriadau a restrwyd yn ychwanegu at fywiogrwydd y gymuned, yn ogystal â bywiogrwydd y Gymraeg o fewn y gymuned hon.
- 5.67 Cafwyd tystiolaeth gan y grwpiau ffocws canol oed a dysgwyr o ganfyddiad bod gweithgareddau cymdeithasol wedi'u rhannu ar sail iaith yn Llanrwst. Cyfeiriwyd at gymunedau ieithyddol ar wahân o fewn yr ardal lle ceir gweithgareddau cyfochrog yn cael eu cynnal gan gymuned Gymraeg yr ardal a'r gymuned ddi-Gymraeg heb fawr o gymysgu cymunedol.

³² Gweler Atodiad 1.13 am wybodaeth gyflawn.

- 5.68 Canfyddiad gan y grŵp pobl ifanc a dysgwyr oedd bod Llanrwst yn dref lle ceir mwy o ddefnydd o'r Saesneg nag yn y gorffennol. Cyfeiriodd y grwpiau hyn at eu canfyddiad bod mwy o Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn trefi a phentrefi cyfagos yn hytrach nag yn Llanrwst ei hun. Yn ôl aelod o grŵp pobl ifanc Llanrwst roedd angen gadael y dref er mwyn clywed y Gymraeg ar waith yn gymdeithasol.
- 5.69 Er bod nifer sylweddol o'r sampl a holwyd yn mynychu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith neu rai dwyieithog, ac er eu bod yn hapus gyda'r ddarpariaeth a oedd ar gael, nododd ymatebwyr o'r grŵp rhieni â phlant ifanc nad oeddent yn tueddu i fynychu llawer o weithgareddau o gwbl, gan dynnu sylw at brysurdeb bywyd a diffyg cymhelliant i wneud hynny.
- 5.70 Yn ôl grŵp y dysgwyr roedd angen grwpiau cymdeithasol Cymraeg penodol yng nghanol y dref er mwyn cynnig cyfleoedd cymdeithasol cyfleus: *'Mi faswn i'n licio grŵp yn y pentre' i ddysgwyr, er enghraifft, Sadwrn Siarad neu rywbeth fel 'na yn mwy aml.'* (Grŵp Dysgwyr Llanrwst). Ategwyd hyn gan grŵp pobl ifanc Llanrwst a oedd yn cysylltu'r Gymraeg â phobl hŷn yn hytrach na phobl ifanc a chyfeiriwyd at ddefnydd isel o'r Gymraeg ganddynt hwy a'u ffrindiau: *'It's more like the older people who speak Welsh in Llanrwst ... the youths don't really speak it much so if you go out with your friends you just tend to speak English.'* (Grŵp Pobl Ifanc Llanrwst).
- 5.71 Teimlad tebyg oedd gan grŵp pobl hŷn yr ardal. Adroddodd nifer ohonynt fod pobl ifanc yn defnyddio'r Saesneg yn fwy na'r Gymraeg yng nghanol tref Llanrwst. Dyma sylw gan un aelod o grŵp ffocws pobl hŷn yr ardal: *'I've noticed that in the streets most of the youngsters seem to be speaking English ... fel na mae nhw dŵad wan de, Saesneg ydi pob dim ... diom yn modern nadi [Cymraeg], a mae nhw trio moderneiddio fo dydyn, neud o mwy cŵl.'* (Grŵp Pobl Hŷn Llanrwst).
- 5.72 Er y sylwadau hyn, cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at ddefnydd amlycach o'r Gymraeg erbyn hyn mewn rhai meysydd, a gwelwyd hyn fel nodwedd gadarnhol o ran hyfywedd y Gymraeg. Cyfeiriodd aelodau grŵp pobl ifanc a chanol oed Llanrwst at bwysigrwydd sîn gerddorol fywiog Llanrwst. I'r grwpiau hyn, roedd y sîn gerddorol yn allweddol ar gyfer cyfleoedd i

ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol yn Llanrwst, yn ogystal â chynnig delwedd 'cŵl' o'r iaith Gymraeg i bobl ifanc: *'mae'r sîn roc Gymraeg yn andros o bwysig i Gymru, meddyliwch rŵan am yr holl bethau sydd yn digwydd yn ardal Llanrwst mewn blwyddyn efo'r sîn roc Cymraeg i be fyddai'n digwydd deg - pymtheg mlynedd yn ôl, mae'n cŵl rŵan dydi.'* (Grŵp Canol Oed Llanrwst). Cyfeiriwyd at nifer o wyliau a digwyddiadau cerddorol Llanrwst, yn ogystal â bandiau lleol. Fodd bynnag, nododd rhieni â phlant ifanc bryder ynghylch toriadau cyllid i ddigwyddiadau cerddorol, tra nododd ymatebwyr o'r grŵp pobl ifanc bod digwyddiadau cerddorol yn rhy gostus iddynt fynychu.

5.73 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Addysg

- 5.74 Patrwm cyffredin i grwpiau ffocws Llanrwst oedd dylanwad y system addysg ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ardal. Nodwyd eisoes bod rhai ymatebwyr yn cyfeirio at raniad ieithyddol o fewn y gymuned a nodwyd bod rhai yn credu mai sgil effaith hanesyddol polisi addysg yn yr ardal oedd tu cefn i hyn. Er hynny, cyfeiriodd aelodau'r grŵp ffocws canol oed at newid diwylliant a oedd wedi digwydd yn ddiweddar, gyda naws mwy Cymreig i weithgarwch cymunedol yr ardal.
- 5.75 Roedd grŵp ffocws pobl ifanc Llanrwst o'r farn bod addysg wedi dylanwadu, ac yn parhau i ddylanwadu, ar ddefnydd y Gymraeg yn gymunedol yn Llanrwst: *'Mae ysgol bach, mae'n neud ti siarad Cymraeg, ti goro, mae popeth yn Gymraeg ond wedyn mae nhw relaxio pam ti mynd fyny rili, mae nhw rhoi yr opsiwn i chdi a fanna mae'r Cymraeg yn cael ei cholli.'* (Grŵp Pobl Ifanc Llanrwst). Ym marn grŵp ffocws pobl ifanc Llanrwst roedd dirywiad mewn hyder a rhuglder wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn a symud drwy'r gyfundrefn addysg, gyda hyn yn effeithio ar eu defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.

Mudiadau Cymdeithasol

- 5.76 Yr oedd gan fudiadau cymdeithasol megis yr Urdd a'r Fenter Iaith ddylanwad ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg yn Llanrwst. Roedd sicrhau siaradwyr Cymraeg mewn mudiadau cymdeithasol y tu allan i'r system addysg yn annog cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal. Dyma ymateb gan aelod grŵp pobl ifanc Llanrwst: '*... doeddwn i ddim di siarad Cymraeg yn iawn ers dwy blynedd bron ond ers mae [athro ysgol] sy'n gweithio yn yr ysgol, yma 'dwi'n siarad lot mwy [o Gymraeg] ...'da ni'n mynd i glwb pŵl a chlwb ping pong i gyd yn Gymraeg.*' (Grŵp Pobl Ifanc Llanrwst).

Arferion ieithyddol

- 5.77 O blith aelodau'r grwpiau a holwyd roedd canfyddiad bod siaradwyr Cymraeg y gymuned yn teimlo eu bod yn arferiad troi at y Saesneg mewn cyd-destunau cyhoeddus, er enghraifft mewn siopau neu mewn grŵp ble mae'r di-Gymraeg yn bresennol. Yn ôl dysgwyr Llanrwst, roedd pobl leol yn troi i'r Saesneg yn rhy hawdd heb roi cyfle iddynt ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg. Adroddodd grŵp pobl hŷn Llanrwst bod unigolion di-Gymraeg yn dylanwadu ar eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Yr oeddent am gynnwys unigolion di-Gymraeg ac felly'n troi i'r Saesneg: '*Da chi'm yn rude nag 'dach, rhaid i chi ddod a fo [y sgwrs] i Saesneg rhaid, os 'di'r person yna ddim yn siarad Cymraeg dachin trosglwyddo fo i'r Saesneg...*'da chi'n deud yn automatic 'I'm sorry' a troi i'r Saesneg?...' (Grŵp Pobl Hŷn Llanrwst).
- 5.78 Thema flaenllaw ymlith grŵp rhieni â phlant ifanc Llanrwst oedd nad oedd y Gymraeg bob tro yn rhan annatod o hunaniaeth Gymreig yr ardal. Roedd cymhlethdod hunaniaeth Gymreig yr ardal yn effeithio ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: '*Mae'n cŵl i fod yn berson Cymraeg yma, ond hynna ddim o reidrwydd yn golygu bod chdi yn gallu siarad Cymraeg.*' (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Llanrwst).

Siopau

- 5.79 Rhestrodd y grwpiau ffocws yr ysgol, y gweithle, gweithgareddau hamdden a gwasanaethau cyhoeddus yn benodol fel lleoliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymuned. Cefnogwyd hyn gan yr arolwg stryd a oedd yn nodi bod cyfleoedd o fewn y lleoliadau hyn i ddefnyddio'r Gymraeg.³³ Fodd bynnag, yr oedd nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt.
- 5.80 Un patrwm a nodwyd gan y grŵp ffocws pobl ifanc oedd bod gweithwyr siopau'r dre yn siarad Saesneg gan amlaf. Cytunai grŵp rhieni â phlant ifanc a grŵp pobl hŷn yr ardal bod dewis pa iaith i ddechrau sgwrs yn anodd ac yn rhwysr rhag defnyddio'r Gymraeg mewn siopau: *'Pam 'da chi'n cerdded mewn i siop, a pwy bynnag sy'n serfio chi, 'sgennyich chi ddim cliw ydyn nhw'n Gymraeg neu Saesneg, wel fysa fo ddim yn help os bysa na 'I speak Welsh ' a wedyn sa chi gael dechra yn Gymraeg ...'* (Grŵp Pobl Hŷn Llanrwst).
- 5.81 Nododd y grŵp canol oed bod llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y siopau lleol, ond eu canfyddiad hwy oedd bod nifer yn anfodlon defnyddio'r Gymraeg o fewn y cyd-destun hwn.

Gwasanaeth lechyd

- 5.82 Cyfeiriodd grŵp y dysgwyr a'r grwpiau canol oed a phobl ifanc hefyd at brinder cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda meddygon. Er ei bod hi'n bosibl siarad Cymraeg gyda derbynnydd neu nyrs, roedd diffyg meddygon iaith Gymraeg o fewn y Gwasanaeth lechyd yn Llanrwst a'r gymuned ehangach yn eu barn hwy. Cefnogwyd y dystiolaeth gan arolygon stryd Llanrwst lle nododd 40.7 y cant o ymatebwyr nad oedd cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u meddyg teulu lleol. Er hynny, roedd gan grŵp pobl hŷn ganfyddiad gwahanol; nodwyd ganddynt hwy fod gwasanaeth ieuchyd dwyieithog ar gael iddynt.

³³ Yn ôl yr arolwg stryd, nid yw'r gwasanaethau cyhoeddus i gyd yn cael eu clustnodi fel lleoliadau lle mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned. Nodwyd bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda meddygon lleol yn brin. Gweler Atodiad 1.13 am wybodaeth bellach.

5.83 **Ffynonellau gwybodaeth**

Trafododd ymatebwyr nifer o ffynonellau gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau cymunedol yn Llanrwst. Cyfeiriodd y grŵp ffocws pobl hŷn at bwysigrwydd Yr Aelwyd ers talwm fel canolbwynt digwyddiadau Cymraeg yr ardal ond adroddwyd ei bod bellach wedi cau. Yn ôl grwpiau pobl hŷn, dysgwyr, rhieni â phlant ifanc a phobl ifanc, roedd y papur bro, posterï ar hysbysfyrddau mewn canolfannau hamdden a chymdeithasol yn ffynonellau gwybodaeth pwysig yn yr ardal. Cyfeiriodd grŵp rhieni â phlant ifanc a chanol oed at rwydwaith lleol ar y we fel ffynhonnell wybodaeth, tra roedd y grŵp canol oed a phobl ifanc yn defnyddio *Facebook* er mwyn cael clywed am weithgareddau lleol. Roedd ymatebwyr o'r grŵp pobl ifanc yn ymwybodol bod grwpiau ieithyddol ar wahân yn bodoli ar-lein a oedd yn adlewyrchu cyfryngau addysgu y system addysg yn benodol.

5.84 **Barn ar faterion ehangach**


Gwaith/Economi a Thai

5.85 Roedd patrymau all-lifiad a mewnlifiad yn bwysig i ddyfodol y Gymraeg yn Llanrwst yn ôl grwpiau dysgwyr a rhieni â phlant ifanc. Cyfeiriodd dysgwyr yn benodol at fewnfudwyr di-Gymraeg yn prynu tai gwyliau yn y pentrefi a bod y system addysg o dan bwysau i gymhathu'r plant hyn i'r diwylliant a'r iaith Gymraeg.

5.86 Adroddodd ymatebwyr y grŵp pobl hŷn fod angen i fewnfudwyr di-Gymraeg sydd yn symud mewn i Lanrwst a'r pentrefi cyfagos wneud ymdrech i ddysgu'r Gymraeg. Cafwyd cyfeiriadau hefyd gan y grŵp pobl hŷn a'r grŵp rhieni â phlant ifanc at bwysigrwydd cyfleoedd swyddi er mwyn galluogi teuluoedd i fyw a gweithio yn yr ardal: *'Rhaid trio cadw teuluoedd yn y gymuned leol a'r pentrefi bach, rhaid meddwl am petha' fel gwaith a darpariaeth gofal plant Cymraeg, ond Cymraeg da hefyd de.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Llanrwst). Nododd y grŵp rhieni â phlant ifanc hefyd fod angen datblygu tai fforddiadwy i bobl leol; byddai hyn yn ôl ymatebwyr yn caniatáu i'r Gymraeg aros yn yr ardal.

5.87 RHYDAMAN

Ffigur 5.4: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Rhydaman



5.88 Dengys y map uchod ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Rhydaman yn ôl Ardal Gynnyrch (OA – Output Area) yn 2011. Mae'n dangos bod 40-60 y cant yn gallu siarad Cymraeg yn y rhan fwyaf o ardal gymuned Rhydaman. Mae'r canrannau o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio o 20-40 y cant tua chanol y dref i 60-80 y cant mewn rhan o ward Pontaman. O ran darpariaeth addysgol o fewn cymuned Rhydaman, ceir cyfres o wahanol gategorïau o ysgolion sef cyfrwng Cymraeg, dwyieithog (Categori 2B), trawsnewidiol, dwy ffrwd a chyfrwng Saesneg.

Tabl 5.4: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Rhydaman³⁴

Gweithgareddau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn Rhydaman
Cynllun Gweithredu Iaith
Cynllun Hybu'r Gymraeg Partneriaith Aman Tawe
Menter Iaith
Twf
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt
Mudiad Meithrin
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith
Urdd Gobaith Cymru
Merched y Wawr
Papurau Bro
Cymraeg i Oedolion
Prosiect 'Symud Ymlaen'

5.89 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Roedd gan wahanol grwpiau ffocws Rhydaman wahanol lefelau o ymwybyddiaeth ynghylch gweithgareddau yn y gymuned lle roedd cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys y rhai a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd yr ymwybyddiaeth uchaf o gynlluniau Llywodraeth Cymru ymhlith y grŵp rhieni â phlant ifanc a'r grŵp pobl ifanc. Cyfeiriodd y ddau grŵp hwn at y Fenter Iaith a changen leol yr Urdd, ac yn benodol at weithgareddau hamdden a chwaraeon i blant a phobl ifanc. Yn ogystal, cyfeiriwyd at weithgareddau amrywiol a gynigiwyd gan gynllun Twf.

- 5.90 Cyfeiriodd grwpiau eraill hefyd at gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o weithgareddau eraill sy'n derbyn nawdd o arian cyhoeddus: Merched y Wawr, S4C a Radio Cymru, Clybiau'r Urdd, Cylch Meithrin a chylchoedd Ti a Fi, a chyfleoedd amrywiol sy'n gysylltiedig ag ysgolion lleol. Wrth holi pwy oedd yn trefnu'r gweithgareddau hyn, ni chyfeiriwyd yn uniongyrchol at

³⁴ Gweler Atodiad 1.20 am wybodaeth gyflawn.

Lywodraeth Cymru ond yn hytrach at gyfuniad o gynghorau lleol, pobl leol a'r capeli ac ysgolion lleol a chlybiau'r ardal.

- 5.91 Yn ogystal â'r gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, roedd y cyfranogwyr yn ymwybodol o gyfleoedd eraill lle y defnyddir y Gymraeg neu'r Gymraeg a Saesneg o fewn gweithgareddau'r gymuned. Mynegwyd teimladau cryfion ynghylch hanes hir o sefydlu corau a chlybiau cymdeithasol drwy'r Gymraeg yn yr ardal. Cyfeiriwyd at amrediad eang o glybiau chwaraeon a hamdden, clybiau cerddorol, clybiau'n gysylltiedig â'r eglwys neu gapel a chlybiau celfyddydau. Nodwyd bod cyfleoedd i dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg mewn siopau lleol, banciau, y cyngor sir ac yn gynyddol o fewn rhai siopau cadwyn yn yr ardal.
- 5.92 Yn ôl yr arolwg stryd, roedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael ar draws y gymuned gydag addoli (73.6 y cant), ysgol (72.4 y cant), a chyda'r teulu, (62.7 y cant), yn cael eu nodi fel y lleoliadau lle mae'r cyfleoedd mwyaf i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 5.93 Argraff gyffredinol ar draws y grwpiau ffocws oedd mai cymuned ddwyieithog yw Rhydaman, lle mae'r trigolion yn siarad Saesneg a'r Gymraeg. Fodd bynnag, sylw cyson arall oedd dylanwad cynyddol y Saesneg ar yr ardal, ond bod y Gymraeg yn gryfach o fewn y trefi a'r pentrefi cyfagos.
- 5.94 Yr oedd y grwpiau'n gytûn mai'r Saesneg oedd iaith gymdeithasol pobl ifanc yr ardal. Canfyddiad rhai o aelodau'r grŵp ffocws pobl ifanc oedd mai iaith i bobl hŷn cymuned Rhydaman oedd y Gymraeg. Yn ôl un aelod o'r grŵp hwn: *'wastod yr hen fenŵod sy'n siarad Cymrâg'*. Nododd y grŵp ffocws pobl hŷn mai pobl hŷn y gymuned oedd yn rhedeg gweithgareddau yn rheolaidd ac o'r herwydd yr oeddent yn aml yn Gymraeg. Yr ymdeimlad gan grŵp pobl ifanc yr ardal oedd bod angen trefnu mwy o weithgareddau perthnasol i bobl ifanc hŷn yr ardal a fyddai'n ddylanwad posibl ar iaith y gymuned. Yn ôl aelod o'r grŵp ffocws pobl ifanc: *'... mae'r cyfleoedd yn marw allan tamed bach nawr ni'n henach'*. Ategwyd y canfyddiad hwn gan aelod o'r grŵp ffocws pobl hŷn: *'there are a lot of activities, but they're all for our age group, there's probably not enough for younger people. It's becoming a bit of a ghost town with regard to activities for young people.'* Nid oedd yr aelod hwn

yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau iaith Gymraeg penodol, gan nad oedd yn siarad Cymraeg.

- 5.95 Er i'r grŵp pobl hŷn gydnabod dirywiad ieithyddol Rhydaman, adroddodd aelodau o'r grŵp bod amrediad o weithgareddau cymunedol yn cynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, clybiau cerdded, clybiau dawnsio a chlwb bowlio. Yr oedd aelodau'r grŵp yn aml yn mynychu'r capeli Cymraeg a chlybiau cymdeithasol. Nodwyd hefyd bod gwasanaeth capel misol Cymraeg ar gael, gyda chyfieithu-ar-y-pryd i aelodau di-Gymraeg. Nodwyd bod nifer o gapeli yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond barn y grŵp oedd bod y rhai Saesneg yn fwy poblogaidd erbyn hyn. Roedd aelodau'r grŵp pobl hŷn yn gytŷn ei fod yn bwysig iawn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau penodol ac o ddydd i ddydd yn y gymuned er mwyn i'r Gymraeg ffynnu.
- 5.96 Yn ôl grŵp dysgwyr Rhydaman, yr oedd y cyfle i ymarfer eu sgiliau Cymraeg yn bwysig iawn iddynt. Er bod cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r sgiliau hynny o fewn y gymuned, hoffent weld mwy o weithgareddau yn cael eu trefnu yn ogystal. Adroddodd y grŵp eu bod wedi mynegi diddordeb mewn nifer o gynlluniau a drefnwyd er mwyn iddynt ymarfer eu sgiliau llafar Cymraeg ond bod y rhain heb eu cynnal am resymau gwahanol megis diffyg cyllid.
- 5.97 Testun trafod amlwg ymhlith y grwpiau pobl canol oed, pobl ifanc a rhieni â phlant ifanc oedd bod clybiau diddordeb penodol Rhydaman fel arfer yn Saesneg, er bod yr aelodau (ac o bryd i'w gilydd, yr arweinwyr) yn medru'r Gymraeg. Dyma oedd safbwynt aelod o grŵp ffocws canol oed Rhydaman: *'dw i'n credu bod lot mwy o bethau Saesneg ar gael na Chymraeg, falle oherwydd maen nhw eisiau targedu'r bobl ifanc'*. Er hynny, cyfeiriodd y grŵp rhieni â phlant ifanc at ddylanwad cadarnhaol y capel lleol ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg yn Rhydaman.
- 5.98 Adroddodd y grŵp pobl ifanc fod clybiau cerddorol, hamdden a chwaraeon, gan gynnwys hyfforddiant chwaraeon drwy gyfrwng y Saesneg, yn yr ardal. Cyfeiriodd aelodau'r grŵp at weithgareddau chwaraeon Cymraeg eu hiaith a oedd yn weithredol am gyfnod penodol ond a ddaeth i ben oherwydd

rhesymau megis niferoedd isel neu ddiffyg cyllid. Gwelwyd hynny'n golled gan y bobl ifanc a holwyd, gan eu bod wedi mwynhau'r sesiynau ac o'r farn eu bod wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ddefnydd cymunedol eu grŵp y tu hwnt i'r system addysg. Er bod nifer o'r gweithgareddau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, ni chyfeiriodd yr ymatebwyr at hynny.

5.99 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Addysg

- 5.100 Adroddodd y grŵp pobl ifanc bod arferion ieithyddol disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn effeithio ar ddefnydd y Gymraeg y tu hwnt i'r system addysg. Yn ôl un aelod o'r grŵp: *'...plant yn dod mewn yn blwyddyn 7 yn meddwl 'sai'n primary rhagor, 'sdim rhaid i fi siarad Cymraeg, so fe'n cool'*. Cyfeiriodd sawl grŵp at ddefnydd cynyddol o'r Saesneg yn y system addysg leol. Yn ôl y grŵp ffocws pobl ifanc, prin y defnyddir y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth,³⁵ er iddynt adrodd eu bod yn gwerthfawrogi'r iaith yn fwy wrth fynd yn hŷn. Roedd gan sawl person ifanc awydd i weld y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n amlach o fewn yr ysgol: *'Licen i gael mwy o Gymrâg.'* Yn ôl un aelod o'r grŵp, roedd yn anodd newid patrymau ac arferion ieithyddol o fewn a thu allan i'r ysgol.³⁶ Cyfeiriodd rhai aelodau'r grŵp ffocws pobl ifanc at weithgareddau ffurfiol i hyrwyddo'r Gymraeg a oedd yn cael eu trefnu'n uniongyrchol gan yr ysgol. Adroddodd sawl aelod, fodd bynnag, fod yna ddirywiad mewn defnydd o'r Gymraeg unwaith roedd y cyfleoedd ffurfiol hynny yn dod i ben.
- 5.101 Roedd gan aelodau grŵp ffocws pobl hŷn Rhydaman safbwyntiau mwy cadarnhaol ynghylch y system addysg. Nodwyd bod plant a phobl ifanc yn dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol, sydd yn wahanol i'w plentyndod nhw, lle'r oedd yr iaith yn ddewisol, gyda disgyblion yn aml yn ffafrio ieithoedd tramor ers talwm.

³⁵ Ategwyd y thema yn nata ansoddol yr arolwg stryd yn Rhydaman: *'Saesneg ydi'r iaith ar ôl gadael ysgol – lot o gyfleoedd yn yr ysgol a gwersi ond pobl yn anghofio am hynny wedyn Cymraeg ddim yn 'iaith ffrindiau'.*

³⁶ Yn nata'r arolwg stryd, nodwyd defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Saesneg: *'Learnt Welsh because of grandchildren, but grandchildren answer in English'.*

Arferion ieithyddol

Hyder

- 5.102 Adroddodd grŵp ffocws pobl ifanc yr ardal bod hyder pobl eraill wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn dylanwadu ar eu defnydd hwy o'r Gymraeg mewn sawl parth. Yn ôl un aelod o'r grŵp rhieni â phlant ifanc yr oedd hyder yn effeithio ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg: *'A'th brawd fi i'r ysgol Gymraeg fel fi ond dyw e ddim yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg o gwbl. Ma' hwnna'n ca'l effaith ar iaith y teulu wedyn.'*
- 5.103 Ffactor arall ymhlith rhai aelodau o grŵp pobl hŷn Rhydaman oedd eu hyder yn eu gallu ieithyddol. Nododd dau aelod eu bod nhw wedi dod yn ôl i fyw yng Nghymru ar ôl cyfnod hir i ffwrdd o'r ardal a bod hyn wedi effeithio ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned. Cyfeiriodd aelodau y grŵp rhieni â phlant ifanc at ddiffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig oedd yn eu rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg o fewn grwpiau cymunedol ar y we. Yn ôl rhai ymatebwyr yr arolwg stryd yn Rhydaman, roedd angen rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr a phobl llai hyderus eu Cymraeg gael defnyddio'r iaith yn y gymuned: *'Anodd cael yr hyder i ffurfio brawddegau llawn a defnyddio'r iaith. Siarad Cymraeg adref trwy'r amser - 'Cymraeg Rhydaman.'* (Arolwg Stryd Rhydaman).

Cyd-destun ieithyddol y Gymuned

- 5.104 Trafododd grŵp pobl hŷn, rhieni â phlant ifanc a grŵp pobl ifanc Rhydaman sut mae cyd-destun ieithyddol y gymuned a niferoedd y bobl eraill o'u cwmpas sy'n siarad Cymraeg yn dylanwadu ar eu defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Cyfeiriodd y grŵp canol oed at ddylanwad y Saesneg ar arferion ieithyddol y teulu. Nododd un aelod mai'r Gymraeg oedd iaith yr aelwyd ond bod eu plant hŷn yn eu hateb yn Saesneg erbyn hyn.³⁷ Roedd hynny yn destun pryder gan mai'r Gymraeg oedd eu hiaith reddfól: *'Cymraeg yw'n hiaith gyntaf ni, a ni'n fwy hapus yn siarad Cymraeg'* (Grŵp Canol Oed Rhydaman).

³⁷ Gwelwyd data tebyg o fewn data ansoddol arolwg stryd Rhydaman.

Gwasanaethau Cyhoeddus

- 5.105 Adroddodd aelodau'r grŵp rhieni â phlant ifanc, y grŵp canol oed a'r grŵp pobl hŷn bod gwasanaethau cyhoeddus a oedd ar gael iddynt yn Gymraeg yn yr ardal. Cyfeiriwyd yn benodol at y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y llyfrgell gyfagos, mewn banciau, ac mewn siopau bach lleol yn Rhydaman. Er hynny, cafwyd awgrym o brofiadau gwahanol yn yr arolygon stryd, lle nododd 29.9 y cant o ymatebwyr Rhydaman nad oedd cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u meddyg teulu lleol.
- 5.106 Ni chyfeiriodd y grŵp ffocws pobl ifanc at ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau cyhoeddus. Nododd y grŵp rhieni â phlant ifanc fod bwlch amlwg o ran gwasanaethau hamdden Cymraeg yn yr ardal ac yn gyffredinol roeddent yn ansicr ynghylch pa wasanaethau Cymraeg a oedd ar gael yn lleol iddynt. Yr oedd grŵp canol oed Rhydaman yn defnyddio'r Gymraeg yn y banciau gan amlaf. Roedd grŵp ffocws y dysgwyr o'r farn bod rhai cyfleoedd ar gael gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg o fewn y llyfrgell. Ond, ar y cyfan, nid oedd yna ddigon o wasanaethau ar gael er mwyn iddynt ymarfer eu sgiliau Cymraeg yn y gymuned.

Siopau

- 5.107 Ac eithrio'r bobl ifanc, y cyfleoedd amlycaf i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dref oedd mewn banciau a siopau lleol. Cyfeiriodd ymatebwyr yn benodol at y siop benodedig Gymraeg yn Rhydaman. Nodwyd bod mwy o siopau cadwyn yn cefnogi'r Gymraeg hefyd erbyn hyn, a staff yn gwisgo bathodynau Cymraeg. Canfyddiad cryf ymhlith y bobl ifanc a holwyd, fodd bynnag, oedd mai'r Saesneg yw iaith siopau Rhydaman. Yn ôl un aelod o'r grŵp pobl ifanc: *'mae bron pawb yn siarad Cymraeg ar y staff ond mae'r cwsmeriaid yn siarad Saesneg'*. Cymerwyd yn ganiataol bron y byddai'r Saesneg yn cael ei defnyddio yn y siopau.

Dylanwad Dysgwyr

- 5.108 Roedd rhai o aelodau grŵp ffocws pobl ganol oed Rhydaman yn teimlo y dylid annog rhieni sy'n dewis anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddysgu'r Gymraeg yr un pryd â'u plant er mwyn annog defnydd cymunedol o'r Gymraeg. Yn ôl grŵp ffocws y dysgwyr roedd agweddau siaradwyr Cymraeg yr ardal yn effeithio ar eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Yn ôl un aelod o'r grŵp: *'Dyw llawer o bobl ddim yn hoffi siarad Cymraeg, 'dw i'n meddwl, gyda dysgwyr. Os ni'n trio, mae rhan fwyaf o bobl yn hapus, ond mae'n rhy araf iddynt. Mae'n fwy anodd i siarad gyda dysgwyr.'*

5.109 **Ffynonellau gwybodaeth**

Cyfeiriodd aelodau grwpiau ffocws Rhydaman at amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth maent yn eu defnyddio i ddod i wybod am weithgareddau cymunedol. Roedd holl aelodau grŵp ffocws pobl hŷn Rhydaman yn clywed am weithgareddau cymunedol trwy'r papurau lleol neu ranbarthol, trwy'r eglwys neu'r capel neu drwy eu sgysiau â phobl eraill. Adroddodd rhai o aelodau'r grŵp bod pobl hŷn Rhydaman yn ymwybodol o rai gweithgareddau oherwydd eu cyswllt hanesyddol a'u rhwydweithiau cymdeithasol o fewn y gymuned. Enghraifft o hynny oedd cysylltiadau'r clybiau cymdeithasol o fewn yr ardal. Er hynny, nododd aelodau'r grŵp pobl hŷn eu bod yn colli rhai gweithgareddau os nad oeddent yn cael eu hysbysebu drwy'r ffynonellau hyn.

- 5.110 Prif ffynhonnell wybodaeth pobl ifanc Rhydaman ynghylch gweithgareddau cymunedol oedd yr ysgol a'r Fenter Iaith Leol. Er hynny, ymwybyddiaeth isel o weithgareddau Cymraeg yr ardal oedd gan y grŵp hwn. Gwelwyd yr un duedd ymhlith grwpiau eraill yn yr ardal. Er enghraifft, nid oedd gan rai aelodau grŵp y dysgwyr ffynonellau gwybodaeth gyson er mwyn dod i wybod am weithgareddau Cymraeg lleol, tra nododd aelodau eraill y grŵp eu bod yn defnyddio papurau bro a siarad ag unigolion sy'n rhan o rwydweithiau lleol. Yn ôl y grŵp rhieni â phlant ifanc, roedd taflenni'r cyngor lleol a

gwefannau cymdeithasol megis *Facebook* yn ffynhonnell wybodaeth gyfleus iddynt. Er hynny, gwanethpwyd y sylw gan y grŵp rhieni â phlant ifanc a'r dysgwyr bod diweddaru'r gwefannau cymunedol yn bwysig er mwyn sicrhau defnydd cyson ohonynt.

5.111 **Barn ar faterion ehangach**


Patrymau Mewnlifiad ac All-lifiad

- 5.112 Thema flaenllaw yn Rhydaman oedd bod dyfodol yr iaith yn ddibynnol ar allfudo a mewnfudo i'r gymuned, gyda siaradwyr Cymraeg yn gadael a phobl ddi-Gymraeg yn symud i mewn. Gwnaethpwyd y sylw gan aelodau'r grwpiau ffocws ac ymatebwyr yr arolwg stryd bod iaith gweithgareddau cymunedol a dyfodol yr iaith, yn syml, yn ddibynnol ar bwy sy'n dal i fyw yn yr ardal a'r cyfleoedd gwaith lleol sydd ar gael iddynt.³⁸

³⁸ Gwelwyd safbwyntiau tebyg ynghylch pwysigrwydd tai a gwaith lleol o fewn data ansoddol arolwg stryd Rhydaman.

5.113 ABERYSTWYTH

Ffigur 5.5: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Aberystwyth



5.114 Dengys y map uchod ganrannau siaradwyr Cymraeg yn Aberystwyth yn ôl Ardal Gynnyrch (OA- Output Area) yn 2011. Mae pedair ward, sef Bronglais, Gogledd Aberystwyth, Penparcau a'r Rheidol yn rhan o gymuned Aberystwyth. Mae'r data yn amlinellu amrywiaeth o alluoedd ieithyddol rhwng, ac o fewn, y wardiau hyn. Amrywia'r canrannau o siaradwyr Cymraeg o 1-20 y cant mewn rhan o Gogledd Aberystwyth i 20-40 y cant yn Rheidol i 40-60 y cant mewn mannau o Fronglais a Gogledd Aberystwyth. Ceir amrywiaeth o ysgolion o fewn yr ardal sef ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg, cyfrwng Saesneg, ac un ysgol ddwyieithog (Categori 2A).³⁹

³⁹ 'Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.' (Llywodraeth Cymru 2007:12).

Tabl 5.5: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol yn Aberystwyth⁴⁰

Gweithgareddau a chynlluniau Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth
Menter Iaith
Twf
Mudiad Meithrin
Urdd Gobaith Cymru
Merched y Wawr
Papurau Bro
Cymraeg i Oedolion

5.115 **Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned**

Roedd gan ymatebwyr grwpiau ffocws Aberystwyth ymwybyddiaeth o gynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn Aberystwyth. Cyfeiriodd y grwpiau ffocws at Gylch Ti a Fi, cynllun Twf, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr. Nid oedd ymatebwyr o reidrwydd yn ymwybodol mai cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru oedd y rhain. Yn nhyb grŵp y dysgwyr a'r bobl hŷn, pobl leol neu wirfoddolwyr oedd yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau cymunedol yn yr ardal. Roedd y gwirfoddolwyr hyn gan amlaf yn bobl hŷn neu yn unigolion nad oedd yn dod o'r ardal yn wreiddiol: *'Gyda llawer o bethau, mae eisiau gwirfoddolwyr i redeg nhw ... Mae 'na lot o bobl sydd yn gwirfoddoli'n gyffredinol, pobl sydd wedi ymddeol achos mae mwy o amser gyda nhw, ac mae lot ohonyn nhw hefyd yn bobl sydd wedi symud mewn i'r ardal.'* (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth).

- 5.116 Cynigiodd y grwpiau ffocws enghreifftiau o nifer o weithgareddau cymunedol lleol eraill. Roedd y rhain yn gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, neu'r Gymraeg a'r Saesneg yn gymysg. Ymhlith y cyfleoedd roedd corau, cymdeithasau yn ymwneud â chapeli ac eglwysi, clybiau celfyddydol, y

⁴⁰ Gweler Atodiad 10.21 am wybodaeth lawn.

Brifysgol, dramâu, clybiau cerdd, dosbarthiadau ffotograffiaeth, gwersi crochenwaith, sesiynau yoga, clwb pobl ifanc a gigs Cymraeg.

- 5.117 Fodd bynnag, canfyddiad grwpiau ffocws pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc a chanol oed oedd bod iaith clybiau chwaraeon yr ardal yn gymysg, ac mai Saesneg yn unig a ddefnyddir yn aml ar gaeau chwarae pêl-droed Aberystwyth. Ategwyd y safbwynt hwn gan grŵp canol oed Aberystwyth a oedd yn teimlo'n rhwystredig bod gweithgareddau ffitrwydd yn aml ond ar gael yn y Saesneg: *'Mae yna heriau sy'n rhwystro pobl rhag gallu gwneud gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft does dim gwersi bob-dydd fel aerobics ar gael yn Gymraeg.'* (Grŵp Canol Oed Aberystwyth).
- 5.118 Teimlai aelodau'r grŵp ffocws pobl hŷn bod tuedd i drefnu gweithgareddau ffurfiol arbenigol drwy gyfrwng y Saesneg yng nghanol tref Aberystwyth. Rhoddwyd enghraifft o weithdai crefft: *'rhywbeth fel 'na wastod yn cael eu trefnu trwy gyfrwng y Saesneg'* (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth). Roedd teimlad ymysg y grŵp hwn y byddai trefnwyr yn cymryd yn ganiataol mai Saesneg yn unig fyddai'r galw.
- 5.119 Yn ôl ymatebwyr arolwg stryd Aberystwyth adroddwyd bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg amlaf i'w canfod wrth addoli (45.2 y cant), gyda'r teulu (45.2 y cant), ac wrth wirfoddoli (41.7 y cant).⁴¹ Noder, fodd bynnag, fod y canrannau ar gyfer 'Addoli' a 'Teulu' yn is nag yn achos unrhyw gymuned arall, ac mae'r ganran a nododd nad oes cyfle o gwbl iddynt ddefnyddio'r Gymraeg wrth wirfoddoli (33.3 y cant) yn uwch nag yn achos unrhyw gymuned arall.
- 5.120 Roedd canfyddiad ymhlith aelodau'r grwpiau pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc, canol oed a phobl hŷn bod Aberystwyth wedi profi cyfnod o Seisnigo. Sylw cyffredinol oedd bod trefi a phentrefi Aberystwyth yn fwy Cymreig nag Aberystwyth ei hunan. Cymharwyd Aberystwyth ac ardaloedd mewn mannau eraill yng Nghymru. Sylw un rhiant o'r grŵp ffocws rhieni â phlant ifanc oedd: *'... bod lot mwy o Gymraeg yng Nghaerfyrddin, Porthmadog ... Rwy' wedi bod ar wyliau yn Ynys Môn a synnais glywed gymaint o Gymraeg yn y siop, yn y caffi.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberystwyth).

⁴¹ Gweler Atodiad 1.15.

- 5.121 Ym marn y grŵp rhieni â phlant ifanc roedd canol tref Aberystwyth yn ‘*reit Seisnigaidd*’ o ganlyniad i batrymau symudedd a dylanwad sefydliadau rhyngwladol gan gynnwys y brifysgol a’r ysbyty. Er hynny, nododd yr ymatebwyr eu bod yn clywed mwy o Gymraeg ar y stryd fawr ar ddydd Sadwrn. Nododd y grŵp canol oed a’r grŵp rhieni â phlant ifanc bod yna gymuned dros dro sydd yn effeithio ar y cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymunedol: ‘*mae’r dref yn brysur gyda myfyrwyr, wedyn yn tawelu wrth iddynt adael, wedyn yn brysur gydag ymwelwyr ac yn tawelu wrth iddynt adael.*’ (Grŵp Canol Oed Aberystwyth). Amlygwyd y safbwynt hwn hefyd yn gryf yn yr arolwg stryd, gydag ymatebwyr yn nodi fod angen annog defnydd o’r Gymraeg yn eu cymuned, gan siaradwyr rhugl a dysgwyr fel ei gilydd.
- 5.122 Nodwyd fod gan Aberystwyth ymdeimlad o ‘gymuned gyfandirol’ gan fod sawl gweithgaredd ymlaen gyda’r nos a chymuned fywiog a chroesawgar (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth). Serch hynny teimlwyd fod angen mwy o weithgareddau yn Gymraeg i blant hŷn gan fod digon ar gael i fabanod a phlant ifanc. Roedd un teulu wedi symud nôl i Aberystwyth o Loegr ers blwyddyn bellach a dywedodd: ‘*Hoffen ni nhw [y plant] glywed bach yn fwy o Gymraeg. Sai’ moyn nhw ddechrau meddwl taw Saesneg yw iaith oedolion.*’ (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberystwyth).
- 5.123 Nododd yr ymatebwyr hefyd fod angen mwy o weithgareddau bob dydd lle mae’r Gymraeg yn cael ei gweld fel nodwedd integredig o’r gweithgaredd yn hytrach na gweithgareddau Cymraeg penodol: ‘*Bod pethau ar gael i bobl wneud, a hefyd bod nhw’n bethau lle all pobl siarad Cymraeg, felly pethau ma nhw’n neud beth bynnag ond maen nhw ar gael yn Gymraeg, fel bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel rhywbeth arferol, ddim ar wahân.*’ (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth).
- 5.124 Adroddodd aelod o’r grŵp ffocws rhieni â phlant ifanc bod Aberystwyth angen mwy o nosweithiau Cymraeg yn y dref, yn cynnwys gigiau Cymraeg. Nododd bod y sîn gerddoriaeth Gymraeg yn gryf yn Aberystwyth rhyw bum i ddeng mlynedd yn ôl, ond ei fod bellach ‘*wedi tawelu rhywfaint, er [mae] i weld yn ail-gydio rhyw faint nawr...*’ (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Aberystwyth).

- 5.125 Roedd gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i'r grŵp pobl ifanc: *'Bydde fe ddim 'run peth os bydde'r clwb yn Saesneg.'* Ategwyd y farn hon gan bobl hŷn yr ardal ond cyfeiriwyd yn ogystal at gyfrifoldeb siaradwyr Cymraeg i ddiogelu'r iaith: *'Fy nghenedl i, colli iaith a'r diwylliant Cymreig. Ni'n byw yng Nghymru, mae'n rhaid i ni neud o yn y Gymraeg os gallwn ni.'* (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth).
- 5.126 Nododd aelodau'r grŵp ffocws pobl hŷn bod diffyg cefnogaeth i weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn eu hardal: *'There are so many Welsh people here who don't support activities, they don't come ... They go to town - Aberystwyth is a nuisance place sometimes because they go to town and go to other things - but they don't support what you do in the Eisteddfod and the show and other things.'* (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth).
- 5.127 Dywedodd aelodau'r grŵp ffocws canol oed fod angen cymorth ariannol i redeg digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth, ond bod hefyd angen corff fel Menter Iaith yn yr ardal er mwyn gweithredu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn yr ardal: *'Mae angen rhywbeth i roi'r cymorth i gyd-gysylltu'r gymuned Gymraeg, i redeg gweithgareddau ac i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.'* (Grŵp Canol Oed Aberystwyth).

5.128 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Arferion leithyddol

Siopau

- 5.129 Y farn unfrydol ar draws yr holl grwpiau ffocws oedd bod siopau Aberystwyth yn Saesneg eu hiaith. Yn ôl grŵp ffocws pobl hŷn roedd teimlad fod llai o Gymraeg i'w chlywed mewn siopau o gymharu â blynyddoedd cynharach: *'It's getting more and more English by the day.'* (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth). Tybiwyd gan grŵp ffocws y bobl ifanc fod hyn yn deillio o'r cynnydd mewn siopau cadwyn yn Aberystwyth a bod mwy o Saesneg gan weithwyr y siopau o ganlyniad. Yn ôl un ymatebwr: *'Blynydde nôl odd llai o'r*

chain stores i gael. Yn Aberaeron a Llanbed mae mwy o siopau lleol, busnesau lleol, felly mwy o Gymraeg.' (Grŵp Pobl Ifanc Aberystwyth).

- 5.130 Mae'r sylw uchod yn adlewyrchu'r canfyddiad fod ardaloedd tu allan i Aberystwyth yn cael eu hystyried yn fwy Cymreigaidd nag Aberystwyth ei hun ac felly fod mwy o Gymraeg i'w chlywed yn naturiol yn y cymunedau lleol yn y dalgylch. Cytunai dysgwyr Aberystwyth â hynny, gan nodi fod dwy archfarchnad fawr wedi dod i'r ardal yn ddiweddar a bod angen iddynt wneud mwy o ymdrech i ddarparu gwasanaeth Cymraeg da i'r gymuned leol.
- 5.131 Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn tueddu i wybod ym mha siopau roedd y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gael: *'I've sorted out those shop assistants that speak Welsh and are willing to speak it with me.'* (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth). Roedd aelodau o'r grŵp ffocws pobl hŷn yn hapus i drïo siarad Cymraeg yn gyntaf yn y siopau hyn a throi i'r Saesneg wedyn os oedd rhaid. Mewn siopau eraill yn Aberystwyth, roeddent yn tueddu i ddefnyddio'r Saesneg yn gyntaf ac nid oeddent yn disgwyl ymateb Cymraeg. Cyfeiriodd aelodau'r grŵpiau ffocws rhieni â phlant ifanc a dysgwyr, ynghyd ag ymatebwyr yr arolwg stryd,⁴² at fathodyn iaith gwaith fel cynllun a oedd, yn eu tyb hwy, wedi gweithio'n llwyddiannus er mwyn amlygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Er hyn, nodwyd bod y bathodynau yn llai gweledol yng nghanol y dref erbyn hyn gan y grŵp dysgwyr a'r grŵp rhieni â phlant ifanc. Ymhellach, mynegwyd gofid yn y grŵp pobl hŷn nad oedd Cymry Cymraeg yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg bob tro, ac y gallai hyn beryglu dyfodol yr iaith.

Gwasanaethau Cyhoeddus

- 5.132 Y teimlad ymlith aelodau'r grŵp dysgwyr oedd nad oedd digon o wasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg ar gael yn Aberystwyth. Cyfeiriwyd at wasanaethau'r stryd fawr lle nad oedd yn hawdd cael mynediad at wasanaethau Cymraeg. Yr oedd y grŵp yn gytŷn bod materion fel hyn yn effeithio ar eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned hon: *'Mae'n eironig, mewn bro Cymraeg, chi ddim yn cael yr un gwasanaeth*

⁴² Yn y data ansoddol o arolwg stryd Aberystwyth cyfeiriodd ymatebwyr at y bathodynau iaith gan weld eu defnydd fel arfer dda.

Cymraeg cyflawn a chi'n cael yn Ne Cymru, yng Nghaerdydd er enghraifft.' (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth). Cefnogwyd y safbwyntiau hyn gan yr arolwg stryd lle nododd 66.3 y cant o ymatebwyr nad oedd cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyngor lleol, tra roedd 61.2 y cant yn dweud nad oedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg teulu lleol.

- 5.133 Thema gyson ymhlith y grwpiau ffocws rhieni â phlant ifanc, canol oed a dysgwyr oedd bod diffyg gweithgareddau mewn canolfannau hamdden ar gael yn Gymraeg. Roedd diffyg gwersi nofio Cymraeg i blant yn destun trafod i'r grwpiau rhieni â phlant ifanc a dysgwyr yn yr ardal: *'Un o'r pethau dwi'n teimlo'n rhwystredig ybyti yw mae fy merch i nawr yn bedair a gobeithio bydd hi'n cael gwersi nofio ... ond mae'r gwersi yma trwy gyfrwng y Saesneg. Ni'n teimlo bod galw ac mae'r bobl sy'n hyfforddi yn gallu siarad Cymraeg.'* (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth). Fodd bynnag, nododd grŵp pobl ifanc Aberystwyth fod banciau yn rhoi cyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda'r gweithwyr.

Hyder

- 5.134 Un ffactor a nodwyd a ddylanwadai ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg oedd hyder. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y grŵp canol oed a holwyd. Esboniodd un aelod o'r grŵp hwn mai'r Saesneg oedd iaith ei swydd broffesiynol a bod hyn wedi'i wneud yn fwy hyderus yn siarad yn gyhoeddus ac arwain cyfarfodydd drwy'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan y grŵp pobl hŷn; yn eu barn nhw roedd diffyg parodrwydd ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda dysgwyr neu gyda'r rheiny sy'n llai hyderus yn eu Cymraeg, a hyn yn ffactor allweddol wrth ystyried dylanwadau ar ddefnydd o'r Gymraeg yn gymunedol.
- 5.135 Cyfeiriwyd at yr her o newid arferion ieithyddol unigolion fel ffactor arall sy'n effeithio ar ddefnydd y Gymraeg. Adroddodd y grŵp canol oed bod defnydd y Gymraeg yn dibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd wrth gyfarfod ag unigolyn am y tro cyntaf. Yn eu barn hwy anaml iawn yr oedd iaith yn newid ar ôl i iaith benodol cael ei sefydlu yn y cyfarfyddiad cyntaf: *'Chi'n siarad gyda phobl yn yr iaith wnaethoch chi gwrdd â'r person ... os chi'n cychwyn yn*

siarad mewn un iaith, chi'n parhau i siarad yn yr un iaith, mae'n anodd newid.' (Grŵp Canol Oed Aberystwyth).

- 5.136 Fodd bynnag, teimlwyd gan rai unigolion o grŵp ffocws y dysgwyr nad oedd unrhyw ffactor yn dylanwadu arnynt yn arbennig gan eu bod yn siarad Cymraeg yn awtomatig. Nodwyd mai'r Gymraeg oedd yr iaith naturiol iddynt ei siarad. Eglurodd aelod arall ei fod yn defnyddio'r Gymraeg oherwydd ei fod yn ei gweld fel iaith ddiddorol ac yn rhan o ddiwylliant Cymru: *'Dwi wedi dewis i ddefnyddio'r iaith. Dewisais i ddanfôn y plant i ysgol Cymraeg, mae fy nheulu i'n dod o'r De ... mae'n ddiddorol ac yn rhan o Gymru, dwi'n mwynhau dysgu pethau ac mae sawl ffrind sydd gen i sy'n siarad Cymraeg.'* (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth).

Addysg

- 5.137 Nododd y grŵp ffocws rhieni â phlant ifanc fod llawer o weithgareddau a chyfleoedd yn y Gymraeg i blant oed ysgol gynradd, ond bod y diwylliant yn newid yn yr ysgol uwchradd, gyda llawer mwy o ddylanwad y Saesneg. Nodwyd bod angen cydweithio ag ysgolion er mwyn sicrhau gweithgareddau ar gyfer plant yn eu harddegau.
- 5.138 Canfyddiad pobl hŷn yr ardal oedd nad oedd y Gymraeg yn berthnasol i bobl ifanc a bod gan y system addysg rôl i'w chwarae yn hynny o beth: *'Welsh isn't fashionable at school.'* (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth). Roedd hyn yn bryder mawr a oedd yn siapio defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn lleol.
- 5.139 Nododd un aelod o'r grŵp dysgwyr nad oes digon wedi cael ei wneud i hybu Cymraeg yn y gymuned o gymharu gyda'r Gymraeg mewn addysg, ac felly bod angen buddsoddiad ehangach yn y gymuned: *'50 mlynedd yn ôl, roedd y gwersi'n Saesneg ond roedd pobl yn siarad Cymraeg tu fas. Nawr, mae'r gwersi'n Gymraeg ond mae pobl yn siarad Saesneg tu fas ... dwi'n teimlo bod ni wedi colli'n ffordd, mae'n rhaid i ni gyfaddef hynna, a chael digon o 'guts' i ddweud bod ni wedi methu.'* (Grŵp Dysgwyr Aberystwyth). Un syniad o sut y gellid gwneud hyn oedd cael modelau rôl o'r byd chwaraeon a

cherddoriaeth o fewn yr ardal a fyddai yn medru dylanwadu ar ddefnydd iaith pobl ifanc (Grŵp Pobl Hŷn Aberystwyth).

5.140 **Ffynonellau gwybodaeth**

Cyfeiriodd grwpiau ffocws Aberystwyth at amryw o ffynonellau gwybodaeth y maent yn eu defnyddio i gael gwybod am weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned. Roedd cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig i bob grŵp ffocws yn Aberystwyth, ar wahân i'r bobl hŷn. O fewn y grŵp rhieni â phlant ifanc, yr oedd rhwydweithiau cymdeithasol ar lein yn ddull allweddol o rannu gwybodaeth. Roedd pawb yn y grŵp dysgwyr yn teimlo fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol yn hollbwysig er mwyn sicrhau perthnasedd yr iaith Gymraeg i'r gymdeithas fodern. Er hynny, adroddodd y grŵp nad oedd llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lein yn gyson.

- 5.141 Nododd y grŵp dysgwyr hefyd bod gwefannau canolfannau cymdeithasol, cylchlythyrau a phosteri yn ffynonellau gwybodaeth allweddol er mwyn iddynt ddod i wybod am weithgareddau dyddiol sy'n cael eu cynnal yn y gymuned leol. Roedd papurau bro lleol yn ffynhonnell wybodaeth hollbwysig ar gyfer pobl hŷn a'r grŵp canol oed. I aelodau grwpiau canol oed a dysgwyr roedd rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol hefyd yn fodd o glywed am gyfleoedd cyfrwng Cymraeg gan ffrindiau a chydweithwyr.


5.142 **Barn ar faterion ehangach**

Gwaith/Economi a Thai

- 5.143 Adroddodd ymatebwyr grwpiau ffocws Aberystwyth nad oedd digon o swyddi yn yr ardal. Roedd hyn yn bryder amlwg ymhlith pobl ifanc: *‘Mae lot yn mynd off i’r coleg a dyw’r ... swyddi ddim i gael i ddenu nhw nôl i’r ardal. ‘Sdim y swyddi fel middle class swyddi. A ma hwnnw yn cael effaith ar gymdeithas.’* (Grŵp Pobl Ifanc Aberystwyth). Roedd y bobl ifanc yn gweld mewnlifiad yn rhwystr i’r iaith Gymraeg yn ogystal, gan fod tuedd ymhlith mewnfudwyr i beidio â dysgu’r iaith: *‘... bach iawn sy’n dysgu Cymraeg - ddim yn aros digon hir i ddysgu Cymraeg. Y rhai sy’n symud mewn, sai’n credu bod nhw’n bothered ... dy’ nhw ddim yn cymysgu, mynd heibio’r pentref a syth i Aberystwyth.’* (Grŵp Pobl Ifanc Aberystwyth). Cyfeiriodd y grŵp dysgwyr at yr un pwynt gan nodi fod yr all-lifiad a mewnlifiad ar sail gwaith yn effeithio ar gyfansoddiad ieithyddol y gymuned.
- 5.144 Nododd grŵp dysgwyr Aberystwyth fod prinder unigolion ag arbenigedd technoleg gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardal a bod hynny’n effeithio ar y cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

5.145 PORTHMADOG

Ffigur 5.6: Map o ganrannau siaradwyr Cymraeg ym Mhorthmadog



5.146 Dengys y map uchod ganrannau siaradwyr Cymraeg ym Mhorthmadog yn ôl Ardal Gynnyrch (OA- Output Area) yn 2011. Mae dwy ward gyfan ym Mhorthmadog sef Dwyrain a Gorllewin Porthmadog, a ward Porthmadog - Tremadog. Gwelir o ddata Cyfrifiad 2011 bod y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio o 60-80 y cant yng nghanol tref Porthmadog, i 40-60 y cant ym Mhorthmadog Gorllewin, i 80-96 y cant yn y rhan fwyaf o ardal ward Porthmadog – Tremadog sydd o fewn cymuned Porthmadog. Gwelir bod holl ysgolion yr ardal yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Tabl 5.6: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol ym Mhorthmadog⁴³

Gweithgareddau a chynlluniau Llywodraeth Cymru ym Mhorthmadog
Cynllun Gweithredu Iaith
Menter Iaith
Twf
Mudiad Meithrin
Urdd Gobaith Cymru
Merched y Wawr
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Papurau Bro
Cymraeg i Oedolion

5.147 **Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned**

Roedd gan aelodau grwpiau ffocws Porthmadog ymwybyddiaeth dda o gynlluniau a gweithgareddau a oedd ar waith yn y gymuned leol a lle'r oedd cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys y rheini a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriodd y grwpiau ffocws yn gyson at y Cylch Meithrin, Grŵp Ti a Fi, Cynllun Twf, yr Urdd, yr Eisteddfod, Ffermwyr Ifanc a Merched y Wawr. Yn ogystal â hyn, tynnwyd sylw at ddylanwad rhaglenni teledu S4C gan grwpiau ffocws pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc a chanol oed, a phwysigrwydd y rhaglen 'Cyw' i fabanod a phlant er mwyn clywed a dysgu'r Gymraeg.

5.148 Er i holl grwpiau ffocws Porthmadog drafod cynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yn amlwg a oedd ymatebwyr yn ymwybodol mai Llywodraeth Cymru oedd yn ariannu'r gweithgareddau hynny. Yn hytrach, cyfeiriwyd at bobl leol a oedd yn trefnu cynlluniau a gweithgareddau cymunedol.

⁴³ Gweler Atodiad 1.22 am wybodaeth lawn.

- 5.149 Cyfeirwyd at nifer o weithgareddau cymunedol lleol eraill yn ogystal â gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Gymraeg a'r Saesneg yn gymysg. Ymysg y gweithgareddau roedd clybiau cymdeithasol, clybiau chwaraeon (pêl droed, rygbi, hoci, nofio, beicio, cerdded a rhwyfo), corau, clybiau cysylltiedig gyda chapeli ac eglwysi, clybiau i ddysgwyr Cymraeg a chlybiau celfyddydol a llenyddol. Gwelwyd hefyd amrywiaeth o glybiau yn darparu gweithgareddau i oedrannau penodol megis clybiau ieuencid, clybiau plant a rhieni ifanc a chlybiau ar gyfer pobl hŷn.
- 5.150 Ar sail y dystiolaeth a gynigiwyd gan y grwpiau ffocws, ymddengys bod Porthmadog yn cynnal cymuned Gymraeg hyfyw, lle mae gweithgareddau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg heb iddynt gael eu labelu yn benodol fel rhai 'drwy gyfrwng y Gymraeg'. Gwelwyd hyn o'r arolwg stryd yn ogystal gyda chyfranogwyr yn nodi fod cyfleoedd yn bodoli i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y gymuned, yn enwedig o fewn yr ysgol (74.5 y cant), y cyngor sir (73.9 y cant), a chyda'r teulu (68.1 y cant).
- 5.151 Roedd cymryd rhan mewn cyfleoedd cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i nifer o aelodau'r grwpiau ffocws ym Mhorthmadog. Thema gyson yn y grwpiau oedd bod y Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd ac ar waith yn naturiol ym Mhorthmadog, heb fod angen ymgais benodol i'w chyflwyno. I'r grwpiau pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc a phobl hŷn, y Gymraeg oedd eu dewis iaith a'r iaith roeddent yn mwynhau ei defnyddio: *'Mae'n fwy cyfforddus i siarad o [Cymraeg] wedyn dachin mynd i 'wla lle mae pobl efo r'un math o deimlad amdan yr iaith - sydd yn iaith gyntaf, neu wedi dysgu, ond 'da ni'n mwynhau defnyddio'r iaith llw.'* (Grŵp Pobl Ifanc Porthmadog).
- 5.152 Cyfeiriodd pobl hŷn Porthmadog at bwysigrwydd cyfleoedd cymdeithasol yn y Gymraeg o ran cynhaliaeth, cwmni ac er mwyn sicrhau hir oes i'r Gymraeg: *'Rheina 'di'r pethau sydd yn cadw ni fynd mewn ffordd, ond mae o hefyd yn ffordd o gadw'r iaith yn fyw yn bendant.'* (Grŵp Pobl Hŷn Porthmadog). Nododd ymatebwyr y grŵp rhieni â phlant ifanc fod mynychu digwyddiadau Cymraeg yn bwysig o ran eu hunaniaeth, parhad yr iaith a rhoi cyfle i'w plant ddysgu a chwarae drwy'r Gymraeg cyn mynychu'r ysgol.

- 5.153 Yn ôl aelodau'r grŵp ffocws pobl ifanc, roedd digon o weithgareddau a digwyddiadau Cymraeg yn yr ardal, ond nid oedd pobl yn manteisio ar bob cyfle i'w mynychu: *'Dw i'n meddwl fod 'na ddigonedd o ddigwyddiadau Cymraeg yn yr ardal ond bod 'na ddim digon o bobl yn manteisio arnyn nhw yn aml iawn ... ella bod pobl ddim yn clywed amdan y nhw.'* (Grŵp Pobl Ifanc Porthmadog). Ategwyd y farn hon gan y grŵp dysgwyr a chanol oed yn ogystal. Adroddodd aelodau o'r grŵp ffocws canol oed nad oedd pobl yn tueddu i fynd oherwydd prysurdeb bywyd o ddydd i ddydd.
- 5.154 Cyfeiriodd y grŵp pobl ifanc a rhieni â phlant ifanc at boblogrwydd y sîn gerddoriaeth Gymraeg leol, yn enwedig cynnal gigs mewn canolfannau lleol ac fel rhan o weithgareddau diwrnod 'Sut mae? Su' mai' yn y coleg lleol: *'Dwi'n neud bob dim trwy'r Gymraeg, dwi'n mynd i gigiau Cymraeg ... mae pawb r'un fath yn coleg, mae pawb yn licio'r gigs a bandiau Cymraeg.'* (Grŵp Pobl Ifanc Porthmadog). Fodd bynnag, roedd teimlad cryf ymhlith y rhieni â phlant ifanc fod eu cynnal yn ariannol yn broblematig: *'Mae na gyfleoedd cymdeithasol fel 'na fel dachin ddeud yn lleol ond cael y cyfleoedd i gynnal nhw ydi'r broblem fwyaf - yr arian i gynnal nhw.'* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Porthmadog).
- 5.155 Roedd cael nawdd i redeg clybiau a gweithgareddau yn thema amlwg ymhlith grwpiau ffocws eraill hefyd (grŵp pobl hŷn a grŵp y dysgwyr), lle'r oedd pryder am barhad canolfannau i fedru cynnal grwpiau cymunedol. Nododd y tri grŵp fod angen cymorth ariannol er mwyn cynnal canolfannau a chlybiau lleol a fodolai yn barod ym Mhorthmadog. Yn y data ansoddol o'r arolwg stryd, rhannwyd rhai awgrymiadau ynghylch gweithgareddau i'w cynnal yn y dyfodol a nodwyd fod yna le ar gyfer mwy o weithgareddau pobl ifanc fel gigs, ynghyd â chlybiau cadw'n heini, darllen a gwnïo.
- 5.156 Fodd bynnag, er bod y grwpiau ffocws dysgwyr a chanol oed yn cydnabod pwysigrwydd mynychu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg, roedd y sawl a holwyd yn y grwpiau hyn yn fwy tueddol o fynychu cyfleoedd dwyieithog neu Saesneg yn yr ardal yn hytrach na rhai Cymraeg. Roedd cred ymysg y ddau grŵp hefyd eu bod hi'n anodd canfod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn yr

ardal: ‘... *dipyn yn siomedig achos r’on i’n meddwl byddai yna mwy o gyfleoedd*’ (Grŵp Dysgwyr Porthmadog).

5.157 Ffactorau sy’n dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Arferion leithyddol

Siopau

- 5.158 Testun trafod pwysig ym Mhorthmadog oedd cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg mewn siopau yn y gymuned leol. Yn ôl y grwpiau ffocws pobl ifanc, pobl hŷn a dysgwyr roedd cael y cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg yn amrywio - yn ddibynnol ar y siop a’r gweithwyr. Roedd hyn yn amlycach yn siopau mawr y dref a’r archfarchnadoedd nag yn y siopau bychain lleol. Adleisiwyd y thema hon yn yr arolwg stryd. Testun gofid i gyfranogwyr oedd enghreifftiau o weithwyr mewn siopau yn y dref oedd yn methu â siarad Cymraeg, yn enwedig felly mewn siopau cadwyn mawr ac archfarchnadoedd.
- 5.159 Cafwyd cyfeiriadau cyson gan y grwpiau rhieni â phlant ifanc, pobl hŷn a dysgwyr at y bathodynau a phosteri iaith gwaith a pha mor bwysig oedd y rhain wrth annog unigolion i ddefnyddio’r Gymraeg mewn siopau lleol: ‘*Mi oedd na badge ar r’un pryd, ond ‘da chi ddim yn gweld lot o rheina rŵan, oedd hwnna yn helpu de.*’ (Grŵp Pobl Hŷn Porthmadog). Nodwyd gan y grŵp dysgwyr fod angen i’r Gymraeg fod yn weledol amlwg o fewn siopau er mwyn annog defnydd cymdeithasol amlycach, yn enwedig ymysg rheini sy’n dysgu neu sy’n llai hyderus yn eu gallu yn y Gymraeg: ‘*Wel ers stalwm roedd gan y siopau ‘Siaradwch Cymraeg’, wyddoch chi oeddwn nhw ar y cownter bob amser a dwi ddim di gweld nhw yn ddiweddar. Dydi bathodyn ddim digon da, dydi rhywun ddim yn edrych ar fathodyn gymaint â fysan nhw ar ryw hysbysiad gweledol, a mae isio fo’n fawr ac yn llachar er mwyn i bobl cael ei weld o.*’ (Grŵp Dysgwyr Porthmadog).

Gwasanaethau Cyhoeddus

- 5.160 Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau am wasanaethau oedd ar gael i'r ymatebwyr trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ym Mhorthmadog. Teimlwyd bod y gwasanaethau yn Gymraeg yn dda ar y cyfan yn yr ardal hon. Roedd dylanwad Cyngor Gwynedd yn destun trafod ymhlith nifer o'r grwpiau ffocws, ac roedd yn cael ei ystyried fel dylanwad cadarnhaol o ran sicrhau cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 5.161 Un patrwm amlwg oedd yr anhawster i ddod o hyd i feddyg a oedd yn siarad Cymraeg, er bod cyfleoedd i siarad Cymraeg gyda nyrsys a derbynyddion. Ategwyd y safbwyntiau hyn yn yr arolwg stryd lle nododd 20.4 y cant o'r ymatebwyr nad oedd cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda meddyg lleol.

Hyder

- 5.162 Yn ôl ymatebwyr y grŵp ffocws pobl ifanc a phobl hŷn, y Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf a'r iaith yr oeddent yn awyddus i'w defnyddio yn eu cymuned. Y patrwm ymhlith y bobl ifanc oedd eu bod yn teimlo'n gyfforddus wrth siarad Cymraeg yn hytrach na'r Saesneg: *'Dw i'n hyderus yn siarad Cymraeg de, dwi'm yn licio siarad Saesneg.'* (Grŵp Pobl Ifanc Porthmadog). Cafwyd sylwadau tebyg gan grŵp pobl hŷn Porthmadog - y Gymraeg oedd dewis iaith y mwyafrif mewn gweithgareddau a bywyd bob dydd. Roedd y Gymraeg yn gyfrwng cyfforddus iddynt.
- 5.163 Ffactor arall oedd yn dylanwadu ar ddefnydd pobl ifanc o'r Gymraeg oedd iaith arweinyddion grwpiau cymdeithasol pobl ifanc. Teimlwyd bod mwy o groeso i'r Gymraeg os oedd arweinydd y clwb hefyd yn medru'r Gymraeg.
- 5.164 Ffactor dylanwadol o ran eu defnydd cymunedol o'r Gymraeg i ddysgwyr ym Mhorthmadog oedd eu diffyg hyder yn eu gallu eu hunain yn y Gymraeg. Roedd cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd yn ddibynnol ar eu canfyddiad o'u gallu i ymateb: *'Diffyg hyder ydi'r peth pwysica' i mi, dwi jyst yn osgoi siarad Cymraeg os bydd yn bosib, heblaw am yn y tafarn, ond dwi*

ddim yn siarad Cymraeg yn y siopa, dwi ddim yn gwybod pam dw i ddim.'
(Grŵp Dysgwyr Porthmadog).

- 5.165 Canfyddiad arall ymhlith ymatebwyr grwpiau canol oed, pobl hŷn a dysgwyr oedd bod siaradwyr Cymraeg yn y gymuned yn rhy barod i droi i'r Saesneg mewn cyd-destun cyhoeddus lle mae pobl ddi-Gymraeg yn bresennol. Adroddodd aelodau o'r grŵp dysgwyr a rhai o'r grŵp canol oed oedd yn dysgu Cymraeg bod ceisio newid arferion ieithyddol o Saesneg i'r Gymraeg yn her ac yn rhwystr wrth ddysgu'r Gymraeg: *'Out of politeness, and misguided politeness, they will reply in English.'* (Grŵp Canol Oed Porthmadog). Dyma thema ddaeth yn amlwg yn y data ansoddol o'r arolwg stryd ym Mhorthmadog yn ogystal, gydag ymatebwyr yn nodi fod angen gwneud mwy er mwyn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

Addysg

- 5.166 Yn ôl grwpiau ffocws yr ardal, roedd y system addysg wedi dylanwadu ac yn parhau i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ardal. Adroddodd y grwpiau bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn nalgylch Porthmadog.

5.167 **Ffynonellau gwybodaeth**

Daeth yn amlwg o'r grwpiau ffocws fod ffynonellau gwybodaeth amrywiol ar gael er mwyn canfod gweithgareddau cymunedol drwy'r Gymraeg ym Mhorthmadog. Roedd cyfryngau cymdeithasol (yn enwedig *Facebook* a *Twitter*), yn chwarae rhan gynyddol bwysig fel modd o ddarganfod cyfleoedd drwy'r Gymraeg i grwpiau pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc a chanol oed.

- 5.168 Ymhlith pob grŵp ym Mhorthmadog roedd gwybodaeth am weithgareddau cymunedol yn dod trwy rwydweithiau cymdeithasol anffurfiol sef ffrindiau a phobl leol. Roedd y papur bro yn bwysig i grŵp pobl hŷn a dysgwyr fel ffordd o ganfod gwybodaeth am weithgareddau cymunedol. Adroddodd pobl ifanc fod athrawon a'r ganolfan hamdden yn ffynhonnell wybodaeth bwysig, ac i'r grŵp canol oed, pobl hŷn a dysgwyr roedd posterï a radio yn gyfryngau defnyddiol er mwyn deall mwy am gyfleoedd drwy'r Gymraeg yn lleol. I'r

grŵp rhieni â phlant ifanc roedd yr ysgol yn ffynhonnell wybodaeth bwysig: *‘Os oes gennych chi blant yn ysgol dachin gwbod am fwy o bethau sydd yn mynd ymlaen yn lleol yn dydach, mae nhw dod adra efo gwybodaeth.’* (Grŵp Rhieni â Phlant Ifanc Porthmadog).

- 5.169 Roedd teimlad cytûn ymysg y grŵp ffocws pobl ifanc a grŵp y dysgwyr nad oedd gweithgareddau cymunedol yn cael eu hysbysebu’n ddigonol bob tro, ac o ganlyniad roeddent yn teimlo fod nifer o gyfleoedd yn cael eu colli – er bod y cyfryngau cymdeithasol i’w gweld yn chwarae rôl defnyddiol o ran llenwi’r bwlch hwn: *‘Mae’n anodd ffeindio allan am petha weithia, os sa gen i ddim Facebook swni ddim yn clywed am hanner y petha dwi mynd i.’* (Grŵp Pobl Ifanc Porthmadog).

5.170 **Barn ar faterion ehangach**

Gwaith/Economi a Thai

- 5.171 Un thema a drafodwyd ymhlith pobl ifanc, rhieni â phlant ifanc, pobl hŷn a dysgwyr ym Mhorthmadog oedd patrymau all-lifiad a mewnlifiad cyson yn yr ardal. Roedd hyn yn eu tyb hwy yn effeithio ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg. Y farn ymhlith y grwpiau uchod oedd fod angen i fewnfudwyr wneud ymdrech i ddysgu’r iaith wrth symud i’r ardal.
- 5.172 Pwysleisiwyd ymysg mwyafrif y grwpiau ffocws fod angen swyddi a thai fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd o’r ardal, er mwyn cadw Cymry Cymraeg yn lleol.

6. Themâu a Chanfyddiadau Allweddol

6.1 Yn y bennod hon ceir trafodaeth bellach ar y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr astudiaeth. Bydd y drafodaeth hon yn ei thro yn sail i'r casgliadau a'r argymhellion a gyflwynir ym Mhennod 7.

6.2 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

Nid bwriad yr astudiaeth hon oedd cynnal awdit systematig o weithgareddau cymunedol yn y chwe chymuned a astudiwyd. Yn hytrach, y bwriad oedd cynnig trosolwg o'r gweithgarwch cymunedol a geir yn yr ardaloedd dan sylw, a dod i rai casgliadau ynghylch y defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth i gyfranogwyr ymwneud â'i gilydd yn eu cymunedau. Dangosodd yr astudiaeth ehangder y gweithgarwch sydd yn digwydd yn y chwe chymuned, a hefyd yr amrywiaeth sydd yn bodoli o ran sut y mae unigolion yn rhyngweithio gyda'i gilydd. Dengys y dystiolaeth hon yr her a geir wrth gynllunio gweithgareddau cymunedol sy'n cwrdd ag anghenion a disgwyliadau amrywiol y cyhoedd.

6.3 Gwelwyd ymwybyddiaeth a defnydd o weithgareddau Cymraeg eu hiaith a dwyieithog o fewn chwe chymuned yr astudiaeth. Cafwyd enghreifftiau penodol o unigolion a oedd yn mynychu llawer o weithgareddau sydd wedi eu trefnu yn y gymuned (gan gynnwys rhai a ariennir gan Lywodraeth Cymru).⁴⁴ Cafwyd tystiolaeth o ymwybyddiaeth o gynlluniau a gweithgareddau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys Mentrau Iaith, cylchoedd Mudiad Meithrin a chylchoedd Ti a Fi, Twf, yr Urdd, Merched y Wawr, Eisteddfodau, a'r Ffermwyr Ifanc.

6.4 Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth a gasglwyd bod y ddarpariaeth yn fwy cynhwysfawr i rai grwpiau nag eraill. Adroddodd rhai grwpiau ffocws bod bylchau mewn cyfleoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i blant hŷn.⁴⁵ Roedd hyn yn arbennig o wir yn Aberteifi a Rhydaman. Gellid dehongli o hyn fod angen gweithgareddau ychwanegol i gynrychioli'r grŵp oedran hwn sy'n adeiladu ar ddarpariaeth Twf a Mudiad Meithrin yn y ddwy gymuned.

⁴⁴ Gweler Pennod 2: *Cefndir Cysyniadol* am drosolwg o gymhlethdodau maes y gymuned.

⁴⁵ Ni holwyd plant a phobl ifanc o dan 16 oed o fewn yr astudiaeth hon. Er hynny, cyfwelwyd rhieni a oedd â phlant o'r grŵpiau oedran hyn.

Mudiadau sy'n trefnu gweithgareddau rhieni a phlant ifanc a enwir yn bennaf o fewn yr astudiaeth hon.

- 6.5 Adroddwyd bod bylchau o ran gweithgareddau hamdden i blant hŷn a phobl ifanc, er enghraifft gwersi chwaraeon a nofio cyfrwng Cymraeg. Cafwyd tystiolaeth bod yr Urdd yn darparu cyfleoedd mewn sawl cymuned, ond gwelwyd bylchau o ran darpariaeth mewn rhai cymunedau lle nododd y grwpiau ffocws pobl ifanc nad oedd gweithgareddau Cymraeg ar gael iddynt yn yr ardal.
- 6.6 Holwyd cyfranogwyr y grwpiau ffocws ynglŷn â phwy oedd yn trefnu gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog o fewn eu cymunedau. Ni chafodd Llywodraeth Cymru ei henwi yn benodol wrth i weithgareddau cymunedol gael eu trafod. Roedd canfyddiad ymhlith cyfranogwyr grwpiau ffocws mai pobl leol oedd yn trefnu gweithgareddau iaith Gymraeg a dwyieithog yn eu cymunedau. Cyfeiriwyd yn gyson at grŵp o bobl weithgar a oedd yn gyfrifol am gydlynw gweithgareddau cymunedol. Gellid dehongli o hyn bod ymwybyddiaeth a pherchnogaeth leol ar gynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y chwe chymuned.
- 6.7 Ym mhob cymuned, cynigiodd y cyfranogwyr enghreifftiau o weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny y tu hwnt i ddylanwad cynllunio bwriadus Llywodraeth Cymru. Cafwyd tystiolaeth ym mhob cymuned o unigolion gweithgar a oedd yn cydlynw'r gweithgareddau hyn. Roedd lefel gweithgarwch cymunedol Cymraeg a oedd yn gweithredu y tu hwnt i gynlluniau Llywodraeth Cymru yn amrywio yn ôl ardal ac o fewn ardaloedd.
- 6.8 Un thema glir a amlygwyd yn y grwpiau ffocws oedd y ffaith nad oedd gan bawb yr amser i fynychu'n gyson weithgareddau cymunedol sydd wedi'u trefnu, gan fod ganddynt flaenoriaethau eraill. I'r unigolion hyn, roedd eu rhyngweithiad cymdeithasol yn tueddu i fod yn fwy anffurfiol ac yn digwydd fel rhan o'u gweithgareddau dyddiol, er enghraifft wrth siopa ac wrth gyrchu gwasanaethau.

6.9 Ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg yn y gymuned

Arferion ieithyddol

- 6.10 Un patrwm nodedig a adroddwyd yn yr ymchwiliad oedd y cyfleoedd cyfyngedig i ddefnyddio'r Gymraeg mewn siopau ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau ieuchyd. Mae data'r arolygon stryd yn dangos bod 21.6 y cant o ymatebwyr ar draws y chwe chymuned yn dweud bod llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn siopau, a'r ganran gyfatebol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg oedd 21.3 y cant.⁴⁶ Cafwyd cydnabyddiaeth gan gyfrangowyr grwpiau ffocws yr astudiaeth ei bod hi'n anodd newid iaith ar ôl y cyfarfyddiad cyntaf a bod hynny'n sefydlu patrymau ieithyddol o fewn y cymunedau.

Gwasanaethau o fewn siopau

- 6.11 Ni chafwyd asesiad systematig o'r gwasanaethau a oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg mewn siopau yn yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, thema gyson a godwyd gan aelodau grwpiau ffocws ac ymatebwyr arolwg stryd oedd y cyfleoedd neu'r diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn siopau yn eu cymunedau lleol.
- 6.12 Patrwm cyson o fewn y grwpiau ffocws a data'r arolwg stryd oedd y canfyddiad mai Saesneg oedd prif iaith cyfathrebu mewn siopau. Gwelwyd tystiolaeth o'r patrwm hwn ym mhob cymuned. Er y canfyddiad mai Saesneg oedd prif iaith rhyngweithiad mewn siopau nodwyd hefyd bod nifer o'r unigolion sy'n gweithio mewn siopau yn gallu siarad Cymraeg. Gellid dehongli felly bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu colli.
- 6.13 Er hynny, nododd rhai cyfranogwyr grwpiau ffocws eu bod yn gwneud ymdrech fwriadus i chwilio am wasanaethau Cymraeg o fewn siopau eu cymunedau. Er enghraifft, roeddent yn ymwybodol o ba aelod o staff mewn archfarchnad oedd yn siarad Cymraeg ac yna'n dethol yr unigolion hynny er mwyn derbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Adroddodd rhai siaradwyr

⁴⁶ Am wybodaeth gyflawn, gweler Atodiad 1.10 sy'n amlinellu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y chwe chymuned.

Cymraeg fod ganddynt strategaeth er mwyn dod o hyd i wasanaethau Cymraeg.

- 6.14 Nid oedd sgiliau ieithyddol staff bob tro'n amlwg, ac adroddodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws eu bod yn chwilio am sbardun gweledol ynglŷn â gallu ieithyddol yr unigolyn hwnnw. Enghraifft gyson a nodwyd gan aelodau'r grwpiau ffocws ac ymatebwyr arolygon stryd oedd y bathodyn iaith gwaith. Roedd rhai unigolion am weld defnydd ehangach o'r bathodynau fel ffordd o annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd cyhoeddus. Nodwyd nad oedd y bathodynau mor amlwg erbyn hyn a bod hynny'n rhwystro i'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhai cyd-destunau. Nododd y dysgwyr a holwyd hefyd eu bod angen defnydd ehangach o'r bathodynau er mwyn amlygu cyfleoedd iddynt ymarfer eu sgiliau Cymraeg.

Gwasanaethau cyhoeddus

- 6.15 Nid oedd yr astudiaeth hon yn werthusiad systematig o wasanaethau cyhoeddus cynghorau sir, na'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Er hynny, wrth drafod y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, roedd profiadau'r rhai a holwyd wrth iddynt ymwneud â'r gwasanaethau hyn yn destun trafod.
- 6.16 O ganlyniad i leoliadau daearyddol cymunedau'r astudiaeth hon, casglwyd gwybodaeth am gynghorau sir amrywiol. Roedd gan gyfranogwyr brofiadau gwahanol o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sector cyhoeddus. Yn ychwanegol i hyn, adroddodd ymatebwyr yr arolwg stryd bod eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cynghorau sir lleol yn amrywio o ardal i ardal. Er enghraifft, yn ôl yr arolwg stryd roedd 'llawer o gyfleoedd' i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyngor lleol ym Mangor (62.1 y cant) a Phorthmadog (73.9 y cant). Fodd bynnag, nododd 66.3 y cant yn Aberystwyth nad oedd cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyngor lleol.
- 6.17 Yn ogystal â gwasanaethau cynghorau sir, cyfeiriwyd hefyd at wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a oedd ar gael yn y cymunedau. Un thema glir oedd bod aelodau'r grwpiau ffocws a'r ymatebwyr arolwg stryd yn gweld diffyg cyfleoedd i dderbyn gwasanaethau iechyd drwy'r Gymraeg. Cyfeiriwyd yn gyson at ddiffyg meddygon Cymraeg eu hiaith o fewn

cymunedau'r astudiaeth hon.⁴⁷ Cefnogwyd y canfyddiad hwn gan ddata'r arolwg stryd lle roedd 37.1 y cant o ymatebwyr ar draws y chwe chymuned yn nodi nad oedd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda meddygon. Er nad yw'r patrwm yn gwbl gyson ar draws pob cymuned, gwelir yr un duedd i gyfleoedd fod yn brinnach i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg nag mewn cyd-destunau eraill.

Dylanwad addysg ar ddefnydd iaith gymunedol

- 6.18 Yn ôl data'r arolwg stryd, yr ysgol yw'r prif leoliad (66.8 y cant) lle mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y cymunedau a astudiwyd. Y canfyddiad o fewn rhai cymunedau oedd bod unigolion yn dueddol o ffurfio eu harferion ieithyddol o fewn yr ysgol, ac yn enwedig yn ystod cyfnod eu harddegau. Nodwyd bod yr arferion ieithyddol hyn yn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg y tu hwnt i faes addysg. Roedd canfyddiad ymysg y cyfranogwyr bod defnydd cymdeithasol cryf o'r Gymraeg o fewn ysgolion cynradd ond bod dirywiad yn y defnydd erbyn oedran uwchradd. Teimlai sawl aelod o grwpiau pobl ifanc eu bod wedi colli hyder yn y Gymraeg wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dylanwad a rôl capeli ac eglwysi yng Nghymru ar ddefnydd iaith gymunedol

- 6.19 Yn ôl yr arolwg stryd, roedd cyfleoedd niferus i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol o fewn maes crefydd. Gwelwyd bod 61.0 y cant o ymatebwyr yr arolwg stryd ar draws y chwe chymuned yn nodi bod llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth addoli. Yn ogystal, roedd dylanwad a rôl capeli ac eglwysi yn amlwg ymysg grwpiau ffocws pobl hŷn o fewn cymunedau'r astudiaeth hon. Tra bo'r capel i'w weld yn bwysig o ran cynnal arferion ieithyddol a rhwydweithiau cymdeithasol iaith Gymraeg i rai carfannau o'r gymdeithas, nid oedd eu dylanwad yr un mor amlwg ymhlith y grwpiau ffocws eraill. Er hynny, cyfeiriodd sawl grŵp mewn lleoliadau amrywiol at ddirywiad yn niferoedd y mynychwyr capeli ac eglwysi. Roedd canfyddiad

⁴⁷ Gweler Atodiad 1.10 am wybodaeth gyflawn.

ymysg y sampl bod hynny'n fygythiad i'r cyfleoedd cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dysgwyr

6.20 Cafwyd tystiolaeth o'r chwe chymuned bod dysgwyr yn ceisio defnyddio'r Gymraeg o fewn y gymuned. Fodd bynnag, yn ôl y dysgwyr a holwyd y duedd gyffredin ymhlith siaradwyr Cymraeg oedd defnyddio'r Saesneg gyda hwy. Roedd yr arferion hyn yn rhwystro dysgwyr rhag gallu ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg a magu hyder fel siaradwyr newydd. Roedd nifer o ddysgwyr yn gytûn bod angen annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda hwy. Lleisiodd sawl dysgwr rwystredigaeth ynghylch y diffyg cyfleoedd cymunedol anffurfiol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i weithgareddau penodol i ddysgwyr.

6.21 Cafwyd tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg bod hyder a rhuglder dysgwyr a siaradwyr llai rhugl yn effeithio ar eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol. Ymddengys bod hyn yn atal siaradwyr Cymraeg rhag cynnal sgysiau ag unigolion o fewn y gymuned. Awgryma hyn gymhlethdod y broses o negodi ieithyddol rhwng siaradwyr â galluoedd ieithyddol amrywiol.

6.22 **Ffynonellau Gwybodaeth**

Cyfeiriodd aelodau grwpiau ffocws y chwe chymuned at amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth y maent yn eu defnyddio er mwyn dod i wybod am ddigwyddiadau lle mae cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Cafwyd enghreifftiau o ddulliau traddodiadol (e.e. trwy'r papur bro, capeli ac ar lafar drwy rwydweithiau cymdeithasol). Cyfeiriodd aelodau pob grŵp ffocws (ac eithrio'r sampl o bobl ifanc) ar draws pob cymuned yn yr ymchwil at bwysigrwydd papurau bro a phapurau newyddion lleol er mwyn canfod gwybodaeth am ddigwyddiadau lleol. Roedd yr ysgol leol yn cael ei gweld fel ffynhonnell wybodaeth i bobl ifanc a rhieni. Cafwyd cyfeiriadau llai cyson at y cyfryngau cenedlaethol.

6.23 Yn ogystal, gwelwyd dylanwad llwyfannau digidol (e.e. cyfryngau cymdeithasol a gwefannau cymunedau lleol). Patrwm cyffredin ar draws

grwpiau ffocws y chwe chymuned oedd y defnydd cynyddol o *Facebook* a *Twitter* er mwyn dod i wybod am weithgareddau Cymraeg cymunedol. Roedd pob grŵp oedran yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg ar y llwyfannau arbennig hyn, er nad oedd y bobl hŷn yn eu defnyddio.

- 6.24 Tuedd a welwyd gan sawl aelod o grwpiau ffocws y cymunedau oedd eu bod yn colli gweithgareddau yn aml gan nad oeddent yn ymwybodol ohonynt. Nododd sawl cyfranogwr eu bod yn dod i wybod am weithgareddau drwy hap a damwain yn unig (e.e. drwy siarad â ffrind neu gydweithiwr). Nododd aelodau eraill o'r grwpiau ffocws eu bod yn dod i glywed am ddigwyddiadau wedi iddynt gael eu cynnal. Adroddodd cyfranogwyr grwpiau ffocws bod angen hysbysebu gweithgareddau cymunedol gan ddefnyddio sawl cyfrwng, er mwyn denu'r gynulleidfa ehangaf posibl. Wrth drafod y cyfryngau cymdeithasol yn benodol, cyfeiriodd sawl un at bwysigrwydd diweddarau gwefannau neu dudalennau lleol yn gyson, er mwyn i bobl wneud y defnydd gorau posibl ohonynt.

6.25 **Barn ar faterion ehangach**

Dengys tystiolaeth o'r astudiaeth hon fod maes y gymuned yn cwmpasu nifer o feysydd ehangach gan gynnwys yr economi, maes tai a phatrymau symudedd y boblogaeth. Cododd y pwyntiau trafod isod yn naturiol o'r grwpiau ffocws wrth i'r cyfranogwyr fyfyrir ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg.

- 6.26 Yn ôl rhai cyfranogwyr grwpiau ffocws ac ymatebwyr arolwg stryd, roedd angen cyfleoedd swyddi ychwanegol o fewn eu cymunedau. Cafwyd cyfeiriadau at yr angen i gynyddu statws a bri y Gymraeg fel sgîl o fewn y gweithle er mwyn sicrhau dyfodol i'r iaith.
- 6.27 Roedd canfyddiad cyffredinol ymlith y grwpiau ffocws fod pobl ifanc eu cymunedau yn gadael eu hardaloedd i chwilio am swyddi mewn mannau eraill yng Nghymru neu y tu hwnt i'r ffin yn Lloegr. Yn gysylltiedig â hyn, lleisiwyd gofid ynghylch tai fforddiadwy ac anallu pobl ifanc i brynu tai a pharhau i fyw o fewn eu cymunedau. Er mai all-lifiad oedd y brif thema,

cyfeiriwyd yn ogystal at ddylanwad mewnlifiad ar naws ieithyddol y cymunedau o dan sylw.

- 6.28 Canfyddiad mewn nifer o'r cymunedau oedd y gwahaniaeth ieithyddol rhwng trefi a phentrefi cyfagos. Roedd canfyddiad o fewn y chwe chymuned bod trefi wedi profi shifft ieithyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg tra bo'r pentrefi yn parhau i fod yn fwy Cymraeg eu naws. Yn ôl cyfranogwyr yr ymchwil, roedd angen i fwy o weithgareddau cymunedol Cymraeg a dwyieithog fod ar gael yn y canolfannau trefol.

7. Casgliadau ac Argymhellion

7.1 Diben yr astudiaeth hon oedd ceisio gwella dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o sut y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn cymunedau, drwy ymateb i bedwar prif gwestiwn ymchwil:

1. Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i fodoli fel unedau Cymraeg cynaliadwy?
2. Beth yw'r nodweddion sy'n diffinio gwahanol gymunedau o ran eu capasiti i integreiddio pobl ddi-Gymraeg a dysgwyr Cymraeg?
3. Beth yw'r ffactorau sy'n ysgogi newid ieithyddol o fewn cymunedau gwahanol?
4. A yw dull Llywodraeth Cymru o gynllunio ieithyddol, fel y'i hamlinellir yn Strategaeth y Gymraeg, yn sicrhau'r ysgogiad sydd ei angen a'r hyfywedd ieithyddol cynaliadwy sydd ei angen yng nghymunedau Cymru?

7.2 Mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, dewiswyd chwe chymuned ar gyfer yr astudiaeth. Dewiswyd pedair cymuned ar sail yr egwyddor eu bod wedi derbyn cyfres o gynlluniau a gweithgareddau penodol wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg, sef:

- Aberteifi
- Bangor
- Llanrwst
- Rhydaman

Yn ogystal, dewiswyd dwy gymuned nad oedd wedi derbyn yr un lefel o sylw neu gynllunio bwriadus gan Lywodraeth Cymru, sef:

- Aberystwyth
- Porthmadog

7.3 Mae'n rhaid cydnabod ehangder y cwestiynau ymchwil, sydd o bosibl yn ymestyn y tu hwnt i un astudiaeth a gynhaliwyd dros gyfnod o bedwar mis. O ganlyniad, nid oes modd cynnig atebion cynhwysfawr ar bob agwedd o'r cwestiynau hyn. Yn hytrach, ymgais a geir yn yr astudiaeth hon i edrych yn benodol ar chwe chymuned, cynnig mewnwelediad i sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol, a dod i rai casgliadau ynghylch dylanwad y cynlluniau a'r gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol.

7.4 Un her a gafwyd yn yr astudiaeth oedd ceisio diffinio ffiniau'r cymunedau o dan sylw. Mae'r cysyniad o gymuned yn un annelwig ac aml-haenog, ac yn destun trafodaeth yn ei hun. Ystyriwyd, felly, wahanol ddiffiniadau o gymuned wrth gynllunio'r astudiaeth, gan gynnwys ffiniau daearyddol,⁴⁸ dehongliadau cyfranogwyr, a diffiniadau a geir yn y llenyddiaeth academiaidd.⁴⁹

7.5 Prif Gasgliadau'r Astudiaeth

- Yn ôl yr ymatebwyr, mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y chwe chymuned, er bod rhai bylchau yn bodoli.
- Gwelwyd ymwybyddiaeth yn y chwe chymuned o gynlluniau a gweithgareddau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned, er nad oedd y sawl a holwyd o reidrwydd yn enwi Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol wrth drafod y gweithgareddau hyn.
- Nodwyd mai mudiadau rhieni â phlant ifanc a phobl ifanc oedd â'r ddarpariaeth fwyaf cynhwysfawr o weithgareddau iaith Gymraeg. Cafwyd tystiolaeth bod bylchau yn ymddangos yn y ddarpariaeth i bobl ifanc hŷn.
- Nid oedd pawb a holwyd o fewn y chwe chymuned yn mynychu gweithgareddau cymunedol, gan fod ganddynt flaenoriaethau eraill sydd yn mynd â'u hamser.

⁴⁸ Gweler mapiau cymunedau y chwe chymuned ym Mhennod 5: *Canfyddiadau yn ôl cymuned*.

⁴⁹ Gweler Pennod 2: *Cefndir Cysyniadol* am drafodaeth o'r anawsterau a geir wrth ddiffinio'r gymuned.

- I lawer o ymatebwyr mae defnyddio'r Gymraeg mewn rhyngweithiad cymunedol yn cynrychioli gweithgarwch ehangach na mynychu 'gweithgareddau cymunedol', e.e. unigolion yn defnyddio'r Gymraeg wrth fynd i siopa ac wrth gyrchu gwasanaethau.
- Amlygwyd yr arfer ieithyddol o ddefnyddio'r Saesneg mewn cyd-destunau ffurfiol, e.e. siopau a gwasanaethau cyhoeddus.
- Cafwyd rhai enghreifftiau o unigolion yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol, e.e. chwilio am aelod o staff mewn siopau sydd yn siarad Cymraeg.
- Er nad yw'r patrwm yn gwbl gyson ar draws pob cymuned, gwelir tuedd i gyfleoedd fod yn brinnach i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg nag mewn cyd-destunau eraill.
- Ni chafwyd darlun cyson o ran y cyfleoedd mae ymatebwyr yn eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chynghorau sir, gydag ymatebwyr rhai cymunedau yn adrodd cyfleoedd mwy niferus nag eraill.
- Cynigiodd yr ymatebwyr enghreifftiau o sut mae'r system addysg, yn eu tyb hwy, yn dylanwadu ar arferion ieithyddol yn y cymunedau o dan sylw. Cyfeiriwyd yn benodol at sut roedd arferion ieithyddol a sefydlwyd o fewn ysgolion yn dylanwadu ar batrymau defnydd iaith dyddiol yn y gymuned.
- I garfannau penodol o'r astudiaeth, mae capeli ac eglwysi'n parhau i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol iaith Gymraeg. Fodd bynnag, roedd gofid ymhlith y sampl am ddirywiad y capeli ac eglwysi ac effaith hynny ar weithgarwch iaith Gymraeg.
- Nododd y dysgwyr fod yr arfer ieithyddol o ddefnyddio'r Saesneg gyda dysgwyr o fewn y gymuned yn rhwystro eu cyfleoedd i ymarfer eu sgiliau a magu hyder yn y Gymraeg.
- Mynegwyd y farn bod y canolfannau trefol wedi profi cyfnod o Seisnigo tra bo'r pentrefi cyfagos yn parhau'n hyfyw o ran y Gymraeg.
- Cyfeiriodd yr ymatebwyr at amrywiaeth o ffynonellau maent yn eu defnyddio i ganfod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau iaith Gymraeg yn eu cymuned. Roedd hyn yn cynnwys dulliau traddodiadol (e.e. papurau bro a rhwydweithiau cymdeithasol), yn ogystal â llwyfannau

digidol (e.e. gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol). Cafwyd rhai enghreifftiau o ymatebwyr yn colli cyfleoedd i fynychu digwyddiadau oherwydd nad oeddynt yn ymwybodol ohonynt.

- Amlygwyd safbwyntiau ar nifer o faterion ehangach sydd, ym marn yr ymatebwyr, yn dylanwadu ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg, gan gynnwys materion economaidd, tai a phatrymau symudedd.

7.6 Modelau Cysyniadol

Ceir nifer o fodelau cysyniadol posibl y gellir eu hystyried wrth astudio defnydd iaith ar lefel gymunedol. Fel rhan o'r astudiaeth hon, defnyddiwyd fframwaith damcaniaethol Darquennes (2007), sy'n nodi gallu ieithyddol, cyfleoedd i ddefnyddio iaith, a chymhelliant dros ddefnyddio iaith fel ffactorau i'w hystyried wrth drafod ymddygiad ieithyddol ar lefel gymunedol.

Defnyddiwyd elfennau o'r fframwaith hwn i bwysu a mesur dylanwad nodweddion cymdeithasol a strwythurol ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg.

- 7.7 Cafwyd tystiolaeth sy'n amlygu'r berthynas gymhleth rhwng gallu ieithyddol, cyfleoedd i ddefnyddio iaith a chymhelliant ieithyddol, wrth i aelodau'r cyhoedd negodi defnydd iaith o fewn eu cymunedau. Dengys yr ymchwil bod siaradwyr yn gweld hyder a gallu ieithyddol fel ffactorau sy'n dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Yn ogystal, cafwyd tystiolaeth sy'n awgrymu bod y cyfleoedd a'r diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhyngweithiad dyddiol yn effeithio ar ddefnydd ieithyddol siaradwyr. Dengys y dystiolaeth a gasglwyd bod bylchau yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. gweithgareddau Gymraeg i bobl ifanc hŷn), a bod cyfleoedd ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu colli mewn rhai meysydd allweddol (e.e. siopau).

- 7.8 Gwelwyd tystiolaeth o gymhelliant ieithyddol ymhlith y sampl a holwyd, wrth i siaradwyr rhugl a dysgwyr, fel ei gilydd, chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu rhyngweithiadau dyddiol. Cefnogir y dystiolaeth hon gan ganfyddiadau astudiaeth Beaufort (2013), sy'n nodi bod unigolion yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae tystiolaeth o'r ymchwil hwn yn

ategu'r canfyddiad bod cyswllt rhwng y tair nodwedd a drafodwyd uchod, a bod angen i'r tair fod ar waith er mwyn sicrhau hyfywedd ieithyddol.

7.9 Yn ogystal â hynny, gwelwyd bod elfennau o deipoleg ieithyddol cymunedau Morris (2010) yn ddefnyddiol er mwyn pwysu a mesur hyfywedd y Gymraeg o fewn chwe chymuned yr astudiaeth.⁵⁰ Cynigia Morris ddull categoraiddio cymunedau yn ôl y tri grŵp canlynol:

1. Cymunedau sydd yn cymathu
2. Cymunedau gyda grwpiau iaith benodol
3. Cymunedau sydd yn cael eu cymathu

7.10 Er nad aethpwyd ati i osod cymunedau'r astudiaeth o fewn teipoleg bendant, gwelwyd rhai o nodweddion y categorïau uchod. Dangosodd yr ymchwil arwyddion o gymunedau sy'n cymathu siaradwyr i'r Gymraeg, grwpiau iaith benodol lle ceir rhaniad ieithyddol mewn cymunedau, a chymunedau sydd wedi profi shifft ieithyddol o'r Gymraeg i'r Saesneg. Cafwyd tystiolaeth o fodolaeth rhwydweithiau cymdeithasol iaith Gymraeg, ond cafwyd tystiolaeth hefyd fod y rhwydweithiau iaith Gymraeg mewn rhai cymunedau yn llai amlwg o ganlyniad i'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg mewn nifer o gyd-destunau cyhoeddus. Yn y cymunedau hynny, mae'r rhwydweithiau iaith Gymraeg yn aml yn llwyddo i gynnal defnydd y Gymraeg o ddydd i ddydd er gwaetha'r bylchau a geir yn y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Cefnoga'r patrwm hwn ymchwil Morris (2010).

7.11 Yn ogystal â hynny, gwelwyd tystiolaeth o ddwy lefel o rhyngweithio cymunedol o fewn yr astudiaeth hon, fel y cyfeirir atynt yn ymchwil Tönnies (1887) a Putnam (2000), sef rhwydweithiau dwys a rhwydweithiau ehangach y mae unigolion yn perthyn iddynt. Y lefel gyntaf a welwyd oedd rhyngweithiad iaith Gymraeg o fewn rhwydweithiau agos (e.e. y teulu a ffrindiau). Yr ail lefel oedd y rhyngweithiad ehangach a welwyd o fewn cymuned (e.e. mewn siopau ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus). Gwelwyd tuedd yn y chwe cymuned i'r rhyngweithiad ehangach ddigwydd

⁵⁰ Gweler Pennod 2: *Cefndir Cysyniadol* am drosolwg o deipoleg Morris (2010).

drwy gyfrwng y Saesneg – neu o leiaf i gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fod yn fwy anghyson yn y cyd-destunau hyn – gyda hyn yn debygol o effeithio ar naws ieithyddol y cymunedau a lleihau'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Gellid dehongli hyn fel arwydd o shifft ieithyddol tuag at y Saesneg, ac fel nodwedd o gymunedau sydd wedi'u cymathu (Morris, 2010).

7.12 ***laith fyw: iaith byw* – Llywodraeth Cymru a Chynllunio Ieithyddol**

Mae 'cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned' yn un o nodau strategol *laith fyw: iaith byw* (Llywodraeth Cymru 2012:16), a'r weledigaeth yw gweld rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau Cymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru mae'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn y gymuned yn cynnwys y canlynol: '...tai fforddiadwy sydd ar gael, diffyg cyfleoedd gwaith, nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a mewnfudo ac allfudo' (Llywodraeth Cymru 2012:34).

7.13 Ymddengys felly bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r heriau a wyneba'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Gwelwyd enghreifftiau o'r heriau uchod o fewn yr astudiaeth hon sy'n atgyfnerthu natur gymhleth cynllunio ieithyddol yng nghymunedau Cymru. Er mwyn ymateb i'r heriau uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned drwy amrediad o weithgareddau gwahanol.⁵¹

7.14 Nid bwriad yr astudiaeth hon oedd cynnal dadansoddiad a gwerthusiad systematig o'r gweithgareddau hynny. Yn hytrach, ffocws yr astudiaeth oedd pwysu a mesur hyfywedd y Gymraeg o fewn y chwe chymuned gan ystyried a yw strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn cyflawni anghenion ieithyddol y cymunedau hynny. Cafwyd tystiolaeth yn y chwe chymuned o ymwybyddiaeth a phrofiad o gynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys Mentrau Iaith, Yr Urdd, Twf a'r Mudiad Meithrin. Roedd y cyfleoedd hyn yn arbennig o

⁵¹ Gweler manylion pellach ynghylch y cynlluniau a'r gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru o fewn y chwe chymuned yn Atodiadau 1.17 i 1.22.

werthfawr mewn cymunedau lle roedd llai o weithgareddau a chyflleoedd iaith Gymraeg ar gael.

- 7.15 Fodd bynnag, un bwlch penodol a amlygwyd ym mhob cymuned, i ryw raddau, oedd darpariaeth gweithgareddau Gymraeg i bobl ifanc hŷn. Cyfeiriwyd at fylchau penodol ym maes chwaraeon iaith Gymraeg. Mae'n ddefnyddiol gosod y canfyddiad hwn yng nghyd-destun ystadegau'r Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015:44). Ymhlith siaradwyr rhugl, nododd 29 y cant o'r rhai yn y grŵp oedran 16-29 eu bod wedi mynychu gweithgaredd chwaraeon yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, o'i gymharu â 51 y cant yn Saesneg.⁵²
- 7.16 Gellid awgrymu bod hyn yn peryglu'r dilyniant a'r cynnydd ieithyddol o'r sector addysg, ac yn atgyfnerthu canfyddiad rhai pobl ifanc mai iaith addysg yn unig yw'r Gymraeg ac nid iaith ar gyfer cymdeithasu y tu hwnt i ffiniau'r ysgol.
- 7.17 Fel rhan o fethodoleg yr astudiaeth hon, dewiswyd pedair cymuned sydd wedi derbyn sylw dwys drwy gynlluniau a gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol, a dwy gymuned lle gwelwyd ymyriadau llai dwys.⁵³ Fodd bynnag, nid oedd y data a gasglwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn awgrymu bod gwahaniaethau clir i'w canfod rhwng y ddau gategori o gymuned. Yn hytrach, yr hyn a awgrymir yw bod y gwahaniaethau mwyaf yn bodoli o fewn y grŵp o bedair cymuned sydd wedi derbyn y rhaglen fwyaf dwys o raglenni a chynlluniau.
- 7.18 Mae'r astudiaeth hon yn dangos fod gwahaniaeth yn natur ieithyddol y cymunedau o dan sylw, sy'n awgrymu bod angen gwahanol ddwystr o gynllunio i gefnogi'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Gwelwyd bod rhai cymunedau yn cynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod angen cefnogaeth ychwanegol ar gymunedau eraill. Ymddengys felly bod yr egwyddor o flaenoriaethu sylw a dwyster rhaglenni

⁵² Gweler adroddiad Arolwg Defnydd Iaith 2013-14 (Llywodraeth Cymru 2015:45-46) am fanylion pellach am weithgarwch chwaraeon ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed.

⁵³ Gweler manylion pellach ynghylch y cynlluniau a'r gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru o fewn y chwe chymuned yn Atodiadau 1.17 i 1.22.

cynllunio ieithyddol yn ôl anghenion lleol yn un dilyn. Fodd bynnag, ymddengys hefyd bod angen adolygu lefel y gefnogaeth a ddarperir ar gyfer y cymunedau mwy bregus, er mwyn sicrhau fod y gynhaliaeth yn ymateb i'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

7.19 **Maes Strategol 3: Y Gymuned**

Yn iaith fyw: iaith byw amlinella Llywodraeth Cymru y dangosydd canlynol ar gyfer asesu hyfywedd y Gymraeg ar lefel gymunedol:

'Dangosydd: Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru' (Llywodraeth Cymru 2012:33).

7.20 Yn sgil yr astudiaeth hon, mae'n briodol cwestiynu a yw'r dangosydd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig darlun cyflawn o hyfywedd yr iaith Gymraeg ar lefel gymunedol. Dim ond un agwedd gyfyngedig o weithgarwch ieithyddol sy'n cael ei fesur gan ddefnyddio'r dangosydd hwn. Un canfyddiad a gafwyd o'r astudiaeth hon yw nad oedd carfan helaeth o'r sawl a holwyd yn aelodau o glybiau neu yn mynychu gweithgareddau ffurfiol cymunedol yn gyson.

7.21 Gellid dadlau mai lleoliadau eraill (e.e. ar y stryd, mewn siopau lleol neu wrth dderbyn gwasanaethau cyhoeddus), yw'r prif leoliadau ar gyfer cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i lawer o bobl. Wrth ystyried hynny, mae angen ehangu'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn mesur hyfywedd y Gymraeg ar lefel gymunedol er mwyn cydnabod y posibilrwydd o ddefnydd ehangach o'r Gymraeg mewn rhyngweithiad cymunedol.

7.22 Yn ogystal â hynny, gellid cwestiynu'r hyn a olygir gan 'digwyddiadau Cymraeg'. Dengys yr ymchwili hwn fywiogrwydd gweithgareddau cymunedol iaith Gymraeg, yn ogystal â rhai dwyieithog, o fewn y cymunedau hyn. Casglwyd tystiolaeth yn y chwe chymuned o weithgareddau lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng naturiol, ac nid oedd hi bob tro yn berthnasol cyfrif a

diffinio gweithgareddau yn ôl iaith. Yn y cymunedau hynny ble mae'r Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol, mae trefnu a chyftri 'digwyddiadau Cymraeg' yn llai perthnasol gan mai'r Gymraeg yw iaith bywyd bob dydd. Mewn cymunedau o'r fath, gellid dehongli bod bodolaeth 'digwyddiadau Cymraeg' yn arwydd bod y Gymraeg mewn sefyllfa fregus.

- 7.23 I nifer o bobl a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, nid oedd 'gwneud pethau yn gymdeithasol' yn rhan o'u bywydau bob dydd. Cafwyd tystiolaeth yn yr astudiaeth bod rhai pobl yn ystyried eu hunain yn rhy brysur neu yn meddu ar flaenoriaethau eraill. I'r unigolion hyn mae rhyngweithiad ieithyddol a chymdeithasol yn digwydd yn anffurfiol ar y stryd, mewn siopau ac wrth gyrchu gwasanaethau, ac nid o anghenraid drwy weithgareddau clybiau a chymdeithasau. O ganlyniad, mae'r dangosydd sydd yn seiliedig ar niferoedd unigolion sy'n mynychu 'digwyddiadau Cymraeg' yn ymylu'r rhyngweithiadau ieithyddol a chymdeithasol hyn.
- 7.24 Mae'r ymchwili hwn yn adlewyrchu ehangder a natur aml-haenog y rhyngweithiadau ieithyddol o fewn y cymunedau a astudiwyd. Gellid rhannu'r rhyngweithiad cymdeithasol yn ddwy garfan fras, sef gweithgareddau a drefnir yn ffurfiol (e.e. clybiau a chymdeithasau), a gweithgareddau dydd i dydd (e.e. sgwrsio ar y stryd, mewn siopau ac wrth dderbyn gwasanaethau). Ceir tystiolaeth yn yr astudiaeth hon o'r angen i gynyddu'r pwyslais ar gefnogi'r Gymraeg o fewn rhyngweithiadau dydd i ddydd, sy'n digwydd y tu hwnt i glybiau a chymdeithasau ffurfiol, er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol.
- 7.25 Er ei bod hi'n anodd cynllunio ar gyfer y rhyngweithiad 'anffurfiol' cymunedol hwn, gwelwyd cynlluniau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn y gorffennol a chan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r maes hwn (e.e. cafwyd sawl cyfeiriad at y bathodynau iaith gwaith ac ymgyrch 'dechreuwch pob sgwrs yn Gymraeg' gan gyfranogwyr yr astudiaeth hon). Roedd y cynlluniau hyn yn rhan o faes gwaith y Gymraeg yn y gweithle ac yn ffocysu'n aml ar ymyriadau o safbwynt y darparwyr gwasanaeth (e.e. gweithwyr rheng flaen). Fodd bynnag, dengys tystiolaeth gyson o'r astudiaeth hon ddylanwad iaith gwasanaeth ar naws

ieithyddol y cymunedau o dan sylw. O ganlyniad, gellid cynnig felly fod angen ymgorffori cynlluniau tebyg mewn modd blaenllaw ac amlwg o fewn strategaeth y Gymraeg yn y gymuned yn ogystal â'r gweithle. Amlyga hyn yr angen i gryfhau'r gydberthynas rhwng sfferau defnydd iaith y gweithle a'r gymuned i sicrhau ymateb holistig i anghenion ieithyddol cymunedau.

- 7.26 O fewn y chwe chymuned a astudiwyd, cafwyd tystiolaeth sy'n awgrymu bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol yn cael eu colli o ganlyniad i'r arfer cymdeithasol o ddefnyddio'r Saesneg mewn rhyngweithiadau cyhoeddus. O ganlyniad, gellid dehongli bod angen ymgymryd â rhaglen o gynlluniau er mwyn annog newid ymddygiad a normaleiddio'r defnydd o Gymraeg; yn enwedig mewn cymunedau lle mae canran sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn trigo.
- 7.27 Mae angen i'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned fod â lle canolog o fewn pob un o'r meysydd strategol a welir yn *iaith fyw: iaith byw* (Llywodraeth Cymru 2012:16). Er mwyn cynnig y cyfleoedd mwyaf eang i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol, yn ogystal â buddsoddi mewn 'digwyddiadau Cymraeg', (Llywodraeth Cymru 2012:33), gellid pwysleisio'r angen i ddatblygu dulliau o hyrwyddo'r Gymraeg o fewn rhyngweithiadau dydd i ddydd ehangach. Mae'r cymunedau a fu'n rhan o'r astudiaeth hon yn cynnwys canrannau cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg. O ganlyniad, gellid tybio bod ynddynt i gyd fâs critigol o siaradwyr Cymraeg. Er hynny, cafwyd tystiolaeth hefyd o anghenion gwahanol o fewn y cymunedau a astudiwyd, sydd yn gofyn i gynllunwyr ieithyddol ymateb i anghenion penodol y cymunedau hynny.
- 7.28 Ymhellach, rhaid cadw mewn cof mai astudiaeth o chwe chymuned benodol oedd hon, a'i bod yn debygol y byddai blaenoriaethau cymunedau lle mae màs critigol is o siaradwyr Cymraeg yn gofyn am strategaethau gwahanol i gyfarfod â'u hanghenion unigryw. Rhaid ystyried pob cymuned yn ôl ei chyfansoddiad ieithyddol ei hun wrth gynllunio strategaethau holistaidd er mwyn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn gymunedol ar gyfer y dyfodol.

Argymhellion

- Llywodraeth Cymru i sicrhau fod ei strategaethau a'i pholisiau cynllunio ieithyddol ym maes y teulu, addysg a'r gweithle yn rhoi lle canolog hefyd i'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Llywodraeth Cymru i sicrhau fod camau pendant mewn lle i gryfhau'r pontio rhwng y byd addysg a'r gymuned ehangach drwy amrediad o weithgareddau hamdden atyniadol i bobl ifanc hŷn.
- Llywodraeth Cymru i adnewyddu'r pwyslais ar ddefnydd y Gymraeg mewn rhyngweithiadau dydd-i-ddydd (e.e. defnydd iaith mewn siopau ac wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus), yn ogystal â defnydd y Gymraeg mewn digwyddiadau sydd wedi'u trefnu yn y gymuned.
- Llywodraeth Cymru i roi camau ar waith i sicrhau darlun manylach a mwy cynhwysfawr o batrymau defnydd iaith mewn perthynas â thueddiadau trefol/gwledig.
- Llywodraeth Cymru i sicrhau dulliau pwrpasol ac effeithiol o rannu gwybodaeth gyfredol am weithgareddau cymunedol Cymraeg a dwyieithog, er mwyn cyrraedd y cynulleidfaoedd ehangaf posibl.
- Llywodraeth Cymru i roi camau pellach ar waith i hwyluso cyfranogiad dysgwyr y Gymraeg y tu hwnt i'r cyd-destunau sydd wedi eu neilltuo yn benodol ar eu cyfer.
- Llywodraeth Cymru i ddatblygu dangosydd mwy ystyrlon na'r un sydd yn bodoli ar hyn o bryd i fesur effeithiolrwydd ei strategaeth i hyrwyddo defnydd y Gymraeg mewn cymunedau.

Llyfryddiaeth

Acocella, I. (2011) The focus groups in social research: advantages and disadvantages. *Quality & Quantity*. 46 (4). tud. 125-1136.

Altuna, O. a Urla, J. (2013) The Basque Street Survey: Two Decades of Assessing Language Use in Public Spaces. Yn: McEwan-Fujita, E. (gol.) *Small Languages and Small Language Communities. International Journal of the Sociology of Language*. 224. tud. 209-227.

Anderson, B. (1991) *Imagined Communities*. London: Verso.

Bauman, Z. (2001) *Seeking Safety in an Insecure World*. Cambridge: Polity Press.

Beaufort Research (2013) *Exploring Welsh speakers' language use in their daily lives*. Caerdydd: Beaufort Research. (Comisiynwyd ar y cyd gan S4C, BBC Cymru Wales a Llywodraeth Cymru).

Blackshaw, T. (2010) *Key Concepts in Community Studies*. London: Sage.

Bourdieu, P. (1986) The forms of capital. Yn: Richardson, J. (gol.) *Handbook of Theory and Research for the Sociology of Education*. New York: Greenwood.

Bourdieu, P. (1987) What makes a social class? On the theoretical and practical existence of groups. *Berkeley Journal of Sociology*. 32. tud.1-18.

Bourhis, R.Y, Giles, H. a Tajfel, H. (1973) Language as a determinant of Welsh Identity, *European Journal of Social Psychology*. 3. tud. 447-460.

Bourhis, R.Y., Montaruli, E. a Amiot, C.E. (2007) Language planning and French-English bilingual communication: Montreal field studies from 1977 to 1997. *International Journal of the Sociology of Language*. 185. tud. 87–224.

Bryman, A. (2008) *Social Research Methods*. Oxford: Oxford University Press.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008) *Arolygon Defnydd Iaith 2004-2006*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2012) *Gweithredu'n Lleol: Fframwaith ar gyfer hwyluso cynllunio iaith micro ymysg cymdogaethau Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru (ailargraffwyd gan Lywodraeth Cymru 2014).

Cohen, A. (1985) *The Symbolic Construction of Community*. London: Tavistock.

Cohen, A. (1982) (gol.) *Belonging: identity and social organisation in British rural cultures*. Manchester: University of Manchester Press.

Comisiynydd y Gymraeg: Cyfrifiad Canlyniadau, Newidiadau ers 2001:
<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/Cymraeg/Cymorth/dataacystadegau/Pages/Cyfrifiad2011canlyniadauanewidiadauer2001.aspx> (cyrchwyd 3.11.14).

Crow, G. ac Allan, G. (1994) *Community Life: an introduction to local social relations*. Hemel Hempstead: Harvester Wheatsheaf.

Cunliffe, D., Morris, D., a Prys, C. (2013) Investigating the differential use of Welsh in young speakers' social networks: A comparison of communication in face-to-face settings, in electronic texts and on social networking sites. Yn:
Jones, E.H.G. ac Uribe-Jongbloed, E. (gol.) *Social Media and Minority Languages: Convergence and the Creative Industries*. Bristol: Multilingual Matters. tud. 75-86.

David, M. a Sutton, C. (2004) *Social Research: The Basics*. London: Sage Publications.

Darquennes, J. (2007) Paths to Language Revitalization, *Contact Linguistics and Language Minorities. Plurilingua*, Cyfrol XXX, tud. 61-76.

Denscombe, M. (1998) *The Good Research Guide: For Small-Scale Social Research Projects*. Buckingham: Open University Press.

Evas, J., Mac Giolla Christ, D., Williams, C.H. a Campbell, C. (2014) *Adolygiad o Waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Fishman, J. A. (1991) *Reversing Language Shift*. Clevedon, Avon: Multilingual Matters.

Hodges, R.S. (2009) Welsh Language Use Among Young People in the Rhymney Valley. *Contemporary Wales*, 22. tud.16-35.

Hodges, R.S. (2014) Caught in the middle: Parents' perceptions of new Welsh speakers' language use: The case of Cwm Rhymni, South Wales. *Zeszyty Łużyckie*nr 48/2014 / Sorbian Revue Rhif 48/2014.

Kelley, K., Clark, B., Brown, V., a Sitzia, J. (2003) Good practice in the conduct and reporting of survey research. *International Journal for Quality in Health Care*, Mai 2003. tud. 261-266.

Kitzinger, J. (1995) Qualitative Research: Introducing focus groups. *British Medical Journal*. 311. tud. 299-302.

Labrie, N., Nelde, P.H. a Weber, P.J. (1994) Projet d'étude sur les langues moines répandues dans l'UE. *Europe Ethnica*. 2. tud. 67-70.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyrdeithog*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru (2007) *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013a) *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013b) *Cynyddu nifer y cymunedau lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith: Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Iaith fyw: iaith byw- Bwrw mlaen: Datganiad Polisi*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (2015) *Arolwg Defnydd Iaith 2013-2014*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Milroy, J. (1992) *Linguistic Variation and Change*. Oxford: Blackwell.

Milroy, L. a Milroy, J. (1985) Linguistic change, social network and speaker innovation. *Journal of Linguistics*. 21. tud. 339–384.

Morgan, D.L. (1997) *Focus Groups as Qualitative Research: Planning and Research Design for Focus Groups*. London: Sage.

Morris, D. (2007) Young People's Social Networks and Language Use: The Case of Wales. *Sociolinguistic Studies*. 1 (3) tud. 435-460.

Morris, D. (2010) Young People and their Use of the Welsh Language. Yn Morris, D. (gol.) *Welsh in the Twenty First Century*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru. tud. 80-98.

Prior, L., Wood, F., Lewis, G. a Pill, R. (2003) Stigma revisited, disclosure of emotional problems in primary care in Wales. *Social Science and Medicine*. 56. tud. 2191- 2200.

Prys, C., Hodges, R.S., Mann, R. a Collis, B. (2014) *Gwirfoddoli a'r iaith Gymraeg*. Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg.

Putnam, R.D. (2000) *Bowling Alone: The Collapse and Revival of American Community*. New York: Simon and Schuster.

Tönnies, F. (1887) *Gemeinschaft und Gesellschaft*. Leipzig: Buske.

de Tocqueville, A. (1994) *Democracy in America*. London: Fontana Press.

UNESCO (2009) UNESCO *Atlas of the World's Languages in Danger*:
<http://www.unesco.org/culture/ich/index.php?pg=00139> (cyrchwyd 3.11.14).

Walliman, N. (2006) *Social Research Methods*. London: Sage.

Wenger, G.C. (1995) A comparison of urban and rural support networks. *Ageing and Society*. 15. tud. 59-81.

Data Protection Act 1998: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents>
(cyrchwyd 23.04.15).

Atodiadau

Atodiad 1.1: Llythyr gwahoddiad i fod yn rhan o'r astudiaeth



Annwyl,
Parthed: **Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned.**

Rydym yn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i gymryd rhan mewn astudiaeth sydd yn edrych ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Byddwn yn edrych ar y cyfleoedd a geir o fewn y gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg mewn chwe chymuned ledled Cymru. Yn ogystal, byddwn yn gwerthuso dylanwad ymyriadau Llywodraeth Cymru ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg. Cydlynir y prosiect gan Dr Rhian Siân Hodges a Dr Cynog Prys, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Grŵp Cynllunio Iaith Prifysgol Bangor, ar ran Llywodraeth Cymru. Cyllidir yr ymchwil gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Werthusiad Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg: *Iaith Fyw: Iaith Byw 2012-2017*. Amgaeir taflen wybodaeth ynghylch y prosiect gyda'r llythyr hwn.

Rydym yn anfon y llythyr a'r daflen wybodaeth hon atoch ar ran y grŵp prosiect ymchwil er mwyn eich gwahodd i gymryd rhan yn y gwaith hwn. Bydd hyn yn golygu cymryd rhan mewn grŵp ffocws gyda 6-8 unigolyn arall am oddeutu un awr i drafod eich profiadau, teimladau a safbwyntiau ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn eich cymuned chi.

Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Ni fydd enwau unigolion na'r clwb ei hun yn cael eu cyhoeddi mewn unrhyw adroddiadau, cyhoeddiadau neu ddeunydd arall yn deillio o'r gwaith hwn. Byddwn yn glynu at egwyddorion Pwyllgor Moeseg Prifysgol Bangor ar hyd y prosiect ymchwil.

Mae eich cyfraniad yn yr ymchwil yn gwbl wirfoddol, ac mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl ar unrhyw bwynt heb gynnig rheswm. Os penderfynwch yr hoffech gymryd rhan, a fyddech cystal â llenwi'r ffurflen cydsynio a'i dychwelyd i gydlynnydd y grŵp, os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr am roi eich amser i ddarllen y llythyr hwn. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Dr Rhian Siân Hodges (r.s.hodges@bangor.ac.uk, 01248 383034) a

Dr Cynog Prys (c.prys@bangor.ac.uk, 01248 383834)

Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor.



Atodiad 1.2 Taflen Wybodaeth Grwpiau Ffocws

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

TAFLEN WYBODAETH I GRWPIAU FFOCWS

Rhagarweiniad:

Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn prosiect sydd yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Cyn i chi benderfynu cymryd rhan, mae'n bwysig eich bod yn deall pam y cynhelir y prosiect a'r hyn bydd yn ei olygu. Cymerwch eich amser i ddarllen y wybodaeth isod.

Beth yw pwrpas yr astudiaeth?

Bwriad yr ymchwil yw:

- Astudio'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau yng Nghymru
- Asesu dylanwad cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi defnydd cymunedol o'r Gymraeg
- Dadansoddi ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith gan aelodau'r cyhoedd
- Canfod barn y cyhoedd ynglŷn â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol.
- Cynhyrchu argymhellion er mwyn dylanwadu ar bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg

A oes rhaid i mi gymryd rhan?

Mae cyfrannu i'r astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol. Byddwch yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm i'r ymchwilydd.

Beth fydd yn digwydd os penderfynaf gymryd rhan?

Mae yna wahoddiad i chi gymryd rhan mewn grŵp ffocws i drafod eich profiadau, teimladau a safbwyntiau o ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol. Hoffem gael gwybod pa gyfleoedd sydd yn eich ardal er mwyn defnyddio'r Gymraeg, pa fylchau sydd yn bodoli a pa ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith o fewn y gymuned.

Bydd y grŵp ffocws yn cynnwys 6 i 8 unigolyn, ac yn para oddeutu awr. Bydd y grŵp ffocws yn cael ei gynnal yn eich clwb lleol. Bydd y grŵp ffocws yn cael ei recordio gydag offer sain ddigidol gyda'ch caniatâd chi.

A fydd fy nghyfranogiad yn gyfrinachol?

Bydd. Byddwn yn trin yn gyfrinachol unrhyw wybodaeth a rannwch, ni chewch eich enwi mewn unrhyw adroddiadau neu gyhoeddiadau.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yma yn gymorth i gynllunwyr wrth geisio llunio strategaethau iaith am ddefnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Cymru.

Pwy sy'n trefnu a chyllido'r ymchwil?

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei ariannu gan Llywodraeth Cymru. Trefnir y prosiect gan Dr Rhian Siân Hodges a Dr Cynog Prys, Prifysgol Bangor.

Cyswllt am fwy o wybodaeth?

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Rhian Hodges (01248 383034) neu drwy e-bost (r.s.hodges@bangor.ac.uk) neu Dr Cynog Prys (01248 383834) neu drwy e-bost (c.prys@bangor.ac.uk). Petaech am drafod unrhyw fater o fewn yr astudiaeth hon mewn mwy o fanylder, cysylltwch â'r Athro Catherine Robinson, Pennaeth Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor ar y ffôn (01248 382222) neu drwy e-bost (c.a.robinson@bangor.ac.uk).

Y camau nesaf?

Os penderfynwch gymryd rhan, llenwch y ffurflen gydsynio er mwyn rhoi eich caniatâd.

Diolch am roi eich amser i ddarllen y wybodaeth hon.

Atodiad 1.3 : Ffurflen Cydsynio Grwpiau Ffocws



Defnydd o'r Gymraeg yn y Gymuned

FFURFLEN CYDSYNIO I GYMRYD RHAN MEWN GRŴP FFOCWS

Ymchwilwyr: Prifysgol Bangor ar ran Llywodraeth Cymru

Ticiwch y blychau sydd yn berthnasol i chi os gwelwch yn dda:

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen
wybodaeth am yr astudiaeth hon.

☐

Rwyf yn deall bod fy nghyfraniad yn wirfoddol a fy mod yn
rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm.

☐

Rwyf yn deall y perchir fy hawliau o ran peidio â datgelu pwy
ydwyf a sicrhau cyfrinachedd o fewn yr ymchwil hwn.

☐

Rwyf yn cytuno i gael fy recordio i'r ymchwil hwn am y
rhesymau eglurwyd i mi.

☐

Llofnod y sawl sydd yn cymryd rhan.....
Dyddiad.....

Gwneir copi deublyg o'r ffurflen hon. Dylai'r sawl sydd yn cymryd rhan gadw un
copi a'r ymchwilydd cadw'r llall.

Atodiad 1.4: Atodlen Gyfweld Grwpiau Ffocws

Atodlen Gyfweld Grwpiau Ffocws Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

AMCANION

- Casglu barn y cyhoedd ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymunedol.
- Asesu dylanwad cynlluniau'r Llywodraeth i gefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Cyflwyniad - *Cydlynnydd: i gyflwyno ei hun ac i'r grŵp ffocws:*

- Diolch am ddod
- Bydd y sesiwn yn para oddeutu awr
- Trefniadau tŷ: larwm dân, toiledau, ffônau symudol
- Sôn yn fras am yr ymchwil - pwy, pam, beth (gweler y gwahoddiad)
- Pwysleisio pwysigrwydd clywed gan bobl fel chi
- Cadw nodiadau / recordio (Ydy recordio'r sesiwn yn dderbyniol i chi?)
- Rheolau Grŵp Ffocws – cyfrinachedd, natur anhysbys, chwarae teg i bawb
- Cadarnhau cyfrinachedd- ni enwir neb o fewn y gwaith hwn
- Bydd y wybodaeth a gesglir drwy'r grwpiau ffocws yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion y prosiect hwn yn unig ac yn cael ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru diwedd mis Mawrth ar ffurf adroddiad.
- A oes yna unrhyw gwestiynau cyn i ni gychwyn?

Pawb i gyflwyno ein hunain – aelodau i rannu eu henwau, lle maen nhw'n byw a rhywbeth byr am eu defnydd o'r iaith Gymraeg.

1) Cwestiynau cefndirol am eich cymuned

- Sut fydddech chi'n disgrifio eich cymuned chi i rywun o'r tu allan?

2) Cwestiynau ynglŷn â'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eich cymuned:

2a. Gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol

- Pa fath o weithgareddau cymunedol/cymdeithasol sy'n bodoli yn eich cymuned chi? (E.e. clybiau cinio, chwaraeon, boreau coffi, sesiynau rhieni a phlant, clybiau ieuenctid.) (*Dewisol – cofnodi data ar 'Post its'*)
 -
- Ym mha iaith/ieithoedd mae'r gweithgareddau yma yn cael eu cynnal? (*Os yn Saesneg yn unig: Oes gweithgareddau iaith Gymraeg neu ddwyieithog yn cael eu cynnal yn eich ardal chi o gwbl?*)
- Ydych chi'n mynychu gweithgareddau iaith Gymraeg? Pam?
 - Os nad ydych – Pam?
- Pa weithgareddau ydych chi'n mynd iddynt / neu wedi bod iddynt yn y gorffennol?

- Sut ydych yn cael gwybod am weithgareddau Cymraeg yn eich ardal?
(Sbardun: Lle'r ewch chi i ddod o hyd i'r gweithgareddau sydd ar y gweill? E.e. Papurau bro, yr ysgol, *Facebook*, rhwydweithiau cymdeithasol ayyb)
- Pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gweithgareddau hyn?
- Pwy sy'n dueddol o fynychu'r gweithgareddau hynny?

2b. Gweithgareddau pob dydd

- Pryd mae'r cyfleoedd i bobl siarad Cymraeg yn eich cymuned chi?
 - (Nodyn i'r ymchwilydd: gofynnwch pob pwynt sbardun isod)
 - Sbardun: Ymchwilydd i ofyn pob pwynt sbardun Gweithle, Addysg, Hamdden (e.e. clybiau a chymdeithasau), Ar-lein (e.e. *Facebook* a *Twitter*), Gwasanaethau cyhoeddus (e.e. doctoriaid, swyddfa cyngor), Siopau
- A ydych yn hapus gyda'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich bywyd bob dydd?

2c. Dylanwad ar eich defnydd chi o'r Gymraeg

- Beth sy'n dylanwadu mwyaf ar eich defnydd chi o'r Gymraeg yn eich gymuned?
(E.e. cyfleoedd, cyd-destun, addysg, hyder, y gwasanaethau sydd ar gael, niferoedd sy'n gallu'r Gymraeg)

3) Cwestiynau barn: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

- Ydy mynychu digwyddiadau sy'n digwydd drwy'r Gymraeg yn benodol yn bwysig i chi?
- Beth yw eich barn am weithgareddau Cymraeg/dwyieithog yn eich cymuned?
(E.e. digon ohonynt? Ansawdd? Hapus?)
- Beth fyddai'n annog chi ac eraill ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn gymunedol?
(Sbardun: bylchau? Beth sydd ar goll?)

4) Cwestiynau ynglŷn â'r Dyfodol

- Oes na weithgareddau Cymraeg yr hoffech weld yn cael ei datblygu o fewn eich cymuned nad sy'n bodoli'n barod?
- Yn eich barn chi, beth sy'n stopio rhagor o weithgaredd iaith Gymraeg ddatblygu yn eich cymuned chi a sut buasai'n bosib dod dros hyn?
- Sut y gwelwch chi ddyfodol y Gymraeg o fewn eich cymuned?
- I ba raddau ydych chi'n gweld gwerth i'r iaith Gymraeg yn eich cymuned chi yn y dyfodol?
- Beth ydych chi'n teimlo fyddai o gymorth i annog defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau fel (Llanrwst....) yn y dyfodol?
- Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach i gynnig ar ble ddylai Llywodraeth Cymru buddsoddi ei arian o ran cynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau?

Diolchiadau a Chloi

- Diolch yn fawr iawn i chi am rannu eich safbwyntiau gyda ni heddiw.
- Unrhyw sylwadau eraill i'w hychwanegu?
- Hoffwn i chi gwblhau'r holiadur byr yma cyn gadael, os gwelwch yn dda, cofiwch adael yr holiadur ar y bwrdd wrth adael.
- Diolch yn fawr.



Atodiad 1.5: Taflen Wybodaeth Arolwg Stryd

TAFLEN WYBODAETH AROLWG STRYD

Rhagarweiniad:

Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn prosiect sydd yn edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich cymuned.

A oes rhaid i mi gymryd rhan?

Mae cyfrannu i'r astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol. Byddwch yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm i'r ymchwilydd.

Beth fydd yn digwydd os penderfynaf gymryd rhan?

Mae yna wahoddiad i chi gymryd rhan mewn arolwg stryd yn edrych ar y cyfleoedd a gweithgareddau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eich cymuned. Ni fydd yr arolwg yn cymryd mwy na 10 munud.

A fydd fy nghyfranogiad yn gyfrinachol?

Bydd. Byddwn yn trin unrhyw wybodaeth yn gyfrinachol. Ni chewch eich enwi mewn unrhyw adroddiad neu gyhoeddiad.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canfyddiadau'r astudiaeth yma yn gymorth i gynllunwyr werthuso strategaethau iaith y Llywodraeth am ddefnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Cymru.

Cyswllt am fwy o wybodaeth?

Os hoffech gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Rhian Hodges ar y ffôn (01248 383034) neu drwy e-bost (r.s.hodges@bangor.ac.uk) neu ffoniwch Dr Cynog Prys (01248 383834) neu cysylltwch drwy e-bost (c.prys@bangor.ac.uk). Petaech am drafod unrhyw fater o fewn yr astudiaeth hon mewn mwy o fanylder, cysylltwch â'r Athro Catherine Robinson, Pennaeth Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor ar y ffôn (01248 382222) neu drwy e-bost (c.a.robinson@bangor.ac.uk).

Atodiad 1.6: Cyfarwyddiadau Arolwg Stryd

Arolwg Stryd: Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned Cyfarwyddiadau i'r ymchwilydd sydd yn gweinyddu'r Arolwg

Yn ystod yr arolwg stryd hwn, bydd gofyn ichi ddiffinio ambell i gysyniad anodd i'r atebwyr ac esbonio rhai cwestiynau mewn mwy o ddyfnder.

Dyma gyfres o gyfarwyddiadau i'w dilyn wrth weinyddu'r arolwg stryd gydag aelodau'r cyhoedd o fewn y 6 chymuned.

Cwestiynau hidlo (Tudalen 1)

A ydych yn byw yn lleol? - bydd angen esboniad pellach, gan fod 'lleol' yn dueddol o olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, a bydd hefyd yn amrywio yn ôl nodweddion yr ardal dan sylw. Nid yw'n bosibl dehongli 'lleol' yn ôl dalgylch milltiroedd yn unig, ac nid rhestr o bentrefi neu ardaloedd penodol yw'r maen prawf o anghenraid chwaith. Ar gyfer dibenion y prosiect hwn bydd y diffiniad o 'lleol' yn cael ei yrru gan sut y mae'r unigolyn ei hun yn diffinio ac yn dehongli lleol – gan mai'r maen prawf hwn sydd yn debygol o ddylanwadu ar ymdrech ac ymroddiad yr unigolyn i gyfranogi ym mywyd cymunedol/cymdeithasol yr ardal dan sylw. Fodd bynnag, bydd angen i chi allu ymateb i gwestiynau/amheuon posibl gan y sawl a holir, ac esbonio wrthynt beth sydd wrth wraidd y cwestiwn hwn. Dyma gyfres o gwestiynau ychwanegol er mwyn penderfynu a yw ymatebydd yn gymwys i fod yn rhan o'r arolwg ai peidio:

Dangosyddion perthyn – gofynnwch a yw unigolyn yn siopa o ddydd i ddydd, mynychu clybiau a chymdeithasau diddordeb, cymdeithasu neu ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus o fewn y gymuned.

Unigolion i'w hepgor o'r ymchwil – pobl sydd ar eu gwyliau neu'n ymweld â'r ardal, neu bobl sydd yn yr ardal oherwydd gwaith achlysurol.

A ydych yn siarad Cymraeg? – mae barn siaradwyr ynghylch eu gallu yn y Gymraeg yn debygol o amrywio'n fawr, ac yn debygol o gael ei dylanwadu gan ffactorau megis hyder, canfyddiad personol, cymariaethau gyda siaradwyr eraill ac ati. Ar gyfer dibenion yr ymchwil hwn rydym am glywed gan unigolion ag amrywiaeth o lefelau gallu – o'r rhai sydd yn dweud eu bod yn gwbl rhugl i'r rhai sydd yn dweud eu bod yn gallu dweud ychydig eiriau. Felly, ar gyfer dibenion hidlo, bydd angen i chi gynnwys yn yr arolwg y rhai sydd yn cynnig ateb megis 'dim ond ychydig eiriau' / 'dim yn siarad llawer' / 'dim ond dipyn bach'.

Ym mha iaith hoffech chi ateb yr holiadur? – angen esbonio bod modd cwblhau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, pa bynnag iaith y mae'r ymatebydd fwyaf cyfforddus ynddi.

Proffil Cefndirol (Tudalen 1)

Cwestiwn 1. Gender - ymatebydd i nodi, neu ddewis peidio.

Cwestiwn 2. Oedran - cofiwch ddarllen categorïau oedran er mwyn i bobl ddewis ohonynt yn hytrach na gofyn am oedran penodol yr ymatebydd.

Cwestiwn 4. Ers pryd ydych chi wedi byw yn XXX (enw'r gymuned)? - cofiwch sicrhau eich bod yn nodi enw'r gymuned wrth ofyn y cwestiwn, a chofio hefyd y cyfarwyddyd uchod ynghylch pa bentrefi/ ardaloedd i'w cynnwys o dan 'yn lleol'. Os bydd rhywun yn dweud eu bod wedi symud i fyw o fewn yr ardal dan sylw nid yw hynny'n berthnasol – yr hyn sy'n bwysig yw ers pa bryd maent wedi bod yn yr ardal dan sylw.

Defnyddio'r Gymraeg (Tudalen 2)

Cwestiwn 6. Ble yn bennaf dysgoch chi siarad Cymraeg? - os yw ymatebydd yn cyfeirio at fwy nag un lle (e.e. gartref ac yn yr ysgol) dylech ofyn 'a oeddech yn siarad Cymraeg cyn mynd i'r ysgol?' Os mai'r ateb yw 'oeddwn' ticiwch 'gartref'.

Cwestiwn 8. Yn XXX faint o gyfleoedd ydych chi'n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol? - dylech ddangos y tabl er mwyn i'r ymatebydd weld y raddfa likert. Cofiwch esbonio'r raddfa a'u tywys drwy'r atebion posibl i bob cwestiwn.

Dim o gwbl yw 1, Llawer yw 5; nodwch hefyd bod yna gyfle i ateb amherthnasol (D/B)

Angen esbonio o fewn y cwestiwn hwn mai cyfleoedd **i'r unigolyn** o fewn ei gymuned/chymuned sydd yn bwysig fan hyn.

Yn eich ysgol leol – yr ysgol sydd yn lleol iddynt, nid yr ysgol yr aethon nhw iddi pan yn blentyn. *Noder hefyd:* mae modd iddynt ateb naill ai fel disgybl neu fel rhiant / gwarcheidwad.

Yn y gwaith – mae'r cwestiwn hwn ychydig yn wahanol i'r lleill. Nid oes rhaid iddynt weithio o fewn y gymuned leol; mae gofyn am eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith – hyd yn oed os nad yw hyn o fewn y gymuned leol - yn cynnig gwybodaeth bwysig i'r ymchwil.

Cwestiwn 9. Wrth feddwl am y mis diwethaf, pa weithgareddau cymdeithasol ydych chi wedi bod iddynt? - angen nodi enghreifftiau penodol, cyfleoedd cymdeithasol wedi eu trefnu, yn hytrach na chwrdd â ffrindiau neu ymweld â'r dafarn, er enghraifft. Gofynnir am dair enghraifft ond nid yw hynny'n orfodol.

Cwestiwn 10. Pa iaith/ ieithoedd ddefnyddioch chi o fewn y gweithgareddau cymdeithasol hyn? - cofiwch ddangos y tabl a thywys yr ymatebydd drwy'r atebion posibl.

Tudalen 3

Cwestiwn 12. Hoffech chi petai yna fwy o gyfleoedd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn XXX neu a ydych chi'n hapus gyda faint o gyfleoedd sydd ar gael i chi? - prociwch am enghreifftiau penodol; gofynnwch i'r atebwyr ymhelaethu.

Cwestiwn 13. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y cyfleoedd i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn XXX? – prociwch am enghreifftiau lle'n berthnasol. Cofiwch bwysleisio mai cyfleoedd **yr unigolyn** i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wrth wraidd y cwestiynau hyn - eu profiadau penodol am y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw yn lleol.

Atodiad 1.7: Arolwg Stryd

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

Arolwg Stryd

Côd Unigol:	
Côd Ymchwilydd:	
Dyddiad:	
Lleoliad:	

Cyflwyniad:

Cyfarchiad dwyieithog: ee. **Bore da/ good morning // Pnawn da/good afternoon**

Oes gennych chi bum i ddeng munud i lenwi holiadur byr **am y Gymraeg yn eich cymuned** os gwelwch yn dda?

*Could you spare five to ten minutes to fill in a short questionnaire about the **Welsh language in your community**?*

[parhau yn iaith y cyfranogwr ar y pryd]

'Rydym yn gweithio i Brifysgol Bangor ar brosiect ymchwil sy'n edrych ar y **cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eich cymuned**. Cyllidir y prosiect hwn gan **Lywodraeth Cymru**. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol a'r sylwadau yn anhysbys. Nid ydym yn gofyn am eich enw nac unrhyw wybodaeth gyswilt.

*We're working for Bangor University on a research project looking at the **opportunities to use the Welsh language within your community**. This project is funded by the **Welsh Government**. All information provided will be confidential and comments will remain anonymous. We will not ask you to provide your name and contact details.*

[dangos y daflen wybodaeth i'r cyfranogwr]

Mae angen i mi ofyn rhai cwestiynau i chi ar y dechrau

I need to ask you some questions at the start

[symud ymlaen at y cwestiynau hidlo]

Cwestiynau Hidlo

A ydych yn byw yn lleol?

Do you live locally?

Ydw

☐

Nac ydw

☐

[gw. y canllaw ar gyfer 'lleol']

A ydych dros 16 mlwydd oed?

Are you over 16 years of age?

Ydw

☐

Nac ydw

☐

A ydych yn siarad Cymraeg?

Do you speak Welsh?

Ydw

☐

Nac ydw

☐

**[ymatebwyr sydd yn cynnig
ateb 'dim ond chydig bach' /
'dim yn dda iawn' i'w cynnwys]**

Ym mha iaith hoffech chi ateb yr
holiadur?

*In which language would you like
to complete the questionnaire?*

Cymraeg

☐

Saesneg

☐

Proffil Cefndirol

1. Gender: Benyw ☐ Gwryw ☐
(Ticiwch un neu gadewch yn wag os nad yw'r ymatebydd am ddatgan)
2. Oedran: (cylchwch un categori oed addas):
16-24 25-39 40-64 65+
3. A oes gennych chi blant o dan 18? ☐ Oes ☐ Nac Oes
4. Ers pryd ydych chi wedi byw yn (enw'r gymuned)? _____
[gw. y canllaw ar gyfer 'lleol']

Defnyddio'r Gymraeg

5. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg? (Ticiwch un blwch yn unig)
- | | |
|--|--------------------------|
| Rwy'n rhugl yn Gymraeg | ☐ |
| Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg | ☐ |
| Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig | ☐ |
| Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig | ☐ |
6. Ble yn bennaf dysgoch chi siarad Cymraeg? (Ticiwch un blwch yn unig)
- | | | | |
|--|--------------------------|-------------------------|--------------------------|
| Gartref | ☐ | Ysgol/ Coleg/ Prifysgol | ☐ |
| Yn y gwaith | ☐ | Cymraeg i Oedolion | ☐ |
| Wrth siarad gyda phobl sydd yn byw o fy nghwmpas | ☐ | | |
7. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg? (Ticiwch un blwch yn unig)
- | | |
|-------------|--------------------------|
| Bob dydd | ☐ |
| Bob wythnos | ☐ |
| Llai aml | ☐ |

Byth

☐

8. Yn (enw'r gymuned) faint o gyfleoedd ydych chi'n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol? (Cylchwch un rhif perthnasol i bob sefyllfa) (Dim o gwbl yw 1, llawer yw 5 ac mae ateb D/B yn bosibl)

Gyda'ch <u>teulu</u> sy'n byw yn lleol	Dim o gwbl				Llawer	D/B
	1	2	3	4	5	
Yn eich <u>ysgol</u> leol (naill ai fel disgybl neu riant/gwarcheidwad)	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Gyda <u>ffrindiau</u> sy'n byw yn lleol	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Gyda <u>chymdogion</u>	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Gyda staff mewn <u>siopau</u> lleol	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Gyda staff eich <u>cyngor</u> lleol	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Gyda'ch <u>doctor</u> teulu lleol	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Wrth <u>wirfoddoli</u> 'n lleol	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Wrth <u>addoli</u> yn lleol (e.e. capel, eglwys)	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
<u>Clybiau hamdden a chwaraeon</u> lleol	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	
Yn y <u>gwaith</u>	Dim o gwbl				Llawer	
	1	2	3	4	5	

9. Wrth feddwl am y mis diwethaf pa weithgareddau cymdeithasol (e.e. clybiau, cymdeithasau a digwyddiadau cyhoeddus) ydych chi wedi bod iddynt? Rhwch hyd at dair enghraifft.

(cyfleoedd cymdeithasol wedi eu trefnu, yn hytrach na chwrdd â ffrindiau ac ymweld â'r dafarn, er enghraifft)

1. _____

2. _____

3. _____

4. Heb fynychu gweithgaredd cymdeithasol yn y mis diwethaf

☐

[Os atebir 'heb fynychu' ewch i gwestiwn 12]

10. Pa iaith/ ieithoedd ddefnyddioch chi o fewn y gweithgareddau cymdeithasol hyn?
(Dangoswch y tabl isod er mwyn ei lenwi)

Gweithgareddau	Cymraeg yn unig	Mwy o'r Gymraeg na'r Saesneg	Y ddwy iaith yn gyfartal	Mwy o Saesneg na'r Gymraeg	Saesneg yn unig	Arall	Ddim yn cofio
1							
2							
3							

11. Pwy drefnodd y gweithgareddau hyn? *(Dangoswch y tabl isod er mwyn ei lenwi)*

Gweithgareddau	Trefnydd	Ddim yn gwybod
Gweithgaredd 1		
Gweithgaredd 2		
Gweithgaredd 3		

12. Hoffech chi petai yna fwy o gyfleoedd i **chi** ddefnyddio'r Gymraeg yn (enw'r gymuned) neu a ydych chi'n hapus gyda faint o gyfleoedd sydd ar gael i chi?
[Rhowch enghreifftiau lle'n berthnasol]

13. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y cyfleoedd i **chi** ddefnyddio'r Gymraeg yn (enw'r gymuned)?

Diolch i chi am ateb yr holiadur. Mae eich cyfraniad yn bwysig iawn i'r prosiect ymchwil.

Atodiad 1.8: Nodweddion Ymatebwyr Arolwg Stryd

Newidyn	Pob						
	Ileoliad N (%)	Bangor n (%)	Llanrwst n (%)	Porthmadog n (%)	Aberystwyth n (%)	Rhydaman n (%)	Aberteifi n (%)
Nifer y cyfranogwyr	638 (100)	116 (18.2)	90 (14.1)	101 (15.8)	98 (15.4)	110 (17.2)	123 (19.3)
Oedran (blynyddoedd)							
16-24	123 (19.6)	44 (37.9)	16 (17.7)	14 (13.9)	15 (17.0)	17 (15.5)	17 (13.9)
25-39	124 (19.8)	19 (16.4)	14 (15.6)	18 (17.8)	25 (28.4)	24 (21.8)	24 (19.7)
40-64	249 (39.7)	36 (31.0)	37 (41.1)	52 (51.5)	37 (42.0)	35 (31.8)	52 (42.6)
65+	131 (20.9)	17 (14.7)	23 (25.6)	17 (16.8)	11 (12.5)	34 (30.1)	29 (23.8)
Rhyw							
Gwryw	201 (32.1)	38 (32.8)	29 (32.2)	26 (26.0)	27 (30.3)	38 (34.5)	43 (35.2)
Benyw	426 (67.9)	78 (67.2)	61 (67.8)	74 (74.0)	62 (69.7)	72 (65.5)	79 (64.8)
Byw yn lleol	603 (99)	111 (99.1)	87 (97.8)	96 (97.0)	87 (100)	101 (91.8)	122 (100)
Ganddynt blant <18 oed	158 (25.5)	30 (26.1)	23 (25.8)	21 (20.8)	18 (21.7)	29 (26.9)	37 (30.1)
Iaith yr arolwg stryd							
Cymraeg	451 (70.9)	90 (77.6)	72 (80.0)	60 (59.4)	77 (80.2)	78 (70.9)	74 (60.2)
Saesneg	185 (29.1)	26 (22.4)	18 (20.0)	41 (40.6)	19 (19.8)	32 (29.1)	49 (39.8)


Atodiad 1.9 Nodweddion Iaith Gymraeg Ymatebwyr Arolwg Stryd

Nodweddion Iaith Gymraeg

Newidyn	Pob						
	Ileoliad N (%)	Bangor n (%)	Llanrwst n (%)	Porthmadog n (%)	Aberystwyth n (%)	Rhydaman n (%)	Aberteifi n (%)
Gallu i siarad Cymraeg	635 (100)						
Dweud ychydig eiriau yn unig	29 (4.6)	4 (3.4)	2 (2.2)	6 (6.0)	9 (9.4)	2 (1.8)	6 (4.9)
Siarad ychydig o Gymraeg	61 (9.6)	8 (6.9)	7 (7.8)	11 (11.0)	14 (14.6)	10 (9.1)	11 (8.9)
Siarad cryn dipyn o Gymraeg	86 (13.5)	8 (6.9)	9 (10.0)	8 (8.0)	16 (16.7)	22 (20.0)	23 (18.7)
Rhugl yn Gymraeg	459 (72.3)	96 (82.8)	72 (80.0)	75 (75.0)	57 (59.4)	76 (69.1)	83 (67.5)
Man lle ddysgwyd y Gymraeg							
Adref	450 (72.8)	89 (78.8)	72 (80.0)	59 (66.3)	64 (66.0)	85 (77.3)	81 (68.1)
Ysgol/Coleg/Prifysgol	99 (16.0)	19 (16.8)	11 (12.2)	12 (13.5)	15 (15.5)	17 (15.5)	25 (21.0)
Gwaith	25 (4.0)	0 (0.0)	1 (1.1)	5 (5.6)	13 (13.4)	2 (1.8)	4 (3.4)
Cymraeg i Oedolion	24 (3.9)	3 (2.7)	2 (2.2)	7 (7.9)	3 (3.1)	3 (2.7)	6 (5.0)
Siarad â phobl sy'n byw yn lleol	20 (3.2)	2 (1.8)	4 (4.4)	6 (6.7)	2 (2.1)	3 (2.7)	3 (2.5)
Amllder siarad Cymraeg							
Byth	16 (2.5)	6 (5.2)	(0.0)	0 (0.0)	4 (4.1)	1 (0.9)	5 (4.1)
Llai nag wythnosol	49 (7.7)	6 (5.2)	7 (7.9)	8 (8.0)	15 (15.5)	4 (3.6)	9 (7.3)
Wythnosol	64 (10.1)	11 (9.5)	6 (6.7)	8 (8.0)	13 (13.4)	11 (10.0)	15 (12.2)
Dyddiol	506 (79.7)	93 (80.2)	76 (85.4)	84 (84.0)	65 (67.0)	94 (85.5)	94 (76.4)

Atodiad 1.10: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y chwe chymuned

(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



Gofynnwyd i ymatebwyr fynegi eu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar raddfa o 1 i 5, gydag 1 yn cynrychioli ‘dim cyfle o gwbl’ a 5 yn cynrychioli ‘llawer’ o gyfleoedd. At ddibenion y siartiau hyn, mae 1 yn cynrychioli ‘dim’ cyfleoedd, 2 i 4 yn cynrychioli ‘rhai’ cyfleoedd a 5 yn cynrychioli ‘llawer’ o gyfleoedd.


Os nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i ymatebwyr yna roedd modd nodi hyn wrth ateb y cwestiwn. At ddibenion y siartiau hyn, ni chynhwysir yr ymatebwyr a ddywedodd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt.

Mae’n bwysig cofio am gyfyngiadau'r arolygon stryd. Mae cyfyngiadau ynghlwm â'r dull samplo cyfleus a ddefnyddiwyd, felly mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau. Ni ellir honni fod y sampl a holwyd o anghenraid yn cynrychioli'r gymuned yn ei chyfanrwydd.

- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd y chwe chymuned bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod yn yr ysgol (66.8 y cant), teulu (63.6 y cant) ac wrth addoli (61.0 y cant).
- Nododd 37.1 y cant o ymatebwyr bod dim cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u meddyg teulu lleol, tra nododd 4.6 y cant o ymatebwyr bod dim cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Atodiad 1.11: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Aberteifi


(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd Aberteifi bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod yn yr ysgol (72.9 y cant), wrth addoli (69.6 y cant) a chyda'r teulu (63.1 y cant).
- Nododd 44.1 y cant o ymatebwyr bod dim cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg lleol tra bod 1.0 y cant wedi nodi nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Atodiad 1.12: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mangor


(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd Bangor bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod yn y teulu (71.6 y cant), yr ysgol (64.1 y cant) a chyda'r cyngor lleol (62.1 y cant).
- Nododd 30.4 y cant o ymatebwyr bod dim cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg lleol tra bod 7.0 y cant wedi nodi nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Atodiad 1.13: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Llanrwst


(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd Llanrwst bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod yn yr ysgol (74.7 y cant), wrth addoli (71.1 y cant) a chyda'r teulu (69.8 y cant).
- Nododd 40.7 y cant o ymatebwyr nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u meddyg teulu lleol.
- Nododd 6.2 y cant o ymatebwyr nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Atodiad 1.14: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Rhydaman


(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd Rhydaman bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod wrth addoli (73.6 y cant), yn yr ysgol (72.4 y cant) a chyda'r teulu (62.7 y cant).
- Nododd 29.9 y cant o ymatebwyr nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u meddyg teulu lleol.
- Nododd 4.1 y cant o ymatebwyr nad oes cyfle o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Atodiad 1.15: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Aberystwyth


(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd Aberystwyth bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod wrth addoli (45.2 y cant), gyda'r teulu (45.2 y cant) ac wrth wirfoddoli (41.7 y cant).
- Nododd 66.3 y cant o ymatebwyr nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r cyngor lleol, tra bod 61.2 y cant wedi dweud nad oes cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg teulu lleol.
- Nododd 7.1 y cant o ymatebwyr nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

Atodiad 1.16: Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym Mhorthmadog

(‘Faint o gyfleoedd ydych chi’n eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?’)



- Adroddodd ymatebwyr arolwg stryd Porthmadog bod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mwyaf aml i'w canfod yn yr ysgol (74.5 y cant), y cyngor (73.9 y cant) a'r teulu (68.1 y cant).
- Nododd 20.4 y cant o ymatebwyr nad oes cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r meddyg lleol, tra bod 2.1 y cant wedi nodi nad oes ddim cyfleoedd o gwbl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff mewn siopau lleol.
- Dengys data arolygon stryd Bangor a Phorthmadog bod y rhai a holwyd â chyfleoedd sylweddol i ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff o fewn y cyngor lleol.

Atodiad 1.17: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Aberteifi)

Cynllun	Gweithgaredd/Sefyllfa
Cynllun Gweithredu Iaith	Sefydlwyd yn 2003, a'i ymestyn i gynnwys ardaloedd Castell Newydd Emlyn a Llandysul yn 2009 a'i adnabod fel Cynllun Gweithredu Iaith Bro Teifi hyd at 2012. Dan ofal y Llywodraeth o hynny hyd at 2014. Rhoddwyd pwyslais ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol ym meysydd teuluoedd, plant a phobl ifanc a grwpiau cymunedol. Gwelwyd pwyslais cynyddol ar gydweithio a chyd-gynllunio gyda'r Mentrau Iaith Lleol, yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill yn lleol megis Twf, Mudiad Meithrin a Choleg Ceredigion. Yn y cyfnod diweddar gwelwyd sefydlu Papur Bro o'r newydd yn yr ardal, a hynny o ganlyniad i weithredu ar sail y pecyn adnoddau <i>Gweithredu'n Lleol</i> a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012.
Mentrau Iaith	Mae'r ardal yn ymestyn ar draws tair Sir - Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion. Ceir felly tair Menter Iaith, yn cynnal gweithgareddau amrywiol yn yr ardal, naill ai yn unigol neu ar y cyd. Gweithredwyd cynllun 'Siarter Iaith Ceredigion' gan Cered yn ddiweddar gyda busnesau a sefydliadau yn Aberteifi yn ymrwmo i gynllun sy'n codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg ar draws Ceredigion.
Twf	Sesiynau gyda rhieni a darpar rieni mewn cydweithrediad â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd; grwpiau cefnogi Amser Twf; gweithgareddau cymunedol megis boreau hwyl ar gyfer y teulu mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Lleol a phartneriaid eraill.
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt	Cynllun a oedd yn anelu i godi hyder a newid arferion iaith rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd am wahanol resymau yn peidio â gwneud hynny. Cynllun wedi bod yn weithredol yn Aberteifi yn 2008/11 a 2013/15.
Mudiad Meithrin (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru)	Cylchoedd Ti a Fi yn Y Ferwig, Penparc, Llechryd a Cilgerran. Cylchoedd Meithrin yn Llandudoch, Penparc, Llechryd a Cilgerran.
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith	Wedi bod yn weithredol yn Ysgol Uwchradd Aberteifi yng nghyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a thrwy Lywodraeth Cymru yn 2013/14. Hefyd yn weithredol yn Ysgol Gyfun Ddwieithog Dyffryn Teifi hyd at 2015.
Urdd Gobaith	Aelodau'r Urdd ym mhob ysgol drwy'r ardal. Ceir amrywiaeth o

Cymru	weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ym maes chwaraeon yn cael eu cynnig gan yr Urdd yn lleol i'w haelodau.
Merched y Wawr	Dim cangen yn Aberteifi, ond nifer o ganghennau yn yr ardal ehangach gan gynnwys Llandudoch, Aberporth, Beulah, Y Mwnt, Glynarthen, Castell Newydd Emlyn, Llandysul.
Clybiau Ffermwyr Ifanc	Dim clwb yn nhref Aberteifi ond clybiau yn yr ardaloedd gwledig yn cynnwys Hermon, Eglwysrwr, Penparc, Llandygwydd a Throed-yr-aur.
Papurau Bro	<i>Y Gambo, Clebran a'r Garthen</i> , yn ogystal â'r papur bro newydd ar gyfer Aberteifi - <i>Y Dwrgi</i> .
Cymraeg i Oedolion (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, ac yn rhan o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru	Dosbarthiadau yn Aberteifi a Llandysul, a phentrefi cyfagos megis Cilgerran, Beulah, Dre-fach Felindre yn cael eu darparu ar ran y ddwy Ganolfan Cymraeg i Oedolion (Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru). Trefnir hefyd ddigwyddiadau cymdeithasol gan y Canolfannau megis teithiau cerdded a chwisiau.

Atodiad 1.18: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Bangor)

Cynllun	Gweithgaredd/ Sefyllfa
Cynllun Gweithredu Iaith	Sefydlwyd Cynllun Gweithredu Iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym Mangor ym Mehefin 2004. Dalgylch y Cynllun oedd dinas Bangor a rhai o'r pentrefi cyfagos, o'r Felinheli yn y gorllewin i bentref Llandygai yn y dwyrain. Daeth y cynllun i ben yn 2008.
Menter Iaith	Daeth Menter Iaith Gwynedd i ben ddiwedd blwyddyn ariannol 2007/8, ac yn y cyfnod dilynol roddwyd cyllid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Gyngor Gwynedd weithredu i hyrwyddo'r Gymraeg; sefydlwyd <i>Hunaniaith</i> er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd yn 2008/09. Yn ychwanegol, yn sgil canlyniadau siomedig cyfrifiad 2011 daeth nifer o unigolion yn ardal Bangor ynghyd er mwyn edrych ar sefyllfa'r Gymraeg, gan ddilyn ymarferiad Gweithredu'n Lleol er mwyn canfod blaenoriaethau. Sefydlwyd Menter Iaith Bangor yn 2014 sydd bellach, mewn partneriaeth gyda <i>Hunaniaith</i> , wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy grant Bwrw Mlaen.
Twf	Sesiynau gyda rhieni a darpar rieni mewn cydweithrediad â bydwagedd, ymwelwyr iechyd a chanolfannau teulu; ceir grwpiau cefnogi Amser Twf; gweithgareddau cymunedol megis boreau hwyl, digwyddiadau ymwybyddiaeth ar gyfer y teulu mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill.
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt	Cynllun a oedd yn anelu i godi hyder a newid arferion iaith rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd am wahanol resymau yn peidio â gwneud hynny. Cynllun wedi bod yn weithredol ym Mangor am gyfnod.
Mudiad Meithrin (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru)	Cylchoedd Ti a Fi mewn amryw o leoliadau yn yr ardal, yn ogystal â chylchoedd Meithrin.
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith	Wedi bod yn weithredol yn Ysgol Uwchradd Tryfan am gyfnod.
Urdd Gobaith Cymru	Aelodaeth o'r Urdd yn uchel yn yr ardal, gydag uwch adran Bangor yn boblogaidd iawn a nifer o aelodau. Ceir amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ym maes chwaraeon yn cael eu cynnig gan yr Urdd yn lleol i'w haelodau.
Merched y Wawr	Cangen Bangor a nifer o bentrefi cyfagos.
Clybiau Ffermwyr Ifanc	Dim clwb ym Mangor.

Papurau Bro	<i>Goriad</i>
Cymraeg i Oedolion (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, ac yn rhan o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)	Lleolir Canolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd yn y Brifysgol, gydag amrywiaeth o gyrsiau yn cael eu darparu ar gyfer ystod o lefelau gallu amrywiol. Trefnir digwyddiadau anffurfiol a chymdeithasol gan y Canolfannau megis teithiau cerdded a chwisiau a Sadyrnau Siarad.

Atodiad 1.19: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Llanrwst)

Cynllun	Gweithgaredd/ Sefyllfa
Cynllun Gweithredu Iaith	Sefydlwyd yn Medi 2003; Llanrwst oedd prif flaenoriaeth yr ardal, ond cynhwysir hefyd y cymunedau cyfagos gan olygu fod yr ardal gyfan yn cynnwys Llanrwst, Melin y Coed, Carmel, Llanddaged, Maenan a Threfriw. Rhoddwyd pwyslais ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol ym meysydd teuluoedd, plant a phobl ifanc a grwpiau cymunedol. Gwelwyd pwyslais cynyddol ar gydweithio a chyd-gynllunio gyda'r Fenter Iaith leol, yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill yn lleol megis Twf, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Clwb Ffermwyr Ifanc a gŵyl Llanast Llanrwst. Daeth y Cynllun Gweithredu Iaith o dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben yn 2009, gyda chytundeb fod pwyllgor y cynllun yn parhau i weithredu fel pwyllgor ardal i'r Fenter Iaith.
Menter Iaith	Cynhelir gweithgareddau amrywiol yn yr ardal, naill ai yn unigol neu ar y cyd gyda phartneriaid a sefydliadau cymunedol eraill. Mae gan Menter Iaith Conwy amryw o bwyllgorau ardal sydd yn gyrru gwaith y Fenter yn yr ardaloedd penodol hynny. Trefnir Gŵyl Llanast Llanrwst yn flynyddol yn y dref ac fe'i cynhelir ddiwedd Tachwedd / dechrau Rhagfyr. Mae'r Fenter hefyd yn gyfrifol am hwyluso cyfarfodydd fforwm iaith sirol yn chwarterol sydd yn cynnwys y prif bartneriaid sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.
Twf	Sesiynau gyda rhieni a darpar rieni mewn cydweithrediad â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd; grwpiau cefnogi Amser Twf; gweithgareddau cymunedol megis boreau hwyl ar gyfer y teulu mewn cydweithrediad â'r Fenter Iaith leol a phartneriaid eraill.
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt	Cynllun a oedd yn anelu i godi hyder a newid arferion iaith rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd am wahanol resymau yn peidio â gwneud hynny. Cynllun wedi bod yn weithredol yn Llanrwst o dro i dro.
Mudiad Meithrin (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru)	Cylch Ti a Fi a chylch meithrin yn cael ei gynnal yn ysgol gynradd Llanrwst.
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith	Wedi bod yn weithredol yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy, Llanrwst.
Urdd Gobaith	Aelodau'r Urdd ym mhob ysgol drwy'r ardal, ac mae aelwyd

Cymru	gymunedol yn cyfarfod yn wythnosol yn Llanrwst. Ceir amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ym maes chwaraeon yn cael eu cynnig gan yr Urdd yn lleol i'w haelodau.
Merched y Wawr	Cangen yn Llanrwst a nifer o ganghennau yn yr ardal ehangach gan gynnwys Capel Garmon, Carmel, Betws y Coed.
Clybiau Ffermwyr Ifanc	Clwb yn nhref Llanrwst.
Papurau Bro	<i>Y Pentan</i> yw'r papur bro sydd yn cynnwys newyddion y dref. Yn ogystal ceir papurau bro <i>Y Gadlas</i> a'r <i>Odyn</i> sydd yn bapurau bro ar gyfer pentrefi cyfagos i dref Llanrwst.
Cymraeg i Oedolion (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru, ac yn rhan o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)	Lleolwyd swyddog Popeth Cymraeg yn swyddfa Menter Iaith Conwy am gyfnod, nes iddyn nhw brynu adeilad y Tanerdy yn y dref rai blynyddoedd yn ôl. Cafwyd dosbarthiadau yn Llanrwst a phentrefi cyfagos, yn cael eu darparu ar ran Canolfan Cymraeg i Oedolion y Gogledd gan ganolfan Popeth Cymraeg. Trefnir hefyd ddigwyddiadau cymdeithasol gan y Canolfannau megis teithiau cerdded a chwisiau a Sadyrnau Siarad.

Atodiad 1.20: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Rhydaman)

Cynllun	Gweithgaredd/Sefyllfa
Cynllun Gweithredu Iaith	Sefydlwyd Cynllun Gweithredu Iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Rhydaman yn 2003. Ymestynnwyd ardal y Cynllun i gynnwys ardal ehangach ar draws Aman Tawe yn 2009, cyn i newidiadau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2011 arwain at sefydlu model newydd o weithredu yn yr ardal.
Cynllun Hybu'r Gymraeg Partneriaith Aman Tawe	O ganlyniad i ddadansoddiadau ystadegol ac ymchwil manwl gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sefydlwyd Cynllun Hybu'r Gymraeg (Partneriaith) Aman Tawe yn 2011. Bu'r Bwrdd yn gweithio'n agos â'r Mentrau Iaith Lleol - Bro Dinefwr, Castell Nedd Port Talbot a Brycheiniog i ddatblygu model newydd o weithio ar y cyd, a hynny mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol arbennig. Trosglwyddwyd y Cynllun i ofalaeth Llywodraeth Cymru yn 2012. Er i'r Cynllun gwreiddiol ddod i ben ddiwedd Mawrth 2015, mae'r Mentrau Lleol yn parhau i weithredu'r Cynllun ac yn derbyn grant ar gyfer parhau yn 2015/16.
Menter Iaith	Sefydlwyd Menter Iaith Dyffryn Aman ar ddechrau'r 1990au gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn dilyn ailstrwythuro'r Mentrau Iaith yn Sir Gâr yn 2007, Menter Bro Dinefwr fu'n gweithredu yn ardal Rhydaman a'r cyffiniau. Lleolwyd un o swyddfeydd y Fenter yn y dref. Yn ddiweddar, mae'r Fenter wedi sefydlu siop Gymraeg 'Cyfoes' yn y dref.
Twf	Sesiynau gyda rhieni a darpar rieni mewn cydweithrediad â bydwagedd, ymwelwyr iechyd a chanolfannau teulu; grwpiau cefnogi Amser Twf; gweithgareddau cymunedol megis boreau hwyl, digwyddiadau ymwybyddiaeth ar gyfer y teulu mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Lleol a phartneriaid eraill.
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt	Cynllun a oedd yn anelu i godi hyder a newid arferion iaith rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd am wahanol resymau yn peidio â gwneud hynny. Cynllun wedi bod yn weithredol yn Rhydaman ac yn y Betws.
Mudiad Meithrin (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru)	Cylchoedd Ti a Fi yng Nghwm Gors, Glanamau, Y Betws a Saron. Cylchoedd Meithrin yn Nhŷ Croes, Y Betws a Saron.
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith	Wedi bod yn weithredol yn Ysgol Uwchradd Dyffryn Aman.
Urdd Gobaith Cymru	Aelodaeth o'r Urdd yn uchel yn yr ardal, gyda gweithgarwch Aelwyd Penrhyd a Dawnsywyr Penrhyd yn amlwg yn nhref Rhydaman. Ceir amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys

	gweithgareddau ym maes chwaraeon yn cael eu cynnig gan yr Urdd yn lleol i'w haelodau.
Merched y Wawr	Cangen Rhydaman a'r Cylch.
Clybiau Ffermwyr Ifanc	Dim clwb yn nhref Rhydaman.
Papurau Bro	<i>Glo Môn</i> yn Nyffryn Aman. Yn ddiweddar mae Menter Bro Dinefwr wedi derbyn arian 'Bwrw Mlaen' i sefydlu papur bro ar-lein.
Cymraeg i Oedolion Llywodraeth Cymru (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, ac yn rhan o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)	Cynhelir dosbarthiadau sylfaenol wythnosol yn Llyfrgell Rhydaman ac yng Nghanolfan y Mynydd Du Brynaman.
Prosiect 'Symud Ymlaen'	Yng nghyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cynhaliwyd prosiect i wella dilyniant ieithyddol rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn ysgolion yr ardal.

Atodiad 1.21: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Aberystwyth)

Cynllun	Gweithgaredd/Sefyllfa
Cynllun Gweithredu Iaith	Ddim yn berthnasol i'r ardal hon.
Menter iaith	Cered, dan adain Cyngor Sir Ceredigion, yw'r Fenter Iaith leol sy'n gweithredu ar draws Ceredigion. Gweithredwyd cynllun 'Siarter Iaith Ceredigion' gan Cered yn ddiweddar gyda busnesau a sefydliadau yn Aberystwyth yn ymrwymo i gynllun sy'n codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg ar draws Ceredigion. Cynhaliwyd ymgyrchoedd Cymraeg yn Gyntaf yn y dref yng nghyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2004 a 2006.
Twf	Sesiynau gyda rhieni a darpar rieni mewn cydweithrediad â bydwagedd, ymwelwyr ieuchyd a chanolfannau teulu; grwpiau cefnogi Amser Twf; gweithgareddau cymunedol megis boreau hwyl; digwyddiadau ymwybyddiaeth ar gyfer y teulu mewn cydweithrediad â Mentrau Iaith Lleol a phartneriaid eraill.
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt	Ddim yn berthnasol i'r ardal hon.
Mudiad Meithrin (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru)	Ceir <i>Camau Bach</i> ym Meithrinfa ddydd Aberystwyth a <i>Ffrindiau Bach yr Eos</i> ym Mhenparcau. Lleolir Canolfan Genedlaethol y Mudiad yn y dref.
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith	Ddim yn berthnasol i'r ardal hon.
Urdd Gobaith Cymru	Aelodaeth o'r Urdd yn uchel yn yr ardal, ac aelodau ym mhob ysgol drwy'r ardal. Ceir amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ym maes chwaraeon yn cael eu cynnig gan yr Urdd yn lleol i'w haelodau.
Merched y Wawr	Cangen Aberystwyth a Chlwb Gwawr Angylion Aberystwyth yn y dref. Canghennau yn yr ardaloedd gwledig o gwmpas Aberystwyth yn cynnwys Genau'r Glyn, Llanafan, Llangwryfon, Llannon, Melindwr, Mynach a'r Cylch, Penrhyncoch, Rhydypennau, Talybont. Lleolir Canolfan Genedlaethol y Mudiad yn y dref.
Clybiau Ffermwyr Ifanc	Dim clwb yn nhref Aberystwyth, ond clybiau yn lleol gan gynnwys Talybont, Llangwryfon, Llanddeiniol a Trisant.
Papurau Bro	<i>Yr Angor</i>
Cymraeg i Oedolion (ariennir trwy Uned y	Lleolir Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru ar Gampws Prifysgol Aberystwyth. Darperir amrywiaeth o gyrsiau yn y dref ar gyfer ystod o lefelau gallu amrywiol. Trefnir

Gymraeg mewn Addysg, ac yn rhan o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)	digwyddiadau anffurfiol a chymdeithasol megis teithiau cerdded a chwisiau a Sadyrnau Siarad.
---	--

Atodiad 1.22: Gweithgareddau a chynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru (hanesyddol a chyfredol) naill ai yn uniongyrchol drwy sefydliadau cenedlaethol neu drwy brosiectau penodol (Porthmadog)

Cynllun	Gweithgaredd/Sefyllfa
Cynllun Gweithredu Iaith	Sefydlwyd Cynllun Gweithredu Iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ardal Meirion Dwyfor yn 2009. Roedd yr ardal yn cynnwys tref Porthmadog, er nad dyma ganolbwynt y Cynllun. Fel gyda'r holl gynlluniau y prif nod ac amcan oedd hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol ym meysydd teuluoedd, plant a phobl ifanc a grwpiau cymunedol. Gwelwyd pwyslais cynyddol ar gydweithio a chyd-gynllunio gyda'r Fenter Iaith leol, yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill yn lleol megis Twf, Mudiad Meithrin, yr Urdd ac yn y blaen. Pan ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2012 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y Cynllun Gweithredu Iaith i Lywodraeth Cymru a hynny nes 2014, pan benderfynwyd peidio ariannu'r Cynlluniau mwyach.
Menter Iaith	Lleolwyd Menter Iaith Gwynedd ym Mhorthmadog nes i'r fenter ddod i ben ddiwedd blwyddyn ariannol 2007/8. Yn y cyfnod dilynol roddwyd cyllid gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Gyngor Gwynedd weithredu i hyrwyddo'r Gymraeg; sefydlwyd Hunaniaith er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd o 2008/09 ymlaen.
Twf	Sesiynau gyda rhieni a darpar rieni mewn cydweithrediad â bydwagedd, ymwelwyr iechyd a chanolfannau teulu; ceir grwpiau cefnogi Amser Twf; gweithgareddau cymunedol megis boreau hwyl, digwyddiadau ymwybyddiaeth ar gyfer y teulu mewn cydweithrediad a phartneriaid eraill.
Mae Dy Gymraeg di'n Grêt	Cynllun a oedd anelu i godi hyder a newid arferion iaith rhieni sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd am wahanol resymau yn peidio â gwneud hynny. Cynllun heb fod yn weithredol yn y dref ond wedi ei gynnal ym Mhenrhyndeudraeth (pentref cyfagos).
Mudiad Meithrin (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru)	Cylch Meithrin yn yr ardal ond nid oes cylch Ti a Fi.
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith	Ddim yn berthnasol i'r ardal hon.
Urdd Gobaith Cymru	Aelodaeth o'r Urdd yn gyson yn yr ardal. Ceir amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ym maes chwaraeon yn cael eu cynnig gan yr Urdd yn lleol i'w haelodau.
Merched y Wawr	Cangen Porthmadog.

Clybiau Ffermwyr Ifanc	Clwb Dyffryn Madog yn cynnwys ardal Porthmadog.
Papurau Bro	<i>Yr Wylan</i>
Cymraeg i Oedolion (ariennir trwy Uned y Gymraeg mewn Addysg, ac yn rhan o Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)	Cynhelir rhai cyrsiau Cymraeg i oedolion yn yr ardal.